# Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus

Ymgynghoriad

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2017

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 17 Gorffennaf 2017

# Gair am y ddogfen hon

O dan y Siarter Brenhinol a'r Cytundeb newydd, mae rheoleiddio'r BBC yn cael ei drosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom ar 3 Ebrill 2017. Un o gyfrifoldebau canolog Ofcom ydy dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau newydd, rhaid i ni gyhoeddi fframwaith gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau er mwyn rheoleiddio'r BBC yn effeithiol. Mewn perthynas â pherfformiad y BBC, rhaid i ni osod trwydded weithredu ar gyfer y BBC, a gallwn osod mesurau i asesu perfformiad y BBC. Rhaid i'r drwydded nodi'r amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi rydyn ni'n credu sy'n briodol er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ynghylch ein cynigion ar gyfer:

a) trwydded weithredu'r BBC, a'r broses ar gyfer ei diwygio yn y dyfodol; a

b) mesurau perfformiad Ofcom, a'r broses ar gyfer eu diwygio yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, byddwn hefyd yn ystyried cynllun blynyddol interim y BBC, y mae'n rhaid iddo ei gyhoeddi erbyn 3 Gorffennaf 2017. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad a fydd yn rhoi ein penderfyniadau, gan gynnwys y drwydded weithredu derfynol, erbyn diwedd mis Medi 2017.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 1 |
| 2 | Cyflwyniad | 11 |
| 3 | Dull gweithredu Ofcom i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad | 16 |
| 4 | Trwydded weithredu newydd y BBC | 18 |
| 5 | Mesurau perfformiad | 51 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 58 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 61 |
| 3 | Cwestiynau'r ymgynghoriad | 63 |
| 4 | Trwydded weithredu arfaethedig y BBC | 64 |
| 5 | Fframwaith Gweithredu: gweithdrefnau arfaethedig ac ystyriaethau ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu | 65 |
| 6 | Trosolwg o'r fframwaith arfaethedig ar gyfer asesu perfformiad y BBC | 69 |
| 7 | Fframwaith gweithredu: gweithdrefnau arfaethedig ac ystyriaethau ar gyfer gosod a diwygio'r mesurau perfformiad | 76 |
| 8 | Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb | 79 |

Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Mae gan y BBC safle unigryw yn nhirwedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig

1.1 Y BBC ydy'r sefydliad cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf yn y DU, ac mae ganddo safle arbennig yn nhirwedd cyfryngau'r DU. Ar hyn o bryd mae'r BBC yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys saith gwasanaeth teledu ar draws y DU, nifer o wasanaethau botwm coch rhyngweithiol, deg gwasanaeth radio ar draws y DU, pump cenedlaethol, 39 lleol a gwasanaeth ar-lein sy'n cynnwys y BBC iPlayer, BBC Three a'r ystod lawn o wefannau a ddaw o dan bbc.co.uk. Mae cynnwys y BBC yn boblogaidd - mae 96% o oedolion yn y DU yn defnyddio ei wasanaethau bob wythnos, gan dreulio 18.3 awr ar gyfartaledd yn gwylio, yn gwrando ar neu'n defnyddio gwasanaethau'r BBC.[1] Oherwydd hyd a lled ei allbwn, mae gan y BBC y raddfa a'r presenoldeb i fynnu sylw'r genedl, ac mae ei ôl troed creadigol yn ymestyn ar draws bedwar ban byd.

1.2 Mae disgwyliadau'r cyhoedd o'r BBC yn eithriadol o uchel, a chaiff hyn ei siapio gan rôl y BBC fel darlledwr sy'n cael ei gyllido gan y cyhoedd, ei annibyniaeth ers tro byd oddi wrth ddylanwad allanol amhriodol ac, yn gysylltiedig â hyn, y rôl hollbwysig mae'n ei chwarae drwy gyfrannu at ddadleuon cyhoeddus yn y DU a'i chymunedau. Mae gan y BBC hefyd rôl bwysig yn cefnogi ac yn cynnal bywyd creadigol yn y DU.

## Mae'r Siarter newydd yn rhoi rôl i Ofcom i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus

1.3 Gyda'r Siarter Brenhinol newydd mewn grym tan ddiwedd 2027, bydd y BBC yn parhau i chwarae rhan ganolog yn nhirwedd cyfryngau'r DU. Er y bydd pethau'n parhau i fod yr un fath ar yr wyneb, mae hyn yn golygu newidiadau: mae'r Siarter newydd yn newid cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC, ac mae'n rhoi ffocws newydd ar fod yn unigryw. Mae'r Siarter newydd hefyd yn dynodi newid mawr o ran sut caiff y BBC ei oruchwylio: bydd y cyfrifoldeb am lywodraethu'r BBC yn cael ei drosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i Fwrdd newydd y BBC, a bydd y cyfrifoldeb am reoleiddio'r BBC yn cael ei symud o Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom.

1.4 O fewn y drefn newydd hon, rôl Bwrdd y BBC ydy cyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. Rôl Ofcom ydy dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion, ar draws yr ystod o'i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Fel rhan o'n cyfrifoldebau rheoleiddio newydd, mae'n rhaid i ni gyhoeddi fframwaith gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau a fydd yn sicrhau bod y BBC yn cael ei reoleiddio'n effeithiol, fel sy'n cael ei nodi yn y Siarter a'r Cytundeb cysylltiedig rhwng Llywodraeth y DU a'r BBC.

1.5 Mae swyddogaethau Ofcom hefyd yn cynnwys pennu trwydded weithredu i'r BBC ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y DU. Bydd y drwydded hon yn cynnwys amodau

[1] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2015/16 y BBC http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/reports/pdf/bbc-annualreport-201516.pdf [Cyrchwyd 16 Mawrth 2017]

rheoleiddio y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud y canlynol:

1.5.1 cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo dibenion cyhoeddus;

1.5.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau nodedig; a

1.5.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.[2]

1.6 Nid yw'r drwydded yn nodi cyllidebau na strategaethau ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni'r BBC. Nid yw'r meysydd hyn yn rhan o swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC. O dan ddarpariaethau'r Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. Mae Bwrdd y BBC hefyd yn gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith creadigol.[3] Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno, y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno; a'r ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU.[4]

1.7 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut rydyn ni'n bwriadu gweithredu trefn reoleiddio effeithiol tan ddiwedd cyfnod y Siarter yn 2027, a fydd yn dal y BBC i gyfrif yn ôl ei gynlluniau, gyda hyblygrwydd i newid gofynion manwl y drefn dros amser wrth i'r farchnad ddarlledu ddatblygu ac wrth i chwaethau ac arferion cynulleidfaoedd newid. Bydd cynulleidfaoedd wrth galon ein dull gweithredu. Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau mae gennym amrywiaeth o declynnau gallwn ni eu defnyddio, gan gynnwys:

1.7.1 gallu gosod amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU drwy drwydded weithredu'r BBC.[5] Bydd y BBC yn wynebu sancsiynau, gan gynnwys - am y tro cyntaf – posibilrwydd cosbau ariannol, os bydd yn methu â chyflawni'r amodau rheoleiddio hyn.

1.7.2 fframwaith mesur perfformiad newydd i asesu sut mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion;

1.7.3 gofyniad y byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y mesurau perfformiad hyn a chydymffurfiad y BBC â'r amodau rheoleiddio newydd; a

[2] Erthygl 46(3) o'r Siarter.

[3] Erthygl 20(3)(a) a (b) o'r Siarter.

[4] Erthygl 36 o'r Siarter.

[5] Mae Erthygl 46(3) o'r Siarter yn nodi mai cwmpas trwydded weithredu Ofcom, a'r amodau rheoleiddio sydd ynddi, ydy gwasanaethau cyhoeddus y DU. Felly nid yw'r cwmpas hwn yn cynnwys y World Service na gwasanaethau masnachol y BBC.

1.7.4 gofyniad ein bod yn cynnal o leiaf dau adolygiad manwl o berfformiad y BBC. Gallwn ni hefyd gynnal adolygiad ad hoc pan fyddwn ni'n teimlo bod hynny'n briodol.

1.8 Rhaid i'r BBC hefyd sicrhau bod ei allbwn newyddion yn gywir ac yn ddiduedd, a'i fod yn ystyried effaith ei weithgareddau ar y farchnad ehangach. Mae dull gweithredu Ofcom o ran rheoleiddio yn y meysydd hyn wedi'i nodi mewn man arall.[6]

1.9 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer cyfres newydd o amodau rheoleiddio – sydd mewn trwydded weithredu – a fframwaith arfaethedig ar gyfer ein mesurau perfformiad newydd. Mae hefyd yn gwneud cynigion ar gyfer y broses o ddiwygio'r rhain yn y dyfodol, er enghraifft er mwyn adlewyrchu newidiadau yn nisgwyliadau cynulleidfaoedd, perfformiad y BBC dros amser, neu unrhyw gyfyngiadau oherwydd ei sefyllfa ariannol.

1.10 Mae ein dull gweithredu yn ceisio cadw rhyddid golygyddol a chreadigol y BBC ar yr un pryd â dal y BBC i gyfrif o ran canlyniadau pwysig i gynulleidfaoedd. A ninnau yn rheoleiddiwr, nid ydym yn atgynhyrchu'r gofynion strategol helaeth a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth drwy ei drwyddedau gwasanaeth. Bwrdd newydd y BBC fydd yn gyfrifol am bennu ei strategaeth ei hun. Ond rydyn ni wedi rhoi amodau rheoleiddio pan rydyn ni'n credu bod gwneud hynny o fudd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ac i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel sy'n ofynnol o dan y Siarter a'r Cytundeb.

1.11 Yn ystod yr ymgynghoriad, mae rhyddid i'r BBC wneud ymrwymiadau tebyg sydd fwyaf addas i'w strategaeth a chynnwys y rhain yn ei gynllun blynyddol a'i gylch gwaith creadigol (ochr yn ochr â mesurau perfformiad clir) er mwyn galluogi Ofcom i'w ddal i gyfrif am eu cyflawni. Gall Ofcom ddiwygio ei amodau arfaethedig i adlewyrchu ymrwymiadau o'r fath gan y BBC. Mae rhagor o fanylion am ein dull gweithredu ar gael isod. Rydyn ni'n cynnig cyfres o amodau rheoleiddio i gryfhau atebolrwydd o amgylch perfformiad y BBC

1.12 Mae'r Siarter newydd yn rhoi cyfres o amcanion ar gyfer y BBC drwy'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus newydd, sydd eu hunain yn esblygiad ar y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus a oedd ar waith o dan y Siarter blaenorol. Mae mwy o fanylion ynghylch y disgwyliadau ar gyfer y drwydded weithredu – a thrwy hynny'r BBC – yn Atodlen 2 y Cytundeb, sy'n canolbwyntio ar gysyniad 'natur unigryw' y BBC, adlewyrchiad o'r prif newid i'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus o dan y Siarter newydd. Mae Atodlen 2 yn rhoi nifer o rwymedigaethau manwl arnom sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein cynigion.

1.13 Rydyn ni'n cynnig un drwydded weithredu ar gyfer y BBC a fydd yn cynnwys amodau rheoleiddio clir, mesuradwy a digon heriol mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC. Mae manteision un drwydded weithredu mewn tryloywder a chysondeb, gall yr un drwydded weithredu hefyd roi mwy o hyblygrwydd i ni ymateb i batrymau defnyddio sy'n esblygu yn y dyfodol drwy ganiatáu ar gyfer amodau nad ydynt yn benodol i wasanaethau penodol. Mae'r dull gweithredu arfaethedig hwn hefyd yn rhoi fframwaith rheoleiddio symlach i'r BBC, gyda'r holl amodau rheoleiddio sy'n

[6] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/ofcom-and-the-bbc/the-operating-framework

ymwneud â pherfformiad wedi'u gosod mewn un lle ac yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd.

1.14 Roedd dwy ran i sut roedden ni'n cynnig yr amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu. Yn gyntaf, rydyn ni'n cynnig cadw neu ddiwygio unrhyw amodau a oedd wedi cael eu rhoi o'r blaen gan Ymddiriedolaeth y BBC pan fyddwn ni'n credu eu bod yn helpu i gefnogi'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus. Yn ail, rydyn ni'n cynnig gosod amodau newydd ychwanegol, pan fyddwn ni'n credu eu bod yn sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r dibenion cyhoeddus. Wrth wneud hynny, rydyn ni wedi cael ein goleuo gan ein sail ymchwil bresennol, gan gynnwys ein harolwg blynyddol o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ac ymchwil ymgynghori newydd am berthynas cynulleidfaoedd â'r BBC, gan gynnwys ei natur unigryw.[7] Mae'r canfyddiadau cyntaf o'r ymchwil hwn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Pan fo'n briodol, rydyn ni hefyd wedi ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a gyhoeddwyd mewn perthynas â phroses Adolygu'r Siarter y Llywodraeth.

1.15 Rydyn ni wedi cadw'r rhan fwyaf o'r amodau meintioledig a oedd yn nhrwyddedau gwasanaeth presennol y BBC yn ein trwydded, ond wedi dileu'r gofynion ansoddol helaeth a oedd yn nodwedd ohonynt. Yn ein barn ni, roedd y rhain yn ymwneud mwy â llywodraeth neu swyddogaeth strategol yn hytrach na swyddogaeth rheoleiddio. Fodd bynnag mae ein trwydded weithredu yn cynnig cyfres o amcanion lefel uchel ar gyfer y BBC rydyn ni'n rhagweld a fydd yn newid prin dim, os o gwbl, dros amser. Bydd y rhain yn datgan yn glir - i'r BBC ac i randdeiliaid eraill - y canlyniadau cyffredinol rydyn ni'n ceisio eu cyflawni, er budd gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr.

1.16 Wrth lunio'n cynigion hyn, rydyn ni wedi osgoi rheoliadau sy'n dyblygu neu'n drysu rôl Bwrdd newydd y BBC. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu'r strategaeth gyffredinol a gosod cyllidebau ar gyfer pob un o wasanaethau'r BBC.

1.17 Rydyn ni hefyd wedi osgoi rheoliadau sy'n ymyrryd â phenderfyniadau golygyddol y BBC: nid yw er budd neb i'r rheoleiddiwr wneud penderfyniadau creadigol na phennu amserlenni. Mae hi'n bwysig i'r drefn reoleiddio ganiatáu i'r BBC ymarfer ei ddisgresiwn creadigol, arloesi a chymryd risgiau, mewn fframwaith cyffredinol o atebolrwydd. Am y rheswm hwn, mae ein cynigion yn canolbwyntio ar ofynion cadarnhaol ynghylch lefelau darparu sylfaenol gan y BBC. Ni fyddai diwallu'r amodau hyn ar ei ben ei hun yn gwarantu cyflawni cenhadaeth y BBC yn llwyddiannus a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus; ond maen nhw'n egluro mai dyma'r gofynion sylfaenol a bennir ar gyfer y BBC - a fydd hefyd yn destun mesur a monitro ehangach.

1.18 Rydyn ni wedi ystyried effaith ein cynigion ar y BBC ac rydyn ni'n hyderus bod y baich cyffredinol yn un mae modd ei reoleiddio ac yn un cymesur. Rydyn ni'n cydnabod y gall y BBC yn wynebu heriau wrth gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â setliad ffi'r drwydded[8] yn 2016, a byddwn yn ystyried yn y dyfodol a oes angen i unrhyw ofynion rheoleiddio esblygu o ganlyniad, a byddwn hefyd yn asesu sut bydd modd parhau i ddarparu'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus.

---

[7] Ofcom, *Crynodeb Gweithredol Ofcom o'r Ymchwil i Natur Unigryw'r BBC*, 2017

[8] BBC, http://www.bbc.co.uk/mediacentre/speeches/2016/tony-hall-enders

1.19 Rydyn ni'n credu y bydd ein cynigion yn cryfhau'r drefn i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad wrth ddarparu ei ddibenion cyhoeddus. At ei gilydd, rydyn ni'n cynnig cynyddu nifer o gwotâu presennol mewn meysydd allweddol lle mae'r BBC yn perfformio ar lefel sy'n uwch na'r gofynion presennol ac wedi bod yn gwneud hynny ers tro. Bydd hyn yn sicrhau bod lefelau darparu uchel yn parhau a bod cynulleidfaoedd yn dal i gael cynnwys a gwasanaethau creadigol, unigryw ac o ansawdd uchel.

1.20 Yn fwy penodol, mewn perthynas â phob un o'r dibenion cyhoeddus newydd, rydyn ni'n cynnig:

1.20.1 Tanlinellu pwysigrwydd sylfaenol allbwn newyddion, materion cyfoes a ffeithiol y BBC, ac adlewyrchu sut mae darparu newyddion a gwybodaeth mae modd ymddiried ynddynt i bob cynulleidfa yn ganolog i'r BBC. Rydyn ni'n cynnig cadw'r rhan fwyaf o'r amodau rheoleiddio sydd ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas â newyddion a materion cyfoes – gan gynnwys ar gyfer BBC One a BBC Two – a chynyddu'r gofynion os rhagorwyd arnynt dros amser. Bydd hyn yn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu newyddion a materion cyfoes mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau. Ar ben hynny, rydyn ni'n cynnig amodau oriau brig newydd ar gyfer newyddion ar BBC Radio 1 a newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 2. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y bydd newyddion a materion cyfoes ar-lein yn dod yn bwysicach dros amser wrth i ragor o bobl gael eu newyddion a'u materion cyfoes ar-lein drwy wefannau ac apiau, a bydd disgwyl i'r BBC arloesi yn y maes hwn i sicrhau bod ei allbwn newyddion a materion cyfoes yn dal i gael ei ddefnyddio'n eang.

1.20.2 Cyflwyno amodau rheoleiddio newydd sy'n canolbwyntio ar nifer yr oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ar draws amrywiaeth o wasanaethau teledu. Ar hyn o bryd mae'r BBC yn destun cwotâu ar gyfer nifer y cynyrchiadau gwreiddiol ac mae'n diwallu'r rhain yn gyfforddus. Mae ein gofynion newydd arfaethedig yn canolbwyntio ar gynnwys newydd 'sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf'. Mae ymchwil ymysg cynulleidfaoedd a gasglwyd gan ein Hadolygiad diweddaraf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'n harolygon Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus blynyddol yn dangos bod cynnwys gwreiddiol newydd yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd y DU. Fodd bynnag, mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn 30% mewn termau real ers y brig yn 2004, ac mae nifer yr oriau hefyd wedi disgyn 7% ers y brig yn 2003. Bydd mwy o ffocws ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'r BBC yn unigryw, yn greadigol ac yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU.

1.20.3 Er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu rhaglenni difyr ac ysgogol i'r cynulleidfaoedd ieuengaf, rydyn ni'n cynnig targedau newydd ar gyfer CBeebies a CBBC mewn perthynas â chynnwys newydd. Rydyn ni'n cydnabod y rôl allweddol mae BBC ar-lein yn ei chwarae o ran addysg ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau, ac rydyn ni'n bwriadu gwreiddio hyn mewn amod newydd.

1.20.4 I gydnabod bod rhaglenni celfyddydau, cerddoriaeth a chrefyddol yn lleihau ar draws sianeli pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ac i gydnabod y rôl allweddol mae darpariaeth y BBC yn ei chwarae, rydyn ni'n cynnig cynyddu

targedau presennol ar deledu ar gyfer y BBC yn y genres hyn ac rydyn ni'n cynnig rhai rhwymedigaethau oriau brig newydd ar gyfer rhaglenni celfyddydau, cerddoriaeth a chrefyddol ar BBC One a BBC Two. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd i'r gynulleidfa fwyaf bosibl ddysgu drwy ymgysylltu â syniadau a safbwyntiau newydd a chyffrous. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y BBC yn parhau i chwarae rôl hollbwysig drwy ddarparu rhaglenni sy'n trafod pynciau fel gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Gosod yn glir, ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, yr amodau a fydd yn sicrhau bod cynnwys yn cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd ar draws gwahanol rannau o'r DU. Mae ein cynigion ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth yn cynnwys cynyddu lefelau cwotâu pan fo hynny'n briodol, pan fydd y BBC wedi rhagori ar lefelau presennol dros gyfnod. Rydyn ni'n cynnig cyflwyno gofynion sy'n gwarantu gwariant ar gynnwys rhwydwaith, a bod nifer yr oriau a wneir ym mhob un o'r gwledydd yn gymesur â chyfran y boblogaeth. Ochr yn ochr â'r gofynion newydd hyn, yn 2017/18 byddwn yn lansio adolygiad o'n harweiniad ar gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Lundain, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain, ym marn y BBC a sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn gwneud cyfraniad go iawn at economïau creadigol y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydyn ni'n disgwyl i gynyrchiadau'r BBC y tu allan i'r M25 gynnwys amrywiaeth o genres a defnyddio amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu. Dylai rhaglenni rhanbarthol y BBC hefyd gynnwys amrywiaeth o genres. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli'n gywir a phortreadu'n ddilys y gwledydd a'r rhanbarthau drwy ei gynnwys rhwydwaith, mae hyn wedi cael ei gynnwys fel rhan o'n hymrwymiadau amrywiaeth ehangach.[9]

1.20.5 Mynnu bod y BBC yn gwella ei amrywiaeth ar sgrin ac ar yr awyr, gyda'r bwriad cyffredinol o sicrhau bod allbwn a gwasanaethau'r BBC yn adlewyrchu'r DU drwyddi draw. Rydyn ni'n cynnig amodau newydd a fydd yn mynnu bod y BBC yn adrodd yn flynyddol ar gyflawni amrywiaeth ar sgrin ac ar yr awyr, bodlonrwydd cynulleidfaoedd, a'r camau y mae'n eu cymryd i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg grwpiau cynulleidfaoedd anfodlon. Rydyn ni'n cynnig ei bod yn rhaid i'r BBC gytuno ar god ymarfer amrywiaeth newydd gyda ni i sicrhau bod ei gynnwys a fydd yn cael ei gomisiynu o'r newydd yn cynrychioli'n gywir, yn portreadu'n ddilys ac yn adlewyrchu poblogaeth y DU. Nid ydym yn cynnig amodau rheoleiddio o ran amrywiaeth gweithlu'r BBC ar y cam hwn, er rydyn ni'n cydnabod bod hyn yn gallu chwarae rhan bwysig mewn perthynas ag amrywiaeth ar sgrin ac ar yr awyr. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC gynyddu amrywiaeth oddi ar y sgrin ac oddi ar yr awyr ac adrodd yn agored ynghylch ei gynnydd. Byddwn ni'n ystyried yr achos dros gynnal adolygiad ad hoc o berfformiad y BBC yng nghyswllt amrywiaeth os na fyddwn ni'n gweld arwyddion cynnar a pharhaus o gynnydd.

[9] Rydyn ni'n diffinio 'cynrychiolaeth' fel y raddfa y mae pobl a nodweddion yn ymddangos a 'phortread' fel y ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y DU. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n ddilys drwy ymchwil ymysg defnyddwyr. Caiff hyn ei egluro yn fanylach ym mharagraffau 4.101 a 4.102.

1.21 Rydyn ni'n gofyn am sylwadau ynghylch y dull gweithredu arfaethedig i sefydlu cyfres o amodau rheoleiddio. Caiff rhanddeiliaid eu gwahodd i ddarparu safbwyntiau ar unrhyw feysydd penodol maen nhw'n credu a fyddai'n elwa o gael ffocws yn y gyfres o amodau arfaethedig a nodir yn y drwydded ddrafft.

## Rydyn ni'n cynnig cyflwyno cyfres newydd o fesurau perfformiad i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus dros amser

1.22 Rydyn ni'n cynnig ategu'r gofynion a'r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu gyda chyfres ehangach o ddangosyddion i asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Bydd y mesurau perfformiad hyn yn edrych ar y cynnwys mae'r BBC yn ei greu, lle mae'r cynnwys ar gael, sut mae'r gynulleidfa yn cael gafael arno ac effaith y cynnwys hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod ein dull gweithredu o ran dal y BBC i gyfrif yn seiliedig ar sail gadarn o dystiolaeth, gan ddefnyddio data ac ymchwil y BBC, yn ogystal â thystiolaeth a fydd wedi cael ei chasglu'n annibynnol gan Ofcom ei hun.

1.23 Mae hyn yn eithriadol o bwysig er mwyn deall agweddau'r cyhoedd at berfformiad y BBC wrth ddiwallu cysyniadau yn y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus, fel 'ansawdd uchel', 'natur unigryw' a 'chreadigol'. Mae natur y rhain yn golygu eu bod yn oddrychol ac felly'n anoddach eu cynnwys yn effeithiol mewn amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi. Byddwn yn canolbwyntio ein mesurau perfformiad ar wasanaethau unigol, grwpiau o wasanaethau neu allbwn cyffredinol y BBC gan ddibynnu ar beth sydd fwyaf priodol. Ond nid ydym yn bwriadu mesur 'natur unigryw' - na phriodoleddau eraill - darnau unigol o gynnwys neu gyfresi rhaglenni.

1.24 Bydd y mesurau perfformiad hyn yn ganolog i'n hadolygiadau cyfnodol manwl o berfformiad y BBC. Ar ben hynny, byddant yn rhybudd cynnar ar gyfer meysydd o dangyflawni posibl gan y BBC. Bydd hyn yn caniatáu i ni asesu pa mor ddymunol ydy cynnal adolygiad ad hoc, neu ynghylch cynnwys amodau rheoleiddio newydd neu fwy heriol yn y drwydded weithredu, os bydd ein mesur perfformiad yn dangos bod hyn yn briodol.

1.25 Rydyn ni'n cynnig y fframwaith canlynol ar gyfer ein mesurau perfformiad:

1.25.1 **Argaeledd**. Disgrifio'r gwariant ar, natur, math, swm ac ystod y cynnwys sydd ar gael ar draws y BBC. Mae hwn yn gategori 'gwaelodlin' sy'n helpu i greu dealltwriaeth gadarn o natur cynnwys y BBC sy'n cael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi ar-lein.

1.25.2 **Defnyddio**. Y graddau y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu. Mae'r categori hwn yn rhoi golwg gyffredinol o gyrhaeddiad cynnwys a'r amser sy'n cael ei dreulio yn defnyddio cynnwys y BBC, fesul gwasanaeth, llwyfan neu ar draws llwyfannau, yn ogystal ag i ba raddau y mae'r BBC yn cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ar draws y DU ac yn y gwledydd.

1.25.3 **Effaith**. Archwilio beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC, a'i effaith ar eu bywydau.

1.25.4 **Ffactorau cyd-destunol**. Mae rhai agweddau o bob diben cyhoeddus nad oes modd eu mesur dim ond drwy'r categorïau uchod. Er enghraifft, byddai unrhyw asesiad o record y BBC o ran cymryd risgiau creadigol a darparu

cynnwys arloesol yn elwa o ystyried gwybodaeth ansoddol a geir gan y BBC. Efallai y byddwn ni eisiau ystyried newidiadau yng nghyllid y BBC, neu ffactorau polisi cyhoeddus allanol eraill.

1.26 Mae'r Siarter newydd yn mynnu bod y BBC yn sefydlu ei fesurau perfformiad ei hun, fel y mae wedi'i wneud yn y gorffennol. Bydd ein mesurau perfformiad yn ategu rhai'r BBC, a byddwn yn eu hystyried yn ein gwaith. Ond mae hi'n bwysig bod ein mesurau perfformiad hefyd yn annibynnol: rhaid i drefn rheoleiddio gredadwy gael mynediad at sail dystiolaeth annibynnol.

1.27 Rydyn ni'n gofyn am sylwadau ynghylch y dull gweithredu arfaethedig i sefydlu fframwaith mesur perfformiad. Caiff rhanddeiliaid hefyd eu gwahodd i ddarparu safbwyntiau ar unrhyw feysydd penodol maen nhw'n credu a fyddai'n elwa o gael ffocws yn y gyfres o fesurau perfformiad fel sy'n cael ei dangos yn Atodiad 6.

## Rydyn ni'n disgwyl i'r drwydded weithredu a'r mesurau perfformiad esblygu dros amser

1.28 Mae'r Siarter yn mynnu bod y BBC yn cynhyrchu cynllun blynyddol sy'n gorfod cynnwys cylch gwaith creadigol. Rydyn ni'n disgwyl i hwn nodi'n fanwl sut y mae'r BBC yn bwriadu defnyddio ei amrywiaeth o wasanaethau i gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, a'r mesurau perfformiad y bydd yn eu defnyddio i asesu bod hyn yn cael ei wneud.

1.29 Bydd trwydded weithredu Ofcom yn cynnwys dim ond yr amodau rheoleiddio rydyn ni'n ei gredu sy'n briodol i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, yn hytrach na cheisio diffinio pob agwedd o allbwn a gwasanaethau'r BBC yn drylwyr.

1.30 Mae'r broses ar gyfer gweithredu'r dogfennau newydd hyn i ddechrau wedi'i nodi yn y Siarter newydd, sy'n mynnu bod y BBC yn cynhyrchu cynllun blynyddol interim, a fydd yn cynnwys cynllun gwaith drafft a chylch gwaith creadigol, erbyn 3 Gorffennaf 2017. Bydd y BBC yn gallu ystyried y cynigion ymgynghori hyn wrth gynhyrchu ei gynllun blynyddol interim. Cyn i ni benderfynu ar ffurf derfynol y drwydded weithredu, y mesurau perfformiad a'r fframwaith gweithredu, byddwn yn craffu cynllun blynyddol interim y BBC, ochr yn ochr â'r ymatebion i'n hymgynghoriad gan randdeiliaid eraill. Rydyn ni'n disgwyl i'r cynllun blynyddol interim gynnwys ymrwymiadau y bydd modd eu defnyddio i ddal y BBC i gyfrif. Os oes meysydd lle rydyn ni'n teimlo nad yw'r BBC yn darparu, byddwn ni'n ystyried a fyddai'n briodol cynnwys rhagor o amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu derfynol, yr ydym yn bwriadu ei gosod a'i chyhoeddi erbyn diwedd mis Medi 2017. Bydd yr union amseriad yn dibynnu ar gynllun blynyddol interim y BBC, a fydd yn fewnbwn i'n hymgynghoriad, ac ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid eraill.

1.31 Ar ôl i'r broses gychwynnol hon gael ei chwblhau, rydyn ni'n rhagweld proses barhaus o esblygu ar gyfer cynllun blynyddol y BBC, a thrwydded gweithredu Ofcom, a fydd wedi'i goleuo gan berfformiad y BBC dros amser, newidiadau mewn ymddygiad a disgwyliadau cynulleidfaoedd, technoleg a'r farchnad ehangach. Er enghraifft, ar ddechrau cyfnod y Siarter blaenorol, yn 2007, nid oedd y BBC iPlayer wedi cael ei lansio eto. Nawr, mae ymchwil diweddar gan Ofcom wedi gweld bod

50% o'r ymatebwyr yn ei ddefnyddio o leiaf unwaith y mis.[10] Er na allwn ni ragweld yn union sut gallai gwasanaethau ac allbwn y BBC newid dros yr 11 mlynedd nesaf, gallwn dybio y bydd newidiadau o'r un raddfa yn debyg o ddigwydd.

1.32 Bydd yr amodau rheoleiddio hefyd yn esblygu i adlewyrchu perfformiad y BBC. Mae yna berthynas ddeinamig rhwng ein mesurau perfformiad a'r amodau rheoleiddio: os, er enghraifft, bydd y mesurau perfformiad yn darparu tystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad neu lefelau is o fodlonrwydd cynulleidfaoedd, byddwn yn ystyried sut byddai modd cryfhau'r amodau rheoleiddio. Gallwn hefyd gasglu tystiolaeth drwy ein hadolygiadau cyfnodol neu ad hoc sy'n gwneud i ni ystyried newid yr amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu.

1.33 Yn yr un modd, rydyn ni'n disgwyl y bydd ein cyfres o fesurau perfformiad yn esblygu dros amser. Er enghraifft, efallai byddwn ni'n ychwanegu mesurau mewn ymateb i feysydd sy'n achosi pryder i gynulleidfaoedd neu randdeiliaid, neu os bydd ein hadolygiadau cyfnodol neu ad hoc yn dod o hyd i faterion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

1.34 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n nodi cynigion ar gyfer y gweithdrefnau rydyn ni'n eu dilyn wrth geisio gosod neu ddiwygio'r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu, ac wrth osod neu ddiwygio mesurau perfformiad. Mae'r gweithdrefnau drafft hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer sut dylem ni ymgynghori a sut byddem ni'n cyhoeddi canlyniad ein penderfyniadau yn y meysydd hyn.

## Mae perthynas gyda meysydd eraill o'n cyfrifoldebau rheoleiddio ar gyfer y BBC

1.35 Nid yw ein cyfrifoldebau o ran perfformiad y BBC yn bodoli ar eu pen eu hunain; maen nhw'n rhan o gyfres ehangach o gyfrifoldebau rheoleiddio, sy'n edrych yn gyffredinol ar:

1.35.1 safonau golygyddol: sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion y Cod Darlledu[11], gan gynnwys mewn meysydd fel didueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy a niwed a thramgwydd; a

1.35.2 cystadleuaeth: sicrhau bod effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn briodol mewn perthynas â'r manteision uniongyrchol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion.

1.36 Byddwn yn gofalu ein bod yn ystyried sut mae'r cyfrifoldebau eraill yn rhyngweithio â'r fframwaith perfformiad. Er enghraifft, yn ein gwaith safonau golygyddol rydyn ni'n nodi'r materion sy'n cwestiynu perfformiad y BBC yn hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus, gallwn adolygu hyn fel rhan o'n fframwaith perfformiad.

1.37 Hefyd, bydd Ofcom yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC yn uniongyrchol drwy'r Siarter neu'r Cytundeb, neu drwy

[10] Ofcom 2016 Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

[11] Ofcom, *Cod Darlledu*, ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code

ddeddfwriaeth, fel cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol[12], a gofynion mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl â nam ar y golwg neu'r clyw[13].

## Y camau nesaf

1.38 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 17 Gorffennaf 2017. Rydyn ni’n bwriadu cyhoeddi datganiad – gan gynnwys rhannau perthnasol o’r fframwaith gweithredu a thrwydded weithredu derfynol – erbyn diwedd mis Medi 2017.

1.39 Rydyn ni’n cynnig y bydd yr amodau rheoleiddio a fydd yn y drwydded yn dod i rym ar y dyddiad y caiff y drwydded ei chyhoeddi, ond gydag amodau sy’n gosod gofynion blynyddol yn dod i rym naill ai ar 1 Ionawr 2018 (pan fydd y gofyniad yn berthnasol i flwyddyn galendr) neu 1 Ebrill 2018 (pan fydd y gofyniad yn berthnasol i flwyddyn ariannol).[14] Ar ben hynny, byddwn yn ystyried yr achos dros ddull gweithredu trosiannol ar gyfer amodau unigol pan fo’n briodol, er enghraifft pan fydd angen amser ychwanegol ar y BBC efallai i gomisiynu gwaith newydd.

1.40 Rhaid i’r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol terfynol cyn pen tri mis o gyhoeddi’r drwydded weithredu derfynol.

---

[12] Paragraff 6 o Atodlen 3 yn y Cytundeb, ac Atodlen 12 i Ddeddf Darlledu 2003.

[13] Paragraff 9 o Atodlen 3 i'r Cytundeb.

[14] Mae cwotâu Ofcom yn berthnasol i flynyddoedd calendr ac yn berthnasol i amrywiaeth o ddarlledwyr, nid dim ond y BBC. Roedd Ymddiriedolaeth y BBC yn gosod cwotâu ar draws blynyddoedd ariannol er mwyn cyd-fynd ag adroddiadau blynyddol y BBC. Er mwyn sicrhau bod modd cymharu data dros amser a rhwng darlledwyr, rydyn ni’n bwriadu parhau â'r dull gweithredu hwn.

## Adran 2

# Cyflwyniad

## Cefndir yr ymgynghoriad hwn

2.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Siarter a Chytundeb newydd y BBC a oedd yn datgan sut caiff y BBC ei lywodraethu a'i reoleiddio dros yr 11 mlynedd nesaf.[15][16] Yn y drefn newydd, bydd y cyfrifoldeb am lywodraethu'r BBC yn cael ei drosglwyddo i Fwrdd BBC newydd a bydd y cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU yn cael ei drosglwyddo i Ofcom.

2.2 Ofcom ydy rheoleiddiwr annibynnol diwydiannau cyfathrebu'r DU, a bydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldebau newydd dros reoleiddio'r BBC ar 3 Ebrill 2017. Wrth wneud hyn byddwn yn ystyried ein dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a gofynion penodol y Siarter a'r Cytundeb.

2.3 At ei gilydd mae modd rhannu rôl rheoleiddio Ofcom mewn perthynas â'r BBC yn dri prif ran, sy'n edrych ar safonau cynnwys, effaith y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, a pherfformiad y BBC wrth gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus.[17] Mae'n rhaid i ni gyhoeddi fframwaith gweithredu sy'n cynnwys y darpariaethau rydyn ni'n credu sy'n briodol i sicrhau bod y BBC yn cael ei reoleiddio'r effeithiol fel y nodir yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith. Mae'r fframwaith gweithredu yn gyfres o ddogfennau sy'n edrych ar yr ystod lawn o'n dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn safonau cynnwys, cystadleuaeth a pherfformiad.

2.4 Mae'r Siarter yn mynnu bod Ofcom yn gosod trwydded weithredu ar gyfer y BBC a fydd yn cynnwys amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi. Gallwn ni benderfynu ar ragor o fesurau rydyn ni'n credu sy'n briodol er mwyn asesu sut mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, er mai'r BBC ei hun sy'n gyfrifol am osod fframwaith ar gyfer mesur ei berfformiad.[18]

2.5 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi'r gwahaniaeth clir rhwng rôl Bwrdd newydd y BBC, sef llywodraethu'r BBC, a rôl Ofcom, a fydd yn rheoleiddiwr allanol sy'n dal y BBC i gyfrif. Er mwyn i'r drefn newydd lwyddo mae hi'n hollbwysig na fydd dryswch ynghylch y gwahaniaeth hwn: dylai Bwrdd newydd y BBC gadw cyfrifoldeb clir dros osod cyfeiriad strategol y BBC a'i gyllidebau ac am oruchwylio dull gweithredu golygyddol a chreadigol cyffredinol y BBC, gan gynnwys goruchwylio penderfyniadau am gomisiynu ac amserlennu. Rôl Ofcom ydy darparu a gorfodi fframwaith atebolrwydd clir.

---

[15] 'Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "Siarter"), sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement.

[16] 'Y Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC' (y "Cytundeb"), sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-frameworkagreement.

[17] Adran 198 Deddf Cyfathrebiadau 2003, Siarter, Erthygl 44 ac Erthygl 46.

[18] Adran 198 Deddf Cyfathrebiadau 2003, Siarter, Erthygl 44 ac Erthygl 46.

2.6 Mae'r ymgynghoriad hwn ynghylch pedair dogfen sy'n ymwneud â rheoleiddio'r BBC:

2.6.1 trwydded weithredu'r BBC, a fydd yn cynnwys yr amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi rydyn ni'n eu gosod;

2.6.2 y rhan o'r fframwaith gweithredu sy'n egluro'r broses byddwn ni'n ei dilyn pan fyddwn yn gosod ac yn diwygio darpariaethau'r drwydded weithredu;

2.6.3 mesurau perfformiad Ofcom; ac

2.6.4 y rhan o'r fframwaith gweithredu sy'n egluro'r broses byddwn ni'n ei dilyn pan fyddwn yn gosod ac yn diwygio mesurau perfformiad

2.7 O dan y Cytundeb, rhaid i ni ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un arall rydyn ni'n credu sy'n briodol cyn gosod pob un o'r pedair dogfen hyn. Dyma ein hymgynghoriad.

## Dyletswyddau Ofcom

2.8 Wrth lunio cynigion ar gyfer dogfennau'r drwydded weithredu, mesurau perfformiad a fframwaith gweithredu, mae Ofcom yn rhwym wrth ei ddyletswyddau cyffredinol yn adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Rhaid i ni gynnal ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd yn hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a defnyddwyr, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y DU sydd, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau. Mae angen i ni hefyd sicrhau lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio i sicrhau bod safbwyntiau amrywiol ar gael i wylwyr ac i wrandawyr.

2.9 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n nodi y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at yr achosion lle mae angen cymryd camau.

2.10 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, rhai egwyddorion penodol eraill pan fyddwn yn credu eu bod yn berthnasol. Rydyn ni'n credu bod y canlynol yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

- pa mor ddymunol ydy hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;
- anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;
- barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol; ac
- y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

2.11 O dan y Cytundeb, rhaid i ni hefyd ystyried:

- amcan y BBC sef cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus; a
- y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y Siarter.

## Asesiad o'r effaith

2.12 Mae gan Ofcom ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau o'r effaith pan fyddai ein cynigion yn debyg o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu ar y cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.[19] Fel mater o bolisi, mae Ofcom yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiadau o'r effaith mewn perthynas â'r mwyafrif helaeth o'n penderfyniadau polisi.[20] Mae asesiadau o'r effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd y dewis sy'n cael ei ffafrio. Maent yn arfer gorau wrth lunio polisïau.

2.13 Mae effaith bosibl ein cynigion yn cael ei thrafod drwy'r ddogfen hon a bydd ein penderfyniadau terfynol a'r asesiad o'r effaith yn cael eu siapio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydyn ni wedi ystyried yr effaith dim ond pan fydd Ofcom yn defnyddio disgresiwn perthnasol, naill ai ynghylch cynnwys gofynion neu'r lefel ar gyfer eu gosod; nid ydym wedi asesu effaith lle nad yw'r Siarter na'r Cytundeb yn rhoi'r disgresiwn hwnnw i ni. Mewn perthynas â'n cynigion ar gyfer y drwydded weithredu, mae ein hasesiad (yn y paragraffau perthnasol yn adran 4) yn cynnwys dadansoddiad o effaith gynyddol ein cynigion wrth gymharu â'r gofynion a oedd mewn grym o dan Ymddiriedolaeth y BBC.

2.14 Yn gryno, dyma'r prif sefydliadau a grwpiau rydyn ni'n disgwyl i'n cynigion ni effeithio arnynt:

2.14.1 **Gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr**. Bydd cynulleidfaoedd yn elwa'n uniongyrchol o ganlyniad i fwy o allbwn mewn genres allweddol penodol. Mewn meysydd eraill, byddan nhw'n elwa o'r sicrwydd na chaiff y BBC leihau ei allbwn o dan lefelau sylfaenol a bennir. Rydyn ni'n cydnabod efallai fod cost cyfle ynghlwm wrth ein cynigion: gallai awr o allbwn y mae'n rhaid iddo berthyn i un genre olygu gostyngiad mewn genre arall.

2.14.2 **Y BBC**. Nid ydym wedi gwneud asesiad meintiol o effaith y cynigion hyn ar y BBC. Efallai y bydd angen i'r BBC ddarparu mwy o allbwn mewn meysydd penodol nag y mae wedi'i fwriadu ar hyn o bryd. Gall yr amodau rheoleiddio arfaethedig hefyd gyfyngu ar hyblygrwydd y BBC i leihau meysydd penodol o allbwn dros y tymor hwy. Rydyn ni wedi ystyried yr effaith fesul achos i sicrhau bod pob amod rheoleiddio yn briodol ac yn gymesur. Mae'r BBC yn debyg o wynebu costau cydymffurfio ychwanegol sy'n gysylltiedig â'n fframwaith mesur perfformiad, lle rydyn ni'n mynnu bod y BBC yn darparu gwybodaeth. Byddwn ni'n targedu'r ceisiadau hyn i sicrhau bod y costau mor isel â phosibl.

2.14.3 **Darlledwyr eraill, a darparwyr gwasanaethau ar-alwad ac ar-lein**. Mae'n debyg y bydd y ffocws yn y drwydded weithredu ar y cysyniad o fod yn unigryw, a'n cynigion cysylltiedig ar gyfer buddsoddi mewn cynnwys newydd, yn effeithio ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n cystadlu. Fodd bynnag, mae hi'n anodd modelu effaith o fath o ran deall: (a) sut bydd y BBC yn gweithredu'r gofynion rydyn ni'n cynnig eu gweithredu yn y drwydded weithredu; a (b) effaith hynny ar ddarlledwyr/gwasanaethau

[19] Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[20] I gael rhagor o wybodaeth am ein hagwedd at asesiadau o'r effaith, edrychwch ar y canllawiau, Arferion gorau wrth lunio polisïau: Dull Ofcom o gynnal asesiad effaith

eraill. Rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n bosibl y bydd rhai o'r cynigion yn y drwydded weithredu ddrafft yn cael rhywfaint o effaith negyddol ar rai gwasanaethau sy'n cystadlu (er enghraifft, gallai gofyniad ar y BBC i gynnal neu i gynyddu ei allwn newyddion effeithio ar ddarparwyr newyddion masnachol). Mae'r cynigion hyn wedi cael eu drafftio i leihau effaith o'r fath pan fo'n bosibl. Rydyn ni'n gofyn i randdeiliaid gynnwys manylion unrhyw effaith negyddol bosibl o'r fath yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad.

2.14.4 **Sector cynhyrchu'r DU.** Mae'n debyg y bydd ein ffocws ar raglenni gwreiddiol gan y BBC o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf o fudd i sector cynhyrchu'r DU. Mae'n bosibl y bydd cynhyrchwyr annibynnol, neu ganghennau cynhyrchu darlledwyr sy'n cystadlu (fel ITV Studios) yn elwa o'r manteision hyn. Mae effaith gadarnhaol bosibl i gwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, sy'n ymwneud â'r amodau a reoleiddir ynghylch lefelau sylfaenol gwariant ar wneud rhaglenni yn y gwledydd, a'r tu allan i ranbarth yr M25.

## Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

2.15 Mae Ofcom yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn deall effaith ei ymyriadau rheoleiddio ar y naw grŵp cydraddoldeb sydd wedi cael eu diffinio (gyda dau grŵp cydraddoldeb arall yn cael eu hystyried yng Ngogledd Iwerddon yn unig). Mae ein hasesiad llawn yn Atodiad 8.

2.16 Ein hasesiad cychwynnol yw y dylai'r cynigion hyn fod yn gadarnhaol i'r grwpiau cydraddoldeb hyn. Y rheswm am hyn yw mai un o brif ddibenion y drefn perfformiad ydy sicrhau ac asesu - a thrwy hynny wella - perfformiad y BBC o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethau cymunedau amrywiol y DU drwyddi draw.

## Y camau nesaf

2.17 Caiff rhanddeiliaid eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y drwydded weithredu, y mesurau perfformiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 17 Gorffennaf 2017.

2.18 Yn dilyn ein hadolygiad o ymatebion y rhanddeiliaid, ac ar ôl i ni ystyried cynllun blynyddol cychwynnol y BBC – y mae'n rhaid iddo gael ei gyhoeddi erbyn 3 Gorffennaf 2017 – rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r dogfennau terfynol erbyn diwedd mis Medi 2017.

2.19 Rydyn ni'n cynnig y bydd yr amodau rheoleiddio a fydd yn y drwydded yn dod i rym ar y dyddiad y caiff y drwydded ei chyhoeddi, ond gydag amodau sy'n gosod gofynion blynyddol yn dod i rym naill ai ar 1 Ionawr 2018 (pan fydd y gofyniad yn berthnasol i flwyddyn galendr) neu 1 Ebrill 2018 (pan fydd y gofyniad yn berthnasol i flwyddyn ariannol).[21] Ar ben hynny, byddwn yn ystyried yr achos dros ddull

[21] Mae cwotâu Ofcom yn berthnasol i flynyddoedd calendr ac yn berthnasol i amrywiaeth o ddarlledwyr, nid dim ond y BBC. Roedd Ymddiriedolaeth y BBC yn gosod cwotâu ar draws blynyddoedd ariannol er mwyn cyd-fynd ag adroddiadau blynyddol y BBC. Er mwyn sicrhau bod modd cymharu data dros amser a rhwng darlledwyr, rydyn ni'n bwriadu parhau â'r dull gweithredu hwn.

gweithredu trosiannol ar gyfer amodau unigol pan fo'n briodol, er enghraifft pan fydd angen amser ychwanegol ar y BBC efallai i gomisiynu gwaith newydd

2.20 O dan y trefniadau pontio yn y Siarter, bydd yr amodau yn y trwyddedau gwasanaeth presennol – a oedd yn arfer cael eu gweithredu a'u goruchwylio gan Ymddiriedolaeth y BBC – yn parhau i gael effaith nes y daw'r drwydded weithredu newydd i rym.[22]

[22] Siarter, Amserlen: Trefniadau Pontio, paragraff 5(1).

Adran 3

# Dull gweithredu Ofcom i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad

## Mae gennym amrywiaeth o declynnau i ddal y BBC i gyfrif

3.1 Mae'r Siarter a’r Cytundeb yn rhoi amrywiaeth o declynnau rheoleiddio mae modd i Ofcom eu defnyddio i ddal y BBC i gyfrif, er budd dinasyddion a defnyddwyr. Mae’r rhain yn cynnwys y gofyniad i weithredu trwydded weithredu a mesurau perfformiad ehangach, swyddogaeth adrodd flynyddol, dyletswydd i gynnal adolygiadau manwl cyfnodol o berfformiad y BBC o leiaf ddwywaith yn ystod oes y Siarter, a’r opsiwn i gynnal adolygiadau ad hoc os oes angen. Mae yna berthynas bwysig rhwng pob un o’r elfennau hyn o’r drefn perfformiad, ac rydyn ni’n nodi isod yn gyffredinol sut rydyn ni’n bwriadu defnyddio pob elfen yn y ffordd orau.

3.2 Drwy drwydded weithredu, mae Ofcom yn gallu rhoi amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi ar y BBC ac mae’n gallu cymryd amrywiaeth o gamau gan gynnwys, os yw’n briodol, rhoi cosb ariannol os caiff y rhain eu torri.[23] Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer yr amodau rheoleiddio, rydyn ni wedi ystyried a oes modd trosi’r canlyniad rydyn ni eisiau ei weld yn rhwymedigaeth mae modd ei fesur yn wrthrychol, ac a fydd gosod rhwymedigaeth yn cyfyngu’n ormodol ar ryddid golygyddol a chreadigol y BBC. I’r graddau rydyn ni’n gallu, rydyn ni wedi ystyried lefelau perfformiad presennol, perfformiad posibl yn y dyfodol, a'r effaith ar y BBC (ac ar randdeiliaid eraill) drwy osod amod.

3.3 O dan y Siarter, mae’n rhaid i’r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol a fydd yn nodi, ymysg pethau eraill, ei gylch gwaith creadigol a’i gynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn, ei ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau’r DU a sut bydd yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol. Rhaid iddo adrodd yn y flwyddyn ganlynol sut mae wedi cyflawni’r cynlluniau hyn.

3.4 Mae Ofcom yn gallu llunio ei fesurau perfformiad ei hun, yn ychwanegol at y rheini sy’n cael eu defnyddio gan y BBC. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni’n cynnig gweithredu mesurau mewn perthynas ag argaeledd, defnydd, ac effaith cynnwys a gwasanaethau’r BBC, yn ogystal ag amrywiaeth o ffactorau cyd-destunol. Rydyn ni’n bwriadu cyhoeddi’r mesurau perfformiad hyn bob blwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion, er y bydd rhai yn cael eu mesur ar sail ad hoc. Rydyn ni’n bwriadu i’r gwaith hwn fod yn rhan annatod o’r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i ddal y BBC i gyfrif.

3.5 Rhaid i Ofcom adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiad y BBC â’i amodau rheoleiddio. Yn ogystal â’r adroddiad blynyddol hwn, mae’n rhaid i ni gynnal dau adolygiad cyfnodol manwl neu fwy ar y graddau y mae’r BBC yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo bob un o’r dibenion cyhoeddus, a fydd yn cael ei siapio gan adroddiadau’r BBC a’n gwaith casglu gwybodaeth ac ymchwil ni. Efallai byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau ad hoc ychwanegol unrhyw bryd, gan roi sylw i unrhyw faes sy’n destun pryder rydyn ni wedi dod o hyd iddo. Rydyn ni’n credu bod yr adolygiadau hyn yn

---

[23] Mae’n rhaid i Ofcom drosglwyddo unrhyw daliad a gaiff ar ffurf cosb ariannol i Drysorlys EM.

declyn pwysig er mwyn rheoleiddio perfformiad y BBC yn effeithiol, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n anoddach i'w hasesu'n feintiol a lle nad yw efallai'n briodol gosod amodau rheoleiddio penodol. Rydyn nin rhagweld y byddai adolygiadau o'r fath yn ystyried a ydy unrhyw amodau rheoleiddio perthnasol sydd ar waith yn dal yn ddigonol ac yn briodol, ynteu a oes achos dros newid.

3.6 Bydd y gyfres hon o declynnau rheoleiddio yn caniatáu i Ofcom ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a gofynion cynulleidfaoedd ar yr un pryd â dal y BBC i'r safonau uchel sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Mae yna ryngweithio deinamig felly rhwng gwaith cynllunio ac adrodd y BBC, mesur perfformiad Ofcom, ein hadolygiadau cyfnodol ac ad hoc, a'r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu.

## Mae'r cynigion hyn yn fan cychwyn ac mae gennym ni'r hyblygrwydd i esblygu'r drwydded weithredu dros amser

3.7 Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn fan cychwyn. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

3.8 Ochr yn ochr â hyn, byddwn hefyd yn ystyried cynllun blynyddol interim y BBC, gan gynnwys ei gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith, y mae'n rhaid iddo ei gyhoeddi erbyn 3 Gorffennaf 2017. Rydyn ni wedi ymestyn dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn er mwyn i randdeiliaid allu cyflwyno sylwadau ar ein cynigion ar ôl iddynt weld cynllun interim y BBC. Byddwn yn gwneud unrhyw addasiadau priodol i'n cynigion ar ôl ystyried cynllun y BBC ac adborth y rhanddeiliaid.

3.9 Rydyn ni'n disgwyl y bydd y drwydded weithredu yn dal i esblygu er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn chwaethau ac arferion defnyddwyr y BBC, datblygiadau ehangach mewn marchnadoedd darlledu ac wrth ystyried newidiadau i berfformiad y BBC dros amser. Wrth lunio unrhyw gynigion yn y dyfodol, byddwn yn cael ein harwain gan ein mesur perfformiad a safbwyntiau cynulleidfaoedd.

## Adran 4

# Trwydded weithredu newydd y BBC

## Cefndir y drwydded weithredu

4.1 Trwydded weithredu newydd y BBC ydy'r offeryn sy'n golygu bod modd i Ofcom osod amodau rheoleiddio ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU rydyn ni'n meddwl sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.

4.2 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[24]

4.3 Dyma'r dibenion cyhoeddus:

4.3.1 darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;

4.3.2 cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed;

4.3.3 dangos y cynnyrch a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau;

4.3.4 adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU; ac

4.3.5 adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.[25]

4.4 Mae'r BBC yn darparu gwasanaethau cyhoeddus y DU sy'n cynnwys teledu, radio a gwasanaethau ar-lein sydd wedi'u hanelu'n bennaf at ddefnyddwyr yn y DU.[26] Rhaid i bob un o wasanaethau cyhoeddus y DU gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo un neu ragor o'r dibenion cyhoeddus.

4.5 Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy'r BBC World Service yn bennaf. Ni fydd y drwydded weithredu newydd yn cynnwys y BBC World Service; cyfrifoldeb y BBC yw pennu trwydded ar gyfer y BBC

[24] Siarter, Erthygl 5.

[25] Siarter, Erthygl 6.

[26] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi yn Atodlen 1 o'r Cytundeb. Sef BBC One, BBC Two, BBC Four, CBeebies, CBBC, BBC News, BBC Parliament, BBC Red Button, BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra, BBC Radio 2, BBC Radio 3, BBC Radio 4, BBC 4 Extra, BBC Radio 5 Live, BBC Radio 5 Live sports extra, BBC 6 Music, BBC Asian Network, BBC Radio Scotland, BBC Radio nan Gàidheal, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Ulster and BBC Radio Foyle, BBC Local Radio, BBC Alba, a BBC Online.

World Service.[27] Yn yr un modd, ni fydd y drwydded weithredu yn berthnasol i weithgareddau masnachol y BBC, sef y gweithgareddau hynny sy'n cael eu gwneud gan y BBC gyda'r nod o gynhyrchu elw.

4.6 Wrth benderfynu ar yr amodau rheoleiddio sydd i'w cynnwys yn y drwydded weithredu, byddwn yn ystyried ein pwerau a'n dyletswyddau cyffredinol perthnasol. Byddwn hefyd yn rhoi sylw penodol i'r angen i'r BBC sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu.[28] Rhaid i'r drwydded osod yr amodau rheoleiddio ar y BBC a nodir yn Atodlen 2 y Cytundeb, ac yn unol â'r Atodlen honno. Rhaid i'r drwydded hefyd gael ei gosod yn unol â'r fframwaith gweithredu. Mae ein cynigion ar gyfer y rhan hon o'r fframwaith gweithredu wedi'u gosod ar gyfer ymgynghoriad yn Atodiad 5.

4.7 Wrth osod y drwydded weithredu gyntaf, mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu ein bod yn cynyddu'r gofynion presennol ar y BBC i sicrhau bod mwy o wasanaethau ac allbwn unigryw yn cael eu darparu. Mae yna ofynion penodol mewn perthynas â gwasanaethau teledu a radio, ac mewn perthynas â gwahanol fathau o gynnwys, a byddwn yn eu hystyried yn fanylach isod wrth i ni egluro ein cynigion.

4.8 Rydyn ni'n cynnig y bydd yr amodau rheoleiddio a fydd yn y drwydded yn dod i rym ar y dyddiad y caiff y drwydded ei chyhoeddi, ond gydag amodau yn mynnu gofynion blynyddol yn dod i rym naill ai ar 1 Ionawr 2018 (pan fydd y gofyniad yn berthnasol i flwyddyn galendr) neu 1 Ebrill 2018 (pan fydd y gofyniad yn berthnasol i flwyddyn ariannol).[29] Ar ben hynny, byddwn yn ystyried yr achos dros ddull gweithredu trosiannol ar gyfer amodau unigol pan fo'n briodol, er enghraifft pan fydd angen amser ychwanegol ar y BBC efallai i gomisiynu gwaith newydd.

4.9 O dan y trefniadau pontio yn y Siarter, bydd yr amodau yn y trwyddedau gwasanaeth presennol – a oedd yn arfer cael eu gweithredu a'u goruchwylio gan Ymddiriedolaeth y BBC – yn parhau i gael effaith nes y daw'r drwydded weithredu newydd i rym.

4.10 Mae'r drwydded weithredu yn perthyn i fframwaith ehangach. Wrth roi'r fframwaith gweithredu yn ei le, mae'n rhaid i Ofcom egluro sut bydd yn gosod ac yn gweinyddu trefnu y drwydded weithredu a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn. Rhaid i hyn gynnwys:

4.10.1 y gweithdrefnau ar gyfer gosod yr amodau rheoleiddio mewn trwydded weithredu; ac

4.10.2 ystyriaethau Ofcom ynghylch gosod amodau rheoleiddio.

4.11 Rydyn ni'n ymgynghori nawr ynghylch y gweithdrefnau a'r ystyriaethau hyn, er mwyn llunio fersiwn terfynol ein fframwaith gweithredu. Mae ein cynigion ar gyfer y drwydded weithredu yn cael eu gwneud yn unol â'n gweithdrefnau arfaethedig. Fodd

---

[27] Cymal 34 o'r Cytundeb.

[28] Cytundeb, Atodlen 2 paragraff 1.

[29] Mae cwotâu Ofcom yn berthnasol i flynyddoedd calendr ac yn berthnasol i amrywiaeth o ddarlledwyr, nid dim ond y BBC. Roedd Ymddiriedolaeth y BBC yn gosod cwotâu ar draws blynyddoedd ariannol er mwyn cyd-fynd ag adroddiadau blynyddol y BBC. Er mwyn sicrhau bod modd cymharu data dros amser a rhwng darlledwyr, rydyn ni'n bwriadu parhau â'r dull gweithredu hwn.

bynnag, yn amlwg os bydd angen newid y gweithdrefnau hyn oherwydd yr ymgynghoriad hwn, efallai y bydd hefyd angen i ni ailedrych ar ein cynigion ar gyfer y drwydded weithredu.

## Trosolwg a strwythur y drwydded weithredu

4.12 O dan y Siarter diwethaf, Ymddiriedolaeth y BBC oedd yn gyfrifol am berfformiad y BBC, ac roedd wedi'i wreiddio mewn system o drwyddedau gwasanaeth unigol a oedd yn rhagnodi 'cyfran cyfrifoldeb' pob gwasanaeth ar gyfer cyflawni'r dibenion cyhoeddus. Yn unol â rôl gyfun yr Ymddiriedolaeth o lywodraethu a rheoleiddio, roedd y trwyddedau gwasanaeth yn gwneud llawer mwy hefyd: gosod amcanion strategol a nodau gweithredol fel cyllidebau, yn ogystal â mesurau perfformiad.

4.13 Nid yw'r Siarter newydd yn mynnu ein bod yn dilyn yr un dull gweithredu[30], ac nid oes gofyniad i bob un o wasanaethau unigol y BBC gael trwydded annibynnol, ac nid yw'n orfodol gwaith i bob un o wasanaethau unigol y BBC fod yn destun rhwymedigaethau rheoleiddiol. Nid oes gofyniad chwaith i adolygu bod gwasanaeth unigol yn ystod cyfnod y Siarter, fel yr oedd yn arfer digwydd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith nad yw'r rheoleiddiwr yn gyfrifol am bennu'r manylion ynghylch sut dylid rhedeg pob gwasanaeth; o 3 Ebrill 2017 ymlaen, daw hyn o dan gylch gwaith Bwrdd newydd y BBC.

4.14 Wrth ystyried yr hyblygrwydd hwn, a'r symud i fodel o reoleiddio allanol, rydyn ni'n cynnig un drwydded weithredu ar gyfer y BBC a fydd yn cynnwys amodau rheoleiddio clir, mesuradwy a digon heriol mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC.

4.15 Mae manteision un drwydded weithredu mewn tryloywder a chysondeb, yn enwedig gan ein bod yn cynnig cymysgedd o ofynion rheoleiddio sydd wedi'u hanelu at wasanaethau penodol, rhai gofynion sydd wedi'u targedu at grwpiau o wasanaethau a rhai gofynion sydd wedi'u hanelu ar wasanaethau cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol. Mae'n bosibl y bydd yr un drwydded weithredu hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni ymateb i newidiadau mewn patrymau defnyddio yn y dyfodol drwy ganiatáu ar gyfer amodau nad ydynt yn benodol i wasanaethau unigol.

4.16 Ochr yn ochr â'r drwydded weithredu, rydyn ni hefyd yn cynnig cyhoeddi dogfennau ar wahân a fydd yn nodi mewn un lle'r amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd ym mhob un o'r gwledydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ffocws ar wahân ar bob un o'r gwledydd gan y BBC, er mwyn i gynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gael eu gwasanaethu'n dda, a bydd yn helpu cynulleidfaoedd i weld yn hawdd beth ydy dyletswyddau penodol y BBC mewn perthynas â nhw. Rydyn ni'n cyhoeddi ein cynigion ar gyfer y dogfennau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

4.17 Wrth lunio'r cynigion ar gyfer trwydded weithredu'r BBC, rydyn ni wedi ceisio cael cydbwysedd rhwng yr angen i oruchwylio a'r angen i'r BBC gael lle i gymryd risgiau creadigol a dewis sut mae'n trefnu ei hun – ar yr amod ei fod yn dal i gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol. Nid ydym o'r farn ei bod hi'n briodol i'r rheoleiddiwr ymwneud â manylion gwaith y BBC o ran penderfyniadau creadigol, penderfyniadau amserlennu neu strwythurau rheoli. Rydyn ni'n bwriadu trefnu cynnwys y drwydded yn ôl y pedwar diben cyhoeddus cyntaf. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n cydnabod bod

[30] Cytundeb, cymal 13

perthynas agos rhwng cenhadaeth y BBC, ei ddibenion cyhoeddus a'r ddau amcan ychwanegol y mae'n rhaid i Ofcom eu sicrhau drwy ei brif swyddogaethau yn y Siarter, sef:

4.17.1 mynnu bod y BBC yn sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

4.17.2 mynnu bod y BBC yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

4.18 At ei gilydd rydyn ni'n meddwl bod strwythur wedi'i drefnu o amgylch y dibenion cyhoeddus yn y sefyllfa orau i ddarparu eglurder a thryloywder i gynulleidfaoedd y BBC a rhanddeiliaid eraill. Mae hi'n bwysig nodi bod nifer o'r amodau rheoleiddio arfaethedig hefyd yn berthnasol i'r genhadaeth a/neu fwy nag un o'r dibenion cyhoeddus, felly nid yw strwythur y drwydded yn awgrymu bod unrhyw amod rheoleiddio dim ond yn berthnasol i gyflawni'r diben y mae wedi'i restru ar ei gyfer.

4.19 Fel sy'n cael ei nodi uchod, bydd sut mae'r BBC yn cyflawni'r pumed diben cyhoeddus yn cael ei wneud drwy'r BBC World Service gan fwyaf. Mae'r Siarter newydd yn egluro mai cwmpas y drwydded weithredu ydy gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, nad ydynt yn cynnwys y BBC World Service. Yn unol â hynny, nid ydym yn bwriadu cynnwys y diben hwn yn y drwydded weithredu.

4.20 Yn y strwythur cyffredinol hwn, rydyn ni'n cynnig bod y drwydded weithredu yn cynnwys:

4.20.1 amcanion lefel uchel a fydd yn nodi ein disgwyliadau cyffredinol ar gyfer y BBC mewn perthynas â phob un o'i ddibenion cyhoeddus. Bydd y rhain yn helpu i egluro i'r BBC ac i randdeiliaid eraill yr amcanion polisi gwaelodol rydyn ni'n credu y mae'n bwysig i'r BBC eu cyflawni; ac

4.20.2 amodau rheoleiddio, y mae modd i ni eu hasesu'n wrthrychol ac y gallwn eu gorfodi os bydd y BBC yn methu cyflawni'r rhwymedigaeth.

## Ein dull gweithredu ar gyfer cynnig amodau rheoleiddio wrth ystyried y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus newydd

4.21 Yn unol â'r dull gweithredu sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2 y Cytundeb, rydyn ni wedi ystyried yr achos dros gynyddu, neu ddiwygio pob un o'r amodau a oedd yn arfer bod yn berthnasol i'r BBC, a phan fo'n briodol, cyflwyno amodau newydd i stopio dirywiad genre allweddol neu i sicrhau gwasanaethau ac allbwn sy'n fwy unigryw. Rydyn ni'n credu bod yr amodau hyn yn ofynion sylfaenol ac rydyn ni'n llawn ddisgwyl i'r BBC - wrth osod ei ddyheadau yn ei gynllun creadigol - ragori ar y disgwyliadau hyn mewn nifer o feysydd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd cynllun y BBC yn gosod ei fwriadau'n glir ar gyfer pob genre a gwasanaeth a'n rôl ni fydd eu dal i gyfrif am eu cyflawni. Mae hi'n bwysig i'r BBC gael cwmpas ar gyfer amrywiaeth a hyblygrwydd o ran sut mae'n cyflawni'r genhadaeth ac yn hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus.

4.22 Er mwyn penderfynu ar y lefel briodol i osod cwotâu, roedden ni wedi ystyried beth mae'n rhaid i'r BBC ei ddarparu o dan y trwyddedau gwasanaeth sydd wedi cael eu

gosod gan Ymddiriedolaeth y BBC yn y flwyddyn ariannol 2015/2016, a’r hyn yr oedd wedi’i ddarparu yn y pedair blynedd flaenorol.[31]

4.23 Roedd y BBC wedi rhagori ar nifer o’i ofynion cwota ar gyfer 2015/2016 ym mhob un o’r pum mlynedd, a hynny o eithaf dipyn mewn rhai achosion. Rydyn ni felly’n cynnig cynyddu’r gofynion cwota presennol mewn nifer o achosion. Roedden ni wedi cymharu cwota’r BBC â chyfartaledd o'r hyn roedd wedi'i gyflawni go iawn dros y pum mlynedd diwethaf. Pan roedd allbwn cyfartalog y BBC yn rhagori ar y cwota yn gyson, rydyn ni’n cynnig codi’r cwota 10%. Pan nad oedd yn gwneud hynny, yn gyffredinol nid ydym yn cynnig unrhyw newid, oni bai fod gennym resymwaith polisi penodol dros wneud hynny, y byddwn yn ei egluro isod. Rydyn ni’n credu y bydd hyn yn cynyddu’r lefelau sylfaenol darpariaeth sy’n cael eu gwarantu gan beidio â gosod rhwymedigaethau afrealistig.

4.24 Mewn rhai achosion, mae perfformiad y BBC wedi bod cystal wrth gymharu â'i gwotâu ein bod wedi ystyried cynyddu lefelau o'r fath mwy na 10%. Fodd bynnag, rydyn ni’n cydnabod y gall allbwn sydd wedi’i ddarlledu yn erbyn un cwota effeithio ar beth arall mae modd ei ddarlledu, ac y gallai hyn effeithio ar allu’r BBC i gadw’r cydbwysedd a'r amrywiaeth yn ei amserlen.

4.25 Rydyn ni hefyd wedi ystyried a oes modd cyfiawnhau amodau newydd neu amodau cryfach er mwyn:

4.25.1 adlewyrchu newidiadau yng nghenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn y Siarter newydd; a/neu

4.25.2 mynd i’r afael â meysydd allweddol lle rydyn ni’n teimlo bod perygl o dangyflawni. Wrth ddod i farn ynghylch hyn, rydyn ni wedi ystyried ein sail dystiolaeth bresennol, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd drwy’r Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2015, ein hadroddiadau ymchwil darlledu gwasanaeth cyhoeddus blynyddol, a chanlyniadau’r ymchwil ansoddol newydd roedden ni wedi’i gomisiynu’n ddiweddar ynghylch safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch perfformiad y BBC. Rydyn ni wedi ystyried tystiolaeth berthnasol gan drydydd partïon gan gynnwys tystiolaeth a gyflwynwyd i broses Adolygu’r Siarter y Llywodraeth.

4.26 Rydyn ni’n cynnig dileu nifer cyfyngedig o amodau o’r trwyddedau gwasanaeth a osodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC pan rydyn ni’n meddwl nad ydynt mwyach yn sicrhau cyflawni’r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus newydd ac na fyddai eu dileu yn arwain at ddarparu allbwn a gwasanaethau llai unigryw.

## Cwestiwn yr Ymgynghoriad

*C.1 Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gosod y drwydded weithredu?*

[31] Mewn rhai achosion roedd cwotâu wedi cael eu defnyddio ar flwyddyn galendr yn hytrach na blwyddyn ariannol. Rydyn ni wedi ystyried hyn wrth gynnig lefelau cwota newydd.

## Diben cyhoeddus 1: darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

**Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas:** dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus.

## Cyd-destun ein cynigion

4.27 Mae darparu newyddion, materion cyfoes a chynnwys ffeithiol sy'n gywir ac yn ddiduedd yn chwarae rhan allweddol o ran helpu i sicrhau bod dinasyddion y DU yn cael gwybodaeth a'u bod yn chwarae rhan weithredol yn y byd o'u cwmpas. Wrth ystyried maint, graddfa a chyrhaeddiad y BBC, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd y Diben hwn fel maes allweddol iddo ei gyflawni.

4.28 Mae'r BBC eisoes yn cynhyrchu ystod eang o newyddion a gwybodaeth ar draws ei wasanaethau. Mae'n dal i fod yn un o'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf yn y DU gyda'r cyrhaeddiad aml-lwyfan uchaf o blith yr holl ddarparwyr gyda 77% o bobl yn dweud eu bod yn defnyddio'r BBC fel ffynhonnell newyddion[32], ac mae ei raglenni teledu ffeithiol a materion cyfoes yn cael eu defnyddio'n eang hefyd. Mae ymchwil yn dangos ei bod yn ymddangos bod cynulleidfaoedd yn fodlon gan fwyaf ar ei allbwn ac yn ei gydnabod fel brand mae modd ymddiried ynddo i gael gwybodaeth o ansawdd uchel.[33]

4.29 Mae'r BBC yn gweithredu mewn sector sy'n esblygu'n sydyn. Mae newidiadau mewn patrymau defnyddio a newydd-ddyfodiaid yn y farchnad yn peri heriau i'r BBC ac felly mae hi'n hollbwysig bod y BBC yn ymateb i'r newidiadau hyn i sicrhau ei fod yn cyrraedd pob cynulleidfa. Mae gwerthoedd bod yn gywir ac yn ddiduedd yn dod yn gynyddol bwysig wrth feddwl sut mae ffynonellau newyddion yn cael eu rhannu ynghyd â phwysigrwydd mynediad pobl at ffynonellau dibynadwy o newyddion a gwybodaeth.

4.30 Rydyn ni'n cydnabod bod angen i allbwn newyddion y BBC wasanaethu pob cynulleidfa yn well, gan fod tystiolaeth wedi dangos yn y gorffennol nad yw'r cynnwys hwn wedi gwneud cystal ymysg y grwpiau cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, a'r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.[34] Dylai'r BBC hefyd geisio gwella ei

---

[32] Ofcom *Adroddiad ar Gael Gafael ar Newyddion 2015*

[33] Ofcom, *Adroddiad ar gael Gafael ar Newyddion 2015;* Ofcom *Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2016; Ymddiriedolaeth y BBC*, *Adolygiad o Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith y BBC*, 2014
http://www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work/services/television/service_reviews/news_current_affairs.html

[34] Ymddiriedolaeth y BBC, *Adolygiad o Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith y BBC*, 2014
http://www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work/services/television/service_reviews/news_current_affairs.html

gynrychiolaeth a’i ddarpariaeth o'r gwledydd datganoledig yn ei allbwn newyddion, materion cyfoes a ffeithiol.

4.31 Rydyn ni’n ystyried y bydd yr amodau rheoleiddio rydyn ni’n eu cynnig yn y maes hwn yn cynnal neu’n adeiladu ar berfformiad cadarnhaol presennol y BBC a/neu’n ffordd o roi sylw i feysydd pwysig perfformiad sydd wedi cael eu nodi yn y Siarter a’r Cytundeb.

## Amcanion lefel uchel arfaethedig

4.32 Rydyn ni’n cynnig gosod yn y drwydded weithredu amcanion lefel uchel rydyn ni’n meddwl y dylai’r BBC eu cyflawni wrth hyrwyddo’r diben cyhoeddus. Rydyn ni’n cynnig y dylai’r BBC wneud y canlynol:

4.32.1 darparu lefel sylweddol o raglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol ledled ei ystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd ac i wasanaethu pob cynulleidfa gyda’r allbwn hwn;

4.32.2 ceisio cynnal ei ddarpariaeth o themâu rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ei raglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol, er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth helaeth o'r hyn sy’n digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach;

4.32.3 parhau i ddarparu allbwn ffeithiol, newyddion, materion gwybodaeth a gwybodaeth ddibynadwy y mae modd ymddiried ynddo, a hynny yn unol â'r safonau golygyddol uchaf;

4.32.4 sicrhau ei fod yn darparu dolenni digonol at ddeunydd trydydd parti ar-lein, yn enwedig yng nghyswllt ei straeon newyddion, er mwyn darparu cyfoeth o wybodaeth i’w ddefnyddwyr a chefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC ystyried y dolenni mae’n eu cynnig yn ofalus.

4.33 Ar wahân i ddarpariaethau’r drwydded weithredu, rhaid i’r BBC hefyd gydymffurfio â gofynion y Cod Darlledu, gan gynnwys mewn meysydd fel didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.[35]

## Amodau rheoleiddio arfaethedig

4.34 O dan Atodlen 2 y Cytundeb, rhaid i ni roi ar y BBC y gofynion rydyn ni’n credu sy’n briodol er mwyn sicrhau bod y rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yng ngwasanaethau teledu cyhoeddus y DU yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes ar lefel briodol. Rhaid i'r rhaglenni newyddion hyn gael eu darlledu ar adegau drwy gydol y cyfnod y mae’r gwasanaethau’n cael eu darparu.[36] Rydyn ni’n cynnig cynnwys yr amodau trwydded canlynol:

---

[35] Ofcom, *Cod Darlledu*, ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code

[36] Paragraff 4, Atodlen 2 i’r Cytundeb.

4.34.1 sicrhau newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys yn ystod oriau brig, ar BBC One

4.34.2 mynnu isafswm o faterion cyfoes, gan gynnwys yn ystod oriau brig, ar draws BBC One a BBC Two; a

4.34.3 sicrhau bod newyddion yn cael eu darparu yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU (edrychwch ar Ddiben Cyhoeddus 4 isod).

4.35 Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried, mewn perthynas â'n dyletswydd wrth bennu'r drwydded weithredu gyntaf: cynyddu'r gofynion presennol ar y BBC i sicrhau darparu mwy o wasanaethau ac allbwn unigryw; ac, ystyried pa mor ddymunol ydy gosod neu newid gofynion i gynyddu faint o newyddion, gwybodaeth, materion cyfoes a materion gweithredu cymdeithasol sydd ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2, yn enwedig yn ystod yr oriau brig.[37]

4.36 Rydyn ni'n cynnig cynnwys nifer o amodau o'r trwyddedau gwasanaeth a oedd wedi cael eu gosod gan Ymddiriedolaeth y BBC sy'n cynnal y ddarpariaeth bresennol o allbwn newyddion a materion cyfoes ar bob un o wasanaethau'r BBC, gan eu cryfhau lle'r oedd y BBC wedi perfformio'n well ar gyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf. Ar ben hynny, rydyn ni'n cynnig addasu rhai o ofynion presennol y BBC. Mae hyn yn cynnwys gofyniad oriau brig ar gyfer newyddion ar BBC Radio 1 a gofyniad oriau brig ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 2. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno amod newydd i sicrhau bod y BBC yn darparu dolenni digonol ar ei wasanaeth ar-lein at ddeunyddiau trydydd parti. Mae hyn yn cymryd lle amod Ymddiriedolaeth y BBC a oedd yn mynnu bod y BBC yn cynyddu nifer yr achosion o glicio drwyddo i wefannau trydydd parti.

4.37 Y tu hwnt i hyn, mae hi'n werth nodi hefyd bod nifer o amodau rheoleiddio sy'n ymwneud â darparu newyddion a materion cyfoes cenedlaethol a rhanbarthol ar wasanaethau teledu a radio'r BBC yr ydym yn cynnig eu grwpio o dan y pedwerydd diben cyhoeddus (adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU) yn y drwydded weithredu. Bydd amodau rhaglenni ffeithiol a rhaglenni dogfen yn dod o dan yr ail ddiben cyhoeddus (cefnogi dysgu i bobl o bob oed). Mae'r amodau hyn hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r diben cyhoeddus cyntaf (darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas).

## Ein rhesymeg

4.38 Rydyn ni wedi cynnig amodau rheoleiddio yn y maes hwn i sicrhau bod y BBC yn dal i ddarparu ystod a nifer sylweddol o newyddion a gwybodaeth y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi, ar draws ystod eang o wasanaethau. Rydyn ni wedi cynyddu lefel y saith amod presennol a ddaw o dan y diben hwn yn y drwydded. Mae'r cynnydd hwn yn ystyried y ffaith bod y BBC wedi rhagori ar gwotâu yn y gorffennol, a'i fod yn ceisio sicrhau bod y genres allweddol hynny'n parhau i gael eu darparu ar lefelau sylfaenol uwch. Rydyn ni'n credu mai cyfyngedig fydd yr effaith tymor byr ar y BBC, oherwydd mewn nifer o achosion eu bod eisoes yn cyflawni'r lefel newydd. Rydyn ni'n cydnabod bod y targedau uwch hyn ar gyfer newyddion a materion cyfoes yn lleihau hyblygrwydd y BBC i ostwng y math hwn o allbwn yn y dyfodol.

---

[37] Paragraff 2(3)(c), Atodlen 2 i'r Cytundeb.

4.39 Rydyn ni’n cynnig cadw gofynion trwydded gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC bod Radio 1 yn darlledu o leiaf un awr o newyddion - gan gynnwys dau fwletin estynedig - yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Rydyn ni'n credu bod y cwota hwn yn sicrhau lefel ddigonol o allbwn newyddion ar y gwasanaeth hwn. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd iau yn fwy tebygol o gael eu newyddion drwy lwyfannau ar-lein yn hytrach na drwy wrando ar y radio[38]. Felly ni fyddai unrhyw gynnydd yn lefel y cwota yma o reidrwydd yn golygu bod y gynulleidfa darged yn cael rhagor o newyddion. Fodd bynnag, i gydnabod effaith darlledu cynnwys newyddion i gynulleidfaoedd iau yn ystod oriau brig, rydyn ni’n cynnig creu amod ffurfiol ynghylch darpariaeth bresennol y BBC o fwletin newyddion estynedig a ddarlledir ar yr amser hwn. Rydyn ni’n bwriadu monitro perfformiad y BBC yn y maes hwn a byddwn yn ailedrych ar yr amod hwn os nad ydyn ni’n credu ei fod yn sicrhau’r canlyniadau gorau i wrandawyr iau.

4.40 Ar BBC Radio 2, roedd Ymddiriedolaeth y BBC wedi gosod gofyniad i’r BBC ddarlledu o leiaf 16 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes bob wythnos. Rydyn ni’n cynnig codi lefel y cwota hwn i 17 awr bob wythnos i adlewyrchu'r ffaith bod y BBC wedi rhagori ar y cwota hwn, ac o’r 17 awr hyn, rydyn ni’n cynnig ei fod yn darparu 3 awr yn ystod oriau brig. Mae hyn yn weddol debyg i’r hyn mae’r BBC eisoes yn ei ddarparu yn ystod oriau brig ar BBC Radio 2 ac mae’n ceisio sicrhau bod yr allbwn hwn yn cael ei ddarparu pan gaiff yr effaith fwyaf.

4.41 Mae Atodlen 2 i’r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn ystyried pa mor ddymunol ydy gosod neu newid gofynion i wella darparu newyddion a materion cyfoes ar wasanaethau ar-lein y BBC, er mwyn cefnogi darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Rydyn ni wedi ymgynghori’n ofalus ynghylch y mater hwn, ac nid ydym yn cynnig cynnwys unrhyw amodau rheoleiddio penodol yn y drwydded weithredu sy’n ymwneud â’r pwynt hwn. Rydyn ni’n credu, er ei bod hi’n bwysig bod y BBC yn canolbwyntio ar natur unigryw ei newyddion a'i faterion cyfoes ar-lein, mai penderfyniad golygyddol i’r BBC ydy’r straeon sy’n cael eu dethol gan y BBC ar gyfer ei wasanaeth newyddion ar-lein. Rydyn ni hefyd yn nodi bod ein hymchwil ymgynghori diweddar, a oedd yn edrych ar berthynas cynulleidfaoedd gyda’r BBC, yn awgrymu bod defnyddwyr yn teimlo bod gan wefan BBC News frand a chynllun unigryw.[39] Ar ben hynny, wrth hyrwyddo’r diben cyhoeddus hwn, dylai’r BBC gynnig newyddion diduedd ochr yn ochr ag amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiad manwl nad yw ar gael yn eang gan ddarparwyr newyddion eraill yn y DU, gan gynnwys ar ei wasanaethau ar-lein.

4.42 Mae Atodlen 2 yn mynnu ein bod yn gosod ar y BBC y gofynion rydyn ni’n credu sy’n briodol i sicrhau bod digon o ddolenni at ddeunyddiau sy’n cael eu darparu gan drydydd partïon o BBC Ar-lein.[40] Rydyn ni wedi ystyried a fyddai’n briodol gosod amod ar sail nifer yr achosion o glicio drwyddo i safleoedd allanol. Rydyn ni’n nodi bod y drwydded gwasanaeth ar gyfer BBC Ar-lein a osodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC yn mynnu bod y BBC yn ceisio cynyddu faint sy’n clicio drwyddo i safleoedd

---

[38] Ofcom *Adroddiad ar Gael Gafael ar Newyddion 2015* https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/news-consumption-2015

[39] *Crynodeb Gweithredol Ofcom o’r Ymchwil i Natur Unigryw'r BBC*, 2017

[40] Paragraff 3 o Atodlen 2 i'r Cytundeb.

allanol o bob rhan o BBC Ar-lein o un flwyddyn i'r llall. Er ein bod yn nodi bod y BBC yn gyffredinol wedi cyflawni'r amod hwn dros y pum mlynedd diwethaf[41], nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol gosod amod rheoleiddio mae modd ei orfodi sy'n dibynnu ar ymddygiad cynulleidfaoedd, lle nad yw cydymffurfiad yn uniongyrchol o dan reolaeth y BBC. Ar ben hynny, mae nifer yr achosion o glicio drwyddo sy'n digwydd ar y BBC ond yn brocsi ar gyfer a yw wedi darparu dolenni digonol. Yn hytrach, rydyn ni'n bwriadu cynnig mynnu bod y BBC yn sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni at ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon ar draws ei wasanaethau BBC Ar-lein. Bydd hyn yn ceisio sicrhau bod cyfeiriadau priodol at unrhyw gynnwys mae'r BBC yn ei ddefnyddio o ffynonellau allanol, ar yr un pryd ag annog defnyddwyr i ymweld â'r safleoedd hyn i gael rhagor o wybodaeth, sydd o fudd i gynulleidfaoedd ac i ddarparwyr y gwefannau perthnasol.

4.43 Rydyn ni'n cynnig peidio â chynnwys yn y drwydded weithredu rai amodau presennol a osodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC sy'n ymwneud â newyddion a materion cyfoes. Rydyn ni'n credu bod yr amodau hyn yn ofynion strategol nad ydynt yn briodol ar gyfer amodau rheoleiddio:

4.43.1 rydyn ni'n credu nad oes angen gosod targedau newyddion chwaraeon penodol ar gyfer y sianel BBC News; a

4.43.2 dylai'r BBC gael hyblygrwydd i benderfynu pa ddadleuon Seneddol mae'n dymuno eu darlledu ar BBC Parliament, ac eithrio sylw i drafodion Cynulliadau a Seneddau'r gwledydd datganoledig,

4.44 Ein hasesiad cychwynnol yw bod ein cynigion mewn perthynas â diben cyhoeddus 1 yn debyg o fod o fudd i gynulleidfaoedd drwy sicrhau lefel sylfaenol o allbwn newyddion a materion cyhoeddus, cael effaith gyfyngedig ond un mae modd ei rheoli ar y BBC, a chael prin dim effaith ar ddarlledwyr eraill a darparwyr gwasanaethau ar-alwad ac ar-lein.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

*C.2 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 1 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*

[41] BBC Perfformiad yn ôl Ymrwymiadau Cyhoeddus 2011/12, http://downloads.bbc.co.uk/annualreport/pdf/bbc_exec_sopps_2011_12.pdf ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2015/16 y BBC, http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/reports/pdf/bbc-annualreport-201516.pdf [Cyrchwyd 16 Mawrth 2017]

## Diben cyhoeddus 2: cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed;

| |
|---|
| Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed: dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffordd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli a'u herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant. |

## Cyd-destun ein cynigion

4.45 Fel y prif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael arian cyhoeddus yn y DU, mae gan y BBC ran bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu a darparu cynnwys sy'n annog cynulleidfaoedd o bob oed i ddysgu am bynciau gwahanol sy'n ehangu eu gorwelion. Mae ymchwil sydd wedi cael ei gynnal gan Ofcom yn dangos bod cynulleidfaoedd yn y DU yn gwerthfawrogi rhaglenni addysg a dysgu ar deledu, ar radio ac ar-lein.[42]

4.46 Mae'r BBC yn hollbwysig i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu darparu sy'n trin a thrafod pynciau fel y celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Mae Ofcom wedi gweld gostyngiad mewn gwariant ac allbwn yn rhan o'r genres hyn ar draws y sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.[43]

4.47 Mae gwariant ar allbwn rhaglenni plant yn disgyn ar draws pob sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac mae'r BBC yn darparu mwyafrif clir o'r buddsoddiad mewn rhaglenni plant newydd yn y DU. Mae rhaglenni arbennig yn chwarae rhan bwysig drwy helpu plant i ddysgu drwy chwarae a drwy ddangos syniadau newydd a heriol iddynt, ar draws genres gan gynnwys drama, ffeithiol a newyddion. Mae rhieni a gofalwyr yn dal i werthfawrogi rhaglenni plant o ansawdd uchel yn y DU, ac maent yn fodlon ar allbwn y BBC.[44]

4.48 Yn ogystal â chynnwys i blant sy'n hybu dysgu anffurfiol, y BBC ydy'r unig ddarlledwr yn y DU sy'n gorfod darparu cefnogaeth ar gyfer addysg ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Mewn ymateb i newidiadau mewn technolegau a phatrymau defnyddio, mae'r BBC nawr yn canolbwyntio ei allbwn addysgol ar gyfer plant hŷn ar ei lwyfannau ar-lein. Mae ymchwil wedi dangos bod BBC Bitesize yn boblogaidd iawn gyda'i gynulleidfa darged, yn enwedig pobl ifanc 15 a 16 oed.[45] Ar gyfer y plant ieuengaf, mae cynnwys addysgol CBeebies ar y teledu ac ar-lein yn boblogaidd ymysg plant cyn oed ysgol ac yn uchel eu parch ymysg rhieni a gofalwyr.[46]

---

[42] *Ofcom 2016 Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2016.*

[43] Ofcom, Atodiad Data i *Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn oes y Rhyngrwyd*, Gorffennaf 2015.

[44] Ymddiriedolaeth y BBC, *Arolygon Cylch Gwaith Diben*, 2011/12-2015/16.

[45] EdComs, *BBC Formal Learning Panel Dip 8 & App Usage Extension*, Awst 2015.

[46] Ymddiriedolaeth y BBC, *Adolygiad o wasanaethau ar gyfer plant*, 2013. http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/childrens_services/childrens_services.pdf

## Amcanion lefel uchel arfaethedig

4.49 Rydyn ni'n cynnig gosod yn y drwydded weithredu amcanion lefel uchel rydyn ni'n meddwl y dylai'r BBC eu cyflawni wrth hyrwyddo'r diben cyhoeddus. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r BBC wneud y canlynol:

4.49.1 parhau i ddarparu amrywiaeth helaeth o gynnwys ledled ei wasanaethau, a fydd yn rhoi cyfleoedd i'r holl gynulleidfaoedd ddysgu. Rydym yn disgwyl i'r BBC gynhyrchu cynnwys dysgu anffurfiol, gan gynnwys rhaglenni sy'n mynd i'r afael â phynciau fel celf, cerddoriaeth, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Dylai'r cynnwys hwn fod ar gael yn helaeth, a dylai'r BBC ymdrechu i gyrraedd a gwasanaethu'r cynulleidfaoedd mwyaf eang posibl â'r cynnwys hwn drwy ei brif sianeli teledu, ei brif orsafoedd radio a'i brif wefannau;

4.49.2 annog pobl i ddysgu am bynciau newydd a gwahanol, drwy helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau er mwyn archwilio a defnyddio'r adnoddau mae'n eu cynnig ledled ei wasanaethau, a'i wasanaethau ar-lein yn enwedig;

4.49.3 sicrhau ei fod yn gwasanaethu plant o bob oed, gan gynnwys plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, a'i fod yn cynhyrchu cynnwys difyr ac ysgogol ar gyfer dysgu anffurfiol sydd ar gael ar ffurfiau a gwasanaethau y mae plant yn eu defnyddio; a

4.49.4 chwarae rôl bwysig o ran addysg a dysgu yn y DU drwy feithrin partneriaethau â sefydliadau ym maes addysg, diwylliant a chwaraeon. Dylai'r BBC rannu ei arbenigedd a'i adnoddau, gan gynnwys ei archif, lle bo hynny'n briodol, fel rhan o'r partneriaethau hyn â sefydliadau arbenigol, er budd cynulleidfaoedd y DU.

## Amodau rheoleiddio arfaethedig

4.50 Mae Atodlen 2 y Cytundeb yn mynnu ein bod yn rhoi sylw penodol, wrth geisio sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu, i ba mor ddymunol fyddai gosod neu newid gofynion mewn perthynas â gwasanaethau teledu (yn enwedig BBC One). Mae'r rhain yn ymwneud â faint o genres, a'u hamlygrwydd, sy'n cyfrannu'n benodol at y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cerddoriaeth, celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, a rhaglenni i blant.[47]

4.51 Yn gyffredinol rydyn ni'n cynnig cadw'r cwotâu presennol sydd wedi cael eu gosod gan Ymddiriedolaeth y BBC a'u cynyddu pan fo hynny'n briodol, ar sail cyfartaledd perfformiad y BBC dros y pum mlynedd diwethaf. Rydyn ni hefyd yn cynnig:

4.51.1 ychwanegu dyletswyddau i BBC One a BBC Two amserlennu rhai rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth a chrefyddol yn ystod yr oriau brig.

[47] Paragraff 2(2)(a) o Atodlen 2 i'r Cytundeb.

4.51.2 cynyddu'r targedau ar CBBC mewn perthynas â rhaglenni drama a ffeithiol ar gyfer plant i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o raglenni gwahanol; a

4.51.3 chyflwyno amod ar CBeebies sy'n mynnu bod y BBC yn parhau i ddarparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer plant cyn oed ysgol. Rydyn ni hefyd yn cynnig rhoi amod ar BBC Ar-lein i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cefnogaeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm i blant a phobl ifanc yn eu harddegau ym mhob un o'r gwledydd. (Rydyn ni hefyd wedi cynnig o dan ddiben cyhoeddus tri, amod a fyddai'n cyflwyno amodau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar CBBC a CBeebies er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y rhaglenni newydd i blant sy'n cael eu comisiynu yn y DU).

## Ein rhesymeg

4.52 Wrth lunio'r cynigion hyn rydyn ni wedi ystyried ymchwil blaenorol o'n Hadolygiad a'n Hadroddiadau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus blynyddol, perfformiad y BBC yn y gorffennol, ynghyd â safbwyntiau cynulleidfaoedd a safbwyntiau rhanddeiliaid gan gynnwys Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol Ofcom. Mae'r gwaith hwn yn awgrymu bod cynulleidfaoedd gan fwyaf yn fodlon ar allbwn y BBC o ran ei gynnwys addysgol a dysgu anffurfiol, ond mae pryderon ynghylch y gostyngiad mewn gwariant ac allbwn mewn rhaglenni plant. Mae rhanddeiliaid yn y gwledydd hefyd yn tanlinellu'r angen i'r BBC deilwra'r gefnogaeth mae'n ei darparu i addysg ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn ôl y cwricwlwm gwahanol ym mhob gwlad.

4.53 Gan gydnabod y gostyngiad mewn rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth a chrefyddol sy'n cael eu darparu ar draws sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydyn ni'n cynnig codi'r targedau presennol ar gyfer y genres hyn gan ystyried bod y BBC wedi rhagori ar ei dargedau yn y maes hwn yn ddiweddar. Bydd yr amodau hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dal i allu cael gafael ar gynnwys sy'n canolbwyntio ar bynciau arbenigol ac a fydd yn rhoi cyfleoedd iddynt archwilio a chanfod.

4.54 Drwy gyflwyno rhai dyletswyddau oriau brig ar gyfer rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth a chrefyddol ar BBC One a BBC Two, rydyn ni'n cynnig diogelu amlygrwydd y cynnwys hwn ac rydyn ni'n annog y BBC i sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfaoedd prif ffrwd gydag amrywiaeth o genres. Yn ogystal â chynnal lefelau presennol o ddarpariaeth, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC gyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf posibl gyda chynnwys sy'n ysgogi, yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli.

4.55 Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC barhau i fuddsoddi mewn allbwn addysgol ar gyfer pob oed ar draws ei wasanaethau, yn enwedig yn yr hyn mae'n ei gynnig ar-lein. Rydyn ni hefyd yn cydnabod ac yn croesawu cyfraniad y BBC i ddarparu rhaglenni addysgol ar deledu, gan gynnwys rhaglenni sy'n cefnogi addysg ffurfiol plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Mae'r BBC wedi symud ei ffocws ar ddarparu ei gynnwys addysgol ar-lein, yn hytrach nag ar y teledu ac wrth ystyried faint o gynnwys mae'r BBC yn ei ddarparu drwy ei wasanaethau ar-lein, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol cynnig cwotâu ar gyfer rhaglenni addysg ffurfiol i blant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ar deledu.

4.56 Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC barhau i gynnwys amrywiaeth o gynnwys i blant a'u rhieni a'u gofalwyr ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys teledu prif ffrwd a'i wasanaethau ar-lein. Yn unol â hyn, rydyn ni'n cynnig codi'r targedau ffeithiol a drama ar gyfer CBBC ac, fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r diben cyhoeddus o fod yn unigryw, rydyn

ni'n cynnig cyflwyno cwotâu rhaglenni gwreiddiol newydd o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer CBBC a CBeebies er mwyn gwarantu y bydd plant yn dal i elwa o gynnwys newydd ac arloesol sy'n eu helpu i ddatblygu ac sy'n ehangu eu gorwelion. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i'r BBC ystyried bod plant yn treulio mwy o amser ar-lein a sicrhau ei fod yn dal i gyrraedd plant o bob oed.[48] cwestiynau diwygiedig yr ymgynghoriad.

4.57 Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC barhau i weithio gydag ystod eang o sefydliadau diwylliannol, addysgol a chwaraeon mewn ffyrdd sydd o fudd i boblogaeth y DU. Nid ydym wedi cynnwys cynigion penodol ar gyfer sut mae'r BBC yn cytuno ar bartneriaethau gyda sefydliadau eraill ac yn eu cynnal oherwydd ein bod yn credu ei bod hi'n briodol i'r BBC a'i bartneriaid benderfynu sut bydd y partneriaethau'n cael eu cynnal.

4.58 Rydyn ni'n disgwyl y bydd y cynigion sy'n ymwneud â chynnwys dysgu'r BBC yn cael effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd ac ar ddefnyddwyr, oherwydd bydd y cynigion yn helpu i sicrhau bod y BBC yn dal i ddarparu cynnwys sy'n ysbrydoli, yn ysgogi ac sy'n herio. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar rieni, ar ofalwyr ac ar blant drwy'r cynnydd arfaethedig mewn rhaglenni ffeithiol a drama ar CBBC (yn ogystal â thargedau newydd ar gyfer cynnwys i blant sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf o dan ddiben cyhoeddus tri).

4.59 Ar gyfer rhanddeiliaid yn y gwledydd, mae'r amod rydyn ni'n ei gynnig i BBC Ar-lein ddarparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yn atgyfnerthu'r angen i'r BBC gefnogi plant a phobl ifanc yn eu harddegau ym mhob un o'r gwledydd.

4.60 Byddem yn disgwyl i'r amodau o dan y diben hwn gael effaith fach ar y BBC. Mewn perthynas â dyletswyddau oriau brig ar gyfer rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth a chrefyddol ar BBC One a BBC Two, rydyn ni'n disgwyl y bydd modd cyrraedd y targedau hyn gan eu bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn y genres hyn yn ystod oriau brig.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

*C.3 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 2 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*

[48] Ofcom, *Plant a rhieni: adroddiad ar agweddau a defnydd o gyfryngau*, 2016.

## Diben cyhoeddus 3: dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau

**Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau:** dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safonau yn y DU ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini a ddarperir mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad yw pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau newydd a chynnwys arloesol.

## Cyd-destun ein cynigion

4.61 Er bod y cysyniad o fod yn unigryw yn y Siarter newydd yn ychwanegiad newydd at genhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC, mae i'r syniad agwedd sydd wedi bod yn allweddol yn allbwn a gwasanaethau'r BBC ers nifer o flynyddoedd. Ers 2008 roedd Ymddiriedolaeth y BBC wedi tynnu sylw at natur unigryw fel rhan o'r amcanion strategol roedd yn eu gosod ar gyfer y BBC ac roedd wedi cytuno, gyda'r BBC, ar bedwar gwerth allweddol a oedd yn eu barn nhw yn diffinio natur unigryw; safonau golygyddol uchel; uchelgais greadigol a golygyddol, amrywiaeth a dyfnder, a chynnwys sy'n canolbwyntio ar y DU a thalent gynhenid. Mae'r BBC wedi cydnabod pwysigrwydd natur unigryw o ran diwallu'r disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu rhoi arno fel darlledwr sy'n cael arian cyhoeddus.

4.62 Mae natur unigryw, ansawdd a chreadigrwydd wrth galon disgwyliadau cynulleidfaoedd ar gyfer allbwn a gwasanaethau'r BBC. Fel y gwelwyd o'r drafodaeth helaeth ynghylch y pwnc drwy gydol y broses o adolygu'r Siarter, mae hi'n gymhleth diffinio natur unigryw mewn ffordd sy'n golygu bod modd ei mesur drwy ddefnyddio amodau rheoleiddio. Dylai natur y BBC, yr amrywiaeth o wasanaethau y mae'n rhaid iddo eu darparu wrth gyflawni'r genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus a'i ddyletswydd i nodi bob blwyddyn ei gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith fod yn gwarantu natur unigryw'r BBC.

4.63 Mae nifer o'r amodau sydd ynghlwm wrth y diben cyntaf, yr ail a'r pedwerydd (darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd; cefnogi dysgu; ac adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU) yn cyfrannu at natur unigryw allbwn a gwasanaethau'r BBC. Mae hyrwyddo'r dibenion hyn yn cyfrannu at natur unigryw. Ar ben hynny, mae ein hymchwil yn awgrymu bod darparu cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cyfrannu at y cyflawni hyn. Rydyn ni wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ein sail dystiolaeth bresennol, data sydd wedi cael ei ddarparu gan y BBC, a'r ymchwil cynulleidfa pwrpasol y soniwyd amdano yn gynharach, i gyfrannu at ein dealltwriaeth o natur unigryw'r BBC. Wrth bennu ein hamcanion lefel uchel a'n hamodau rheoleiddio, roedden ni hefyd wedi ystyried perfformiad y BBC mewn perthynas â darparwyr eraill mae modd eu cymharu ag ef.

4.64 Rydyn ni wedi ystyried ein dyletswyddau o dan Atodlen 2 i'r Cytundeb. Mae Atodlen 2 yn mynnu ein bod, wrth bennu'r drwydded weithredu gyntaf, yn ceisio cynyddu'r gofynion presennol sydd ar y BBC drwyddo draw i sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu:

- rhaid i ni gael rhagdybiaeth yn erbyn dileu unrhyw rai o'r gofynion presennol a fyddai'n arwain at ddarparu allbwn a gwasanaethau sy'n llai unigryw;

- rhaid i ni ystyried yr achos dros gynyddu'r gofynion presennol mewn meysydd lle mae'r BBC wedi rhagori ar y gofynion hynny neu lle byddai hyn yn cefnogi darparu allbwn a gwasanaethau unigryw;

- rhaid i ni ystyried yr achos dros osod gofynion mewn meysydd lle byddai gwella perfformiad yn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu; a

- rhaid i ni ystyried yr angen i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethau cynulleidfaoedd, gan ystyried anghenion cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU.

4.65 Ar ben hynny, wrth gynnal y ddyletswydd hon mewn perthynas â gwasanaethau teledu (ac yn enwedig BBC One) mae'n rhaid i ni ystyried yn benodol: pa mor ddymunol ydy gosod neu newid gofynion mewn perthynas â faint o genres, a'u hamlygrwydd, sy'n cyfrannu'n benodol at y genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Y genres hyn yr ystyrir na chânt eu darparu'n ddigonol neu yr ystyrir eu bod yn dirywio ar draws sianeli gwasanaethau darlledu cyhoeddus, gan gynnwys cerddoriaeth, celfyddydau, crefydd a chynnwys arbenigol a ffeithiol arall; comedi; a rhaglenni plant. Rhaid i ni hefyd ystyried sicrhau cydbwysedd priodol o deitlau unigryw a chyfresi sydd wedi bod yn rhedeg ers tro yn ystod yr oriau brig ac ar adegau eraill.

4.66 Mewn perthynas â gwasanaethau radio, wrth gynnal ei ddyletswydd yn gosod y drwydded weithredu gyntaf, mae'n rhaid i ni roi sylw penodol i pa mor ddymunol ydy gosod neu newid gofynion er mwyn cyflawni'r canlynol:

- gwella'r ffocws ar hyrwyddo talent o'r DU, yn enwedig artistiaid newydd o'r DU, ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2;

- sicrhau bod allbwn cerddoriaeth BBC Radio 1 a BBC Radio 2 yn benodol yn fwy gwahanol i allbwn cerddoriaeth darlledwyr eraill;

- cynyddu faint o newyddion, gwybodaeth, materion cyfoes a materion gweithredu cymdeithasol sydd ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2, yn enwedig yn ystod yr oriau brig; a

- ehangu'r sylw a roddir i chwaraeon er mwyn cefnogi chwaraeon sy'n cael llai o sylw darlledu ar hyn o bryd yn well.

4.67 Mae Atodlen 2 hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried yr achos dros gael targedau oed cyfartalog cliriach ar gyfer y gwasanaethau radio prif ffrwd.

4.68 Rydyn ni wedi ystyried gofynion Atodlen 2 yn ofalus mewn perthynas â natur unigryw wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y drwydded weithredu. Mae rhai o'r gofynion penodol uchod yn cael eu trafod mewn mannau eraill o dan y dibenion cyhoeddus eraill (er enghraifft, mae gofynion penodol sy'n ymwneud â newyddion a materion cyhoeddus yn cael sylw'n gynharach yn yr adran o dan y diben cyhoeddus sy'n ymwneud â newyddion a gwybodaeth).

4.69 Mae'r adran hon yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer gweddill gofynion Atodlen 2 - gan gynnwys yr angen i roi gofynion priodol ar y BBC ar gyfer pob gwasanaeth teledu cyhoeddus yn y DU mewn perthynas â chynyrchiadau gwreiddiol.[49]

## Amcanion lefel uchel arfaethedig

4.70 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn diffinio 'gwasanaethau ac allbwn unigryw', gan gynnwys cyfeirio at greadigrwydd a safon uchel yn y diffiniad:

"allbwn a gwasanaethau, a ystyrir gyda'i gilydd, sy'n wahanol iawn i ddarparwyr eraill tebyg ledled pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU, yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol; ac ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, o ran-

(a) y cymysgedd o wahanol allbwn a gwasanaethau;

(b) ansawdd yr allbwn;

(c) swm y cynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU;

(d) lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg; a'r

(e) cynulleidfaoedd amrywiol mae'n eu gwasanaethu." [44]

4.71 Mae Ofcom yn credu bod y diffiniad hwn o allbwn a gwasanaethau unigryw, ar lefel uchel, yn cynnwys y meysydd pwysig y dylai'r BBC eu hystyried wrth ddiwallu'r diben hwn. Mae Ofcom yn ystyried hynny mewn perthynas â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw.

4.71.1 mewn perthynas â'r cymysgedd o genres gwahanol, dylai'r BBC sicrhau bod amrywiaeth o raglenni yn cael eu darparu ledled ei wasanaethau teledu. Dylai hefyd sicrhau helaethrwydd ac amlygrwydd y genres hynny sydd mewn risg neu'n dirywio ledled darllediadau gwasanaeth cyhoeddus. Ar ei wasanaethau radio, dylai'r BBC sicrhau bod ei bortffolio o orsafoedd yn cynnig yr amrywiaeth ehangaf bosib o allbwn cerddorol, a bod yr amrywiaeth o allbwn cerddorol ar ei wasanaethau radio poblogaidd yn fwy eang na darparwyr tebyg;

4.71.2 mewn perthynas ag ansawdd yr allbwn, dylai'r BBC sicrhau ansawdd uchel ledled ei allbwn, gan ystyried cynnwys, ansawdd y gwaith o gynhyrchu'r cynnwys, yn ogystal â sgil broffesiynol a gonestrwydd golygyddol y cynhyrchiad hwnnw;

4.71.3 mewn perthynas â swm yr allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU, dylai'r BBC sicrhau bod cyfran helaeth o'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar ei wasanaethau teledu yn gynyrchiadau gwreiddiol, yn enwedig yn ystod cyfnodau gwylio brig. Dylai'r BBC hefyd sicrhau bod nifer priodol o sefydliadau rhaglenni gwreiddiol y DU yn cael eu defnyddio ledled ei wasanaethau teledu, gan sicrhau eu bod yn llenwi cyfran helaeth o'r

[49] Paragraff 5 o Atodlen 2 i'r Cytundeb.

rhaglenni cyfnod gwylio brig. Dylai'r BBC gyfrannu at economïau creadigol y DU drwy fuddsoddi'n gyson mewn cynnwys gwreiddiol;

4.71.4 mewn perthynas â lefel yr arloesi, yr her yr uchelgais creadigol a chymryd risg, dylai'r BBC barhau i gymryd risgiau yng nghyswllt yr allbwn mae'n ei gomisiynu, yr amrywiaeth o sefydliadau mae'n comisiynu ganddynt a cheisio lleihau nifer y cyfresi sydd wedi rhedeg ers tro byd dros amser. Dylai hefyd gomisiynu allbwn gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau a syniadau'n cael eu hadlewyrchu ar draws ei wasanaethau; ac

4.71.5 mewn perthynas â'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu, dylai'r BBC sicrhau fod ei allbwn a'i wasanaethau gwasanaethu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y DU, drwy ei wasanaethau genres cymysg poblogaidd a'i wasanaethau un diben a mwy arbenigol.

4.72 Oherwydd natur gymhleth a chysylltiedig agweddau gwahanol natur wahanol, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC ddatgan yn glir yn ei adroddiad blynyddol a'i gynllun creadigol sut y bydd yn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu, a sut bydd pob gwasanaeth yn cyfrannu at y cyflawni hyn.

## Amodau rheoleiddio arfaethedig

4.73 Mae ein trwydded weithredu arfaethedig yn pennu cwotâu cynhyrchu gwreiddiol ar gyfer holl wasanaethau teledu cyhoeddus y BBC yn y DU, gan gynyddu'r cwotâu a osodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC yn unol â lefelau hanesyddol go iawn perfformiad y BBC dros y pum mlynedd diwethaf. Mae ein gwaith yn awgrymu bod cynyrchiadau gwreiddiol - y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu gan y BBC i'w ddarlledu ar ei sianeli - yn cyfrannu'n allweddol at natur unigryw gyffredinol allbwn a gwasanaethau'r BBC.

4.74 Ar ben hynny, rydyn ni'n cynnig pennu lefelau sylfaenol o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer BBC One, BBC Two, CBBC a CBeebies. Mae lefel uchel buddsoddiad y BBC mewn cynyrchiadau newydd yn cyfrannu'n sylweddol at ei natur unigryw, o ran y cynnwys newydd mae'n ei ddarparu yn ogystal â'i safle fel buddsoddwr yn economi greadigol y DU. Bydd yr amodau hyn hefyd yn sicrhau bod y BBC yn diwallu ei gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol gyda chyfran briodol o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.

4.75 Mewn perthynas â BBC Radio 1 a BBC Radio 2, rydyn ni'n cynnig cadw wyth amod presennol. Bydd y rhain yn sicrhau bod cyfran sylfaenol o'r gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae yn ystod y dydd yn gerddoriaeth newydd, a bod cyfran sylfaenol gan artistiaid o'r DU. Rydyn ni'n cynnig mireinio'r amodau presennol ar gyfer 'cerddoriaeth newydd' i sicrhau bod cyfran sylweddol o'r gerddoriaeth newydd hon yn dod gan artistiaid newydd ac sy'n datblygu yn y DU. Ar gyfer BBC Radio 1, rydyn ni'n cynnig cadw amodau presennol sy'n mynnu bod nifer sylfaenol o oriau o gerddoriaeth arbenigol yn cael ei chwarae a nifer sylfaenol o sesiynau newydd yn cael eu darlledu bob blwyddyn. Ar gyfer BBC Radio 2, rydyn ni'n cynnig cadw amodau sy'n mynnu bod nifer sylfaenol o oriau o raglenni cerddoriaeth fyw ac arbenigol yn cael eu darlledu bob blwyddyn. Rydyn ni'n credu bod yr amodau hyn yn cyfrannu at natur unigryw allbwn cerddorol BBC Radio 1 a BBC Radio 2 wrth gymharu â darparwyr eraill tebyg.

4.76 Rydyn ni hefyd yn cynnig gosod amodau newydd sy'n mynnu bod BBC Radio 1 a BBC Radio 2 yn chwarae ystod ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith bob dydd y caiff pob cân ei chwarae yn ogystal â maint y rhestr chwarae, yn ystod oriau brig ac yn ystod y dydd.

4.77 Rydyn ni'n cynnig gosod amod ar gyfer BBC Radio 5 Live i sicrhau bod yr orsaf yn cynnig sylwebaeth fyw, newyddion a rhaglenni eraill ar o leiaf 20 o gampau ym mhob blwyddyn. Bydd yr amod hwn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn trafod ystod ehangach o chwaraeon a'i fod yn cefnogi chwaraeon nad ydynt yn cael llawer o sylw darlledu ar hyn o bryd.

## Ein rhesymeg

4.78 Mae amcanion allweddol y trydydd diben cyhoeddus – creadigrwydd, ansawdd a natur unigryw – yn wrthrychol oherwydd eu natur. Mae ein dadansoddiad a'n profiad yn y maes hwn wedi tanlinellu cymhlethdod gosod gofynion rheoleiddio er mwyn gwella natur unigryw allbwn a gwasanaethau'r BBC.

4.79 Mae rhai o'r prif heriau o ran canfod amodau rheoleiddio priodol i hyrwyddo natur unigryw'r BBC yn cynnwys y canlynol:

4.79.1 Mae nifer o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y BBC yn wasanaethau un diben nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â darparwyr eraill, fel BBC Radio 4 a BBC Alba, ac mae'r syniad o gynyddu natur unigryw gwasanaethau o'r fath yn broblemus.

4.79.2 Mae gwasanaethau genre cymysg, mwy prif ffrwd, y BBC yn unigryw gan eu bod yn darparu rhaglenni mewn genres darlledu gwasanaeth cyhoeddus craidd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y farchnad ehangach.

4.79.3 Ni fydd cynulleidfaoedd bob tro'n sôn am natur unigryw mewn perthynas â'r gwerth maent yn ei roi ar y cynnwys BBC maent yn ei fwynhau.

4.79.4 Mae uchelgais ac arloesedd creadigol yn gallu arwain at raglenni sy'n fwy unigryw – fodd bynnag maen nhw'n anodd eu diffinio a'u hyrwyddo drwy fecanweithiau rheoleiddio, ac mae modd dadlau eu bod yn cael eu cyfyngu ganddynt.

4.79.5 Dylid cael cydbwysedd rhwng cyflwyno amodau rheoleiddio i hyrwyddo natur unigryw'r BBC a rhoi'r disgresiwn iddo arloesi neu ddarparu i'w gynulleidfaoedd y cynnwys maent yn ei werthfawrogi.

4.80 Mae ymchwil o’n harolwg darlledu gwasanaeth cyhoeddus blynyddol a’n Hadolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus[50] diweddaraf yn dangos bod y BBC yn dal yn gonglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus a’i fod yn dal i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy’n cael eu gwerthfawrogi gan bobl ar draws y DU. Rydyn ni wedi cynnal ymchwil pwrpasol ymysg cynulleidfaoedd i ategu ein sail tystiolaeth bresennol.[51] Ar lefel uchel, mae hyn yn dangos bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn teimlo bod y BBC yn unigryw o ran cymeriad a chynnwys. Mae’r BBC yn cael ei ystyried fel sefydliad Prydeinig unigryw, sy’n unigryw oherwydd ei hanes, ei gylch gwaith a’i fecanwaith cyllido. Roedden nhw’n dweud bod y BBC yn cynhyrchu allbwn o ansawdd uchel sy’n ddibynadwy ac sy’n cael ei ddarparu gyda thôn broffesiynol.

4.81 Wrth eu holi’n benodol am natur unigryw, roedd y cyfranogwyr yn teimlo’n gyffredinol bod y diffiniad o allbwn a gwasanaethau unigryw yn y Siarter yn berthnasol i’r agweddau pwysicaf: ansawdd yr allbwn, faint o allbwn gwreiddiol sy’n cael ei gynhyrchu yn y DU ac amrywiaeth y cynulleidfaoedd sy’n cael eu gwasanaethu. Lefel y risg a gymerir, arloesedd, her ac uchelgais greadigol oedd yr agwedd o natur unigryw lle cafwyd y mwyaf o herio yn ei chylch. At ei gilydd roedd cyfranogwyr hŷn yn teimlo y dylai’r BBC ganolbwyntio ar yr hyn mae’n ei wneud orau, ac roedd cynulleidfaoedd iau yn teimlo bod angen i’r BBC addasu ac arloesi i aros yn berthnasol. Fodd bynnag, roedd gwerthfawrogiad cyffredinol y dylid taro cydbwysedd rhwng rhaglenni sy’n boblogaidd ar hyn o bryd a chynnwys sy’n fwy arloesol. Rydyn ni wedi defnyddio canfyddiadau’r gwaith hwn, ochr yn ochr ag ymchwil a data arall sydd ar gael i lunio ein hamcanion lefel uchel a’n hamodau rheoleiddio. Fodd bynnag, mae’r ystod eang o safbwyntiau ynghylch yr hyn sy’n gwneud y BBC yn unigryw yn tynnu sylw ymhellach at gymhlethdod gosod gofynion rheoleiddio gwrthrychol.

4.82 Mae ein hamcanion lefel uchel arfaethedig wedi cael eu dylunio i ddal y prif rinweddau sydd wedi’u nodi yn y Cytundeb, yn ogystal â chanolbwyntio ar feysydd lle dylai'r BBC fod yn wahanol i ddarparwyr eraill. Yn fwriadol nid ydym wedi diffinio nifer o'r elfennau sydd wedi cael eu hamlinellu yn ein hamcanion lefel uchel arfaethedig fel amodau rheoleiddio. Maent yn rhoi digon o gyfeiriad strategol i’r BBC i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni ac rydyn ni’n disgwyl i’r BBC nodi’n glir yn ei gynllun blynyddol a’i gylch gwaith creadigol sut y bydd pob un o’r gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cyfrannu at hyn. Rydyn ni wedi egluro’r cyfraniad y mae nifer o’r amodau o dan ddibenion un, dau a phedwar yn ei wneud i’r diben hwn.

4.83 Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cyfrannu’n sylweddol at natur unigryw gyffredinol y BBC o ran ei gynnwys a’i safle ym marchnad darlledu’r DU. Mae ein hymchwil ymysg cynulleidfaoedd a thystiolaeth a gasglwyd gan ein Hadolygiad diweddaraf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a’n harolygon Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus blynyddol wedi dangos bod cynnwys sy’n cael ei gomisiynu yn y DU yn bwysig i gynulleidfaoedd y DU.

---


[50] Edrychwch ar yr Arolwg Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/psb-review-3 ; See PSB Review at: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/public-service-broadcasting/public-service-broadcasting-annual-report-2016

[51] Ofcom, *Crynodeb Gweithredol o’r Ymchwil i Natur Unigryw’r BBC*, 2017

4.84 Mewn perthynas â chynyrchiadau gwreiddiol, rydyn ni'n cynnig cynyddu'r cwotâu presennol i gyfateb i'r cyfartaledd y mae'r BBC wedi bod yn ei ddarparu mewn gwirionedd dros y pum mlynedd diwethaf fel sy'n briodol. Rydyn ni wedi cynnig ychwanegu cwota cynyrchiadau gwreiddiol newydd ar gyfer BBC Alba drwy ddefnyddio methodoleg debyg. Byddai BBC One, BBC Two a BBC Four yn parhau i gael amodau oriau brig i sicrhau bod cynyrchiadau gwreiddiol yn cynrychioli'r mwyafrif helaeth o'r rhaglenni pan fydd y gynulleidfa fwyaf yn gwylio.

4.85 Mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn 30% mewn termau real ers y brig yn 2004, o £1.71bn i £1.20bn yn 2015. Roedd rhewi ffi'r drwydded deledu o 2010 ymlaen wedi bod yn ffactor yn y gostyngiad hwn[52], yn ogystal â'r enillion effeithlonrwydd a chostau mewnbwn is sy'n gysylltiedig â gwneud rhaglenni dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae ymrwymiad y BBC i ddigwyddiadau chwaraeon mawr wedi golygu bod y gwariant wedi cynyddu ym mhob blwyddyn eilrif ers hynny. Bu newidiadau hefyd i'r ffordd mae cynyrchiadau teledu'n cael eu hariannu'n fwy cyffredinol ers 2004, gyda'r BBC yn defnyddio cyllid trydydd parti a chytundebau cynhyrchu ar y cyd i sicrhau bod ansawdd eu hallbwn yn aros yn uchel er gwaethaf llai o fuddsoddiad yn y cynnwys ei hun.

**Roedd gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn 30% rhwng 2004 a 2015**





*Ffynhonnell: Ofcom 2016 Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2016. Ffigurau mewn £bn ac mewn termau real.*

4.86 Mae nifer yr oriau darlledu rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws gwasanaethau teledu'r BBC hefyd wedi disgyn ers dechrau'r degawd diwethaf, 7% yn is na'r lefel uchaf a welwyd yn 2003.

---

[52] Mae ffi'r drwydded deledu wedi cael ei rewi ar £145.50 ers 2010 ar arfer bod yn gysylltiedig â chwyddiant. Bydd yn codi i £147 o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

**Roedd oriau'r BBC o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn 7% rhwng 2005 a 2015**




*Ffynhonnell: Ofcom 2016 Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2016. Ffigurau mewn oriau.*

4.87 Mae lefel uchel buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn un o'r ffactorau allweddol sy'n ei wneud yn wahanol i ddarlledwyr eraill ac rydyn ni'n credu y dylid cynnal lefel yr oriau dros gyfnod y Siarter nesaf. Rydyn ni'n cynnig gosod nifer sylfaenol o oriau ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wasanaethau genres cymysg mwyaf y BBC, BBC One a BBC Two, i sicrhau bod y buddsoddiad yn cael ei sicrhau a bod comisiynau newydd ar gael i'r cynulleidfaoedd mwyaf. Ar ben hynny, rydyn ni'n cynnig gosod amodau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar CBBC a CBeebies er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y rhaglenni newydd i blant sy'n cael eu comisiynu yn y DU.

4.88 Mae'r amodau gwasanaeth benodol isod yn cynrychioli ein hystyriaeth o'n dyletswydd o dan Atodlen 2 mewn perthynas â'r diben hwn.

4.89 . Rydyn ni wedi asesu a fyddai pennu amodau yn unol ag amcanion Atodlen 2 yn sicrhau allbwn a gwasanaethau sy'n fwy unigryw. Rydyn ni'n cynnig cadw wyth amod presennol sy'n ymwneud ag allbwn cerddorol BBC Radio 1 a BBC Radio 2. Mae Atodlen 2 y Cytundeb yn datgan y dylai Ofcom roi sylw penodol i ba mor ddymunol ydy gosod neu newid gofynion i sicrhau bod allbwn cerddorol y gwasanaethau hyn yn wahanol i ddarparwyr eraill. Rydyn ni hefyd yn cynnig diwygio'r amodau 'cerddoriaeth newydd' presennol i fynnu bod cyfran sylweddol yn dod gan artistiaid newydd ac sy'n datblygu o'r DU. Rydyn ni'n cynnig gosod lefelau'r gofynion hyn i sicrhau bod y BBC yn cynnal ei lefel perfformiad bresennol.

4.90 Rydyn ni'n cynnig ychwanegu amod newydd ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 2 sy'n mynnu bod y gorsafoedd yn chwarae ystod ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith y caiff pob cân ei chwarae (nid dim ond maint y rhestr chwarae) yn ystod oriau brig ac yn ystod y dydd. Rydyn ni'n credu bod modd tanseilio natur unigryw rhestr chwarae gorsaf os bydd rhai traciau'n cael eu

chwarae'n amlach o lawer na rhai eraill. Rydyn ni'n credu y dylai'r BBC ystyried hyn wrth ystyried natur unigryw allbwn cerddorol BBC Radio 1 a BBC Radio 2.

4.91 Rydyn ni'n cynnig gosod amod ar gyfer BBC Radio 5 Live i sicrhau bod yr orsaf yn cynnig sylwebaeth fyw, newyddion a rhaglenni eraill ar o leiaf 20 o gampau. Rydyn ni'n credu bod rhoi sylw i ystod eang o chwaraeon yn gwneud yr orsaf yn wahanol i ddarparwyr tebyg, ac mae ein hymchwil ymysg cynulleidfaoedd yn cefnogi hyn. Mae Atodlen 2 yn tynnu sylw at roi sylw ehangach i chwaraeon a chefnogaeth well i chwaraeon sy'n cael llai o sylw fel meysydd gwella allweddol ar gyfer gwasanaethau radio'r BBC.

4.92 Mae cydymffurfiad y BBC â'n hamodau mewn perthynas â newyddion a materion cyfoes, addysg, amrywiaeth a'r gwledydd a'r rhanbarthau hefyd yn ei wneud yn unigryw yn y farchnad. Rydyn ni wedi cynyddu lefelau nifer o'r amodau rydyn ni wedi'u cadw i sicrhau bod yr un lefelau perfformiad yn parhau.

4.93 Mewn perthynas â gwasanaethau teledu, rydyn ni wedi pwyso a mesur yn ofalus y gofyniad yn Atodlen 2 i ystyried pa mor ddymunol ydy gosod neu newid gofynion i sicrhau cydbwysedd priodol o deitlau unigryw a chyfresi sy'n rhedeg ers tro, yn ystod oriau brig ac ar adegau eraill. Rydyn ni wedi cynnwys amcan lefel uchel i leihau nifer y cyfresi sy'n rhedeg ers tro dros amser. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu bod penderfynu ar y gymhareb briodol yn yr amserlen deledu yn fater amserlennu i'r BBC. Byddwn yn casglu gwybodaeth yn y maes hwn drwy ein fframwaith mesur perfformiad ac efallai y byddwn yn ailedrych ar bosibilrwydd gosod amodau yn y dyfodol.

4.94 Rydyn ni wedi ystyried y gofyniad Atodlen 2 i ystyried gosod targedau oed cyfartalog cliriach ar gyfer y gwasanaethau radio prif ffrwd. Yn ein barn ni, ni fyddai'n briodol gosod targedau oed cyfartalog ar gyfer gwasanaethau radio prif ffrwd gan fod proffil demograffig gwasanaethau prif ffrwd unigol yn benderfyniad strategol i'r BBC.

4.95 Yn ogystal â'r amodau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran hon, bydd y diben cyhoeddus yn ffocws o'n mesurau perfformiad a'r dadansoddiad mwy ansoddol rydyn ni'n ei gynnal drwy ein hadolygiadau cyfnodol ac ad hoc. Byddwn yn ystyried gosod rhagor o amodau rheoleiddio os byddwn yn penderfynu nad yw perfformiad parhaus y BBC yn sicrhau darparu allbwn a gwasanaethau unigryw yn ddigonol.

4.96 At ei gilydd, rydyn ni'n credu y bydd effaith ein cynigion ar randdeiliaid eraill yn fach wrth gymharu â'r manteision i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Mae'r ffocws ar gynyrchiadau gwreiddiol yn debyg o sicrhau manteision i'r sector cynhyrchu annibynnol a chefnogi'r sector cynhyrchu.

4.97 Rydyn ni'n cydnabod y gall y cynigion effeithio ar y BBC yn enwedig mewn blynyddoedd i ddod wrth iddo geisio cyflawni'r her effeithlonrwydd a ddaeth yn sgil setliad ffi'r drwydded 2016. Rydyn ni'n edrych ar y BBC ac ar randdeiliaid eraill i ddarparu tystiolaeth o'r effaith hon drwy'r ymgynghoriad hwn.

4.98 Rydyn ni hefyd yn cydnabod y gallai fod effaith ar ddarlledwyr eraill oherwydd y gofyniad ar y BBC i ddarlledu mwy o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, a allai o bosibl gynyddu cyfran sianeli'r BBC.

**Wrth baratoi'r cynigion hyn rydyn ni wedi ystyried ei bod hi'n briodol peidio â gwneud cynigion rydyn ni'n meddwl a fyddai'n cael effaith sylweddol ar ryddid golygyddol a chreadigrwydd y BBC. Ni fyddai hyn er budd cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n cydnabod bod Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth fanwl a phenodol mewn perthynas â natur unigryw wrth osod y drwydded weithredu gyntaf. Serch hynny, mae hi'n dal yn hollbwysig bod y BBC yn rhoi sylw clir i sut mae'n bwriadu sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn ei gynllun blynyddol interim a'i gylch gwaith creadigol. Byddwn yn dychwelyd at y cynigion hyn maes o law os daw hi'n glir nad yw'r BBC yn gwneud hynny, neu os bydd ein mesurau perfformiad yn dangos nad yw cynulleidfaoedd yn fodlon ar gynnydd y BBC o ran darparu cynnwys creadigol, unigryw ac o ansawdd uchel. Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

*C.4 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 3 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*

## Diben cyhoeddus 4: adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig.

| |
|---|
| **Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig:** dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu cynnyrch a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymunedol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad |

4.99 Mae'r diben hwn yn cynnwys dau bwnc arwyddocaol a sylweddol. Rydyn ni'n cynnig ystyried ar wahân darpariaeth y BBC ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau, a darparu ymysg cynulleidfaoedd amrywiol y DU. Rydyn ni'n cydnabod bod materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn effeithio ar y gwledydd a'r rhanbarthau, ac fel arall, ond rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig gwneud y gwahaniaeth hwn er mwyn gallu rhoi ystyriaeth deg i'r naill bwnc a'r llall.

4.100 Rydyn ni'n credu bod 'cynrychioli' yn cyfeirio at nifer y cymeriadau a'r bobl sy'n ymddangos ar y sgrin a faint o amser a gânt ar y sgrin.[53] Mae 'portreadu' yn cyfeirio at y ffordd y caiff cymeriadau a phobl eu darlunio ar y sgrin, er enghraifft natur y rôl a'r sylw.

4.101 Fel cyd-destun er mwyn asesu perfformiad y BBC ar gynrychiolaeth gywir, byddwn yn defnyddio adroddiadau amrywiaeth y BBC ac yn ystyried a ydy allbwn a gwasanaethau'r BBC yn gyffredinol yn cynrychioli poblogaethau'r DU. O ran portreadu, byddwn yn ystyried a yw cynulleidfaoedd yn teimlo bod y BBC, at ei gilydd, yn portreadu cynulleidfaoedd yn ddilys. Wrth ystyried natur wrthrychol portreadu, bydd ein hasesiad yn adolygu ein mesurau bodlonrwydd cynulleidfaoedd ni a rhai'r BBC i weld sut mae cynulleidfaoedd yn teimlo y cânt eu portreadu gan y BBC.

## Y cyd-destun ar gyfer ein cynigion: y gwledydd a'r rhanbarthau

4.102 Mae'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus yn rhoi cyfrifoldeb ar y BBC i ddarparu cynnwys sy'n diwallu anghenion pob cynulleidfa ar draws y DU. Ar ben hynny, rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn cyfrannu at y diwydiannau creadigol ym mhob gwlad. Gyda mwy o ddatganoli yn y DU mae'r cyfrifoldebau hyn wedi dod yn bwysicach. Roedd ein hymchwil ymgynghori newydd ynghylch perthynas cynulleidfaoedd â'r BBC wedi amlygu'r pwysigrwydd mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar y BBC i gynhyrchu cynnwys i wasanaethu amrywiaeth o gynulleidfaoedd.[54] Roedd cynulleidfaoedd yn teimlo bod y

---

[53] Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at 'ar y sgrin' yn cynnwys ystyried materion sy'n ymwneud â chynrychiolaeth ar draws wasanaethau teledu, radio ac allbwn ar-lein y BBC.

[54] Ofcom, *Crynodeb Gweithredol o'r Ymchwil i Natur Unigryw'r BBC*, 2017

BBC yn gwneud hyn i ryw raddau ac roeddent yn cydnabod heriau cyflawni'r diben hwn, ond roeddent yn teimlo y gallai wneud mwy i adlewyrchu a gwasanaethu cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU, gan gynnwys y rheini o'r gwledydd a'r rhanbarthau.

4.103 Mae ymchwil 2016 Ofcom i'r holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn dangos bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn rhoi cryn bwys ar sut caiff eu gwlad neu eu rhanbarth eu cyfleu fel y maent yn ei wneud gyda newyddion yn eu gwlad neu eu rhanbarth. At ei gilydd mae cynulleidfaoedd yn fodlon â newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ond nid yw cynulleidfaoedd bob amser yn teimlo bod y portread o'r gwledydd yn cael ei wneud yn deg gan y darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.[55] Fel rhan o'n Hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2015, gwelsom fod 20% o gynulleidfaoedd o'r gwledydd datganoledig yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n negyddol gan y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus o'i gymharu â 11% yn Lloegr.[56] Canfu ein hymchwil hefyd fod cynulleidfaoedd yn y gwledydd datganoledig yn fwy tebygol o deimlo nad oedd digon o bobl o'u gwledydd ar raglenni sy'n cael eu dangos gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (26%), o'i gymharu â chynulleidfaoedd yn Lloegr (10%). Roedd ymchwil Ymddiriedolaeth y BBC yn 2015 hefyd wedi gweld y bu gostyngiad sylweddol ar nifer o fesurau sy'n ymwneud â'r BBC a'r diben "gwledydd, rhanbarthau a chymunedau".[57]

4.104 Mae'r BBC wedi cynyddu cyfran ei wariant rhwydwaith y tu allan i Lundain o 32% yn 2006 i 48% yn 2015, a chyfran ei oriau rhaglenni rhwydwaith y tu allan i Lundain o 30% yn 2006 i 58% yn 2015. Fodd bynnag, roedd ffigurau 2015 yn is na lefelau 2014 ar gyfer gwariant (53%) ac oriau (62%). Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod lefelau cynhyrchu sefydlog y tu allan i Lundain ac ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau, er mwyn i fanteision economaidd ac ehangach llawn comisiynu gael eu gwireddu ar draws y DU.[58]

4.105 Yn ogystal â'r cynigion yn y drwydded weithredu i sicrhau cynhyrchu yn y gwledydd, rydyn ni'n bwriadu adolygu ein harweiniad ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ynghylch cynyrchiadau rhanbarthol.[59] Bwriad yr adolygiad hwn ydy helpu i sicrhau bod cynhyrchu rhaglenni sy'n gymwys ar gyfer yr amodau rheoleiddio gwledydd perthnasol neu'r tu allan i'r M25 yn sicrhau manteision sylweddol i'r gwledydd ac i ranbarthau Lloegr yn unol â bwriad y polisi. Rydyn ni'n bwriadu dechrau'r adolygiad hwn ym mlwyddyn ariannol 2017/18, a bydd unrhyw newidiadau

---

[55] Ofcom 2016 *Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* 2016.

[56] Ofcom 2015 *Crynodeb Ymchwil Amrywiaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* 2015.

[57] Ymddiriedolaeth y BBC, *Arolwg Cylch Gwaith Diben Hydref 2015,* 2016: http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/review_report_research/ara_2015_2016/uk.pdf [Cyrchwyd 16 Mawrth 2017].

[58] Ofcom 2015 *Adroddiad Cydymffurfiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* 2015.

Ofcom 2010 *Adroddiad Cydymffurfiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* 2015.

[59] Ofcom, *Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol Arweiniad i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus,* 2010

a fydd yn deillio o’r adolygiad hwn yn berthnasol i’r gofynion rheoleiddio perthnasol a roddir ar y BBC ac ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

4.106 Roedd Ofcom wedi codi pryderon o’r blaen ynghylch y gostyngiad mewn allbwn nad yw’n ddeunydd rhwydwaith o'r gwledydd a’r rhanbarthau. Roedd gwariant y BBC ar raglenni newydd ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau wedi disgyn o £266 miliwn yn 2002 i £192 miliwn yn 2013 (mewn termau real) ar ei isaf. Mae’n ymddangos bod y gwariant hwn ar gynnwys nawr wedi lefelu gyda £193 miliwn yn cael ei wario yn 2015. Fodd bynnag, mae oriau’r BBC o raglenni newydd ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau wedi dal i amrywio gyda gostyngiad cyffredinol o 6,510 o oriau yn 2010 i 6,171 o oriau yn 2015.[60]

4.107 Rydyn ni'n nodi’r ymrwymiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y BBC mewn perthynas â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[61] Os caiff yr ystyriaethau hyn eu hymgorffori yng nghynllun blynyddol interim y BBC, byddwn yn ystyried goblygiadau'r ymrwymiadau hyn fel rhan o’n hasesiad cyffredinol o’r cynlluniau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan y BBC.

## Amcanion lefel uchel arfaethedig: y gwledydd a’r rhanbarthau

4.108 Rydyn ni’n cynnig gosod yn y drwydded weithredu amcanion lefel uchel rydyn ni’n meddwl y dylai’r BBC eu cyflawni wrth hyrwyddo’r diben cyhoeddus. Rydyn ni’n cynnig y dylai’r BBC wneud y canlynol:

4.108.1 cynrychioli a phortreadu pob carfan o gynulleidfa'r gwledydd a’r rhanbarthau yn gywir ac yn ddilys ledled ei allbwn, ei wasanaethau a’i genres[62];

4.108.2 dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y DU gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a’r rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ledled rhanbarthau Lloegr a meithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o'r DU;

4.108.3 mae sicrhau rhaglenni ar gyfer y gwledydd a’r rhanbarthau yn gwasanaethu ac yn creu cynnwys diddorol a pherthnasol i’r bobl sy’n byw yn yr ardal lle darparir y gwasanaeth. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys amrywiaeth helaeth o genres, gan gynnwys drama, comedi, chwaraeon a darlledu yn yr ieithoedd brodorol; a

---

[60] Ofcom 2016 *Adroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* 2016.

[61] BBC, Y BBC i gynyddu 50 y cant ar y buddsoddiad mewn rhaglenni ar gyfer Cymru, 2017: http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2017/wales-investment [Cyrchwyd 16 Mawrth 2017].

BBC, Biggest BBC investment in Scotland in twenty years, 2017: http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2017/scotland-investment [Cyrchwyd 16 Mawrth 2017].

4.108.4 chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.

## Amodau rheoleiddio arfaethedig: y gwledydd a'r rhanbarthau

4.109 Y dull gweithredu rydyn ni'n ei gynnig ydy darparu ffocws cryfach ar gynhyrchu ym mhob un o wledydd y DU ac ar lefelau wedi'u gwarantu o raglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd ein cynigion mewn perthynas ag amrywiaeth hefyd yn berthnasol i'r gofyniad diben cyhoeddus er mwyn i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli'n gywir a phortreadu'n ddilys y gwledydd a'r rhanbarthau yn ei gynnwys.

4.110 Mae ein trwydded weithredu arfaethedig yn gosod gofynion meintiol ar gyfer gwneud rhaglenni yn, a rhaglenni ar gyfer, y gwledydd a'r rhanbarthau, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 2 i'r Cytundeb.[63] Yn unol â'n dull gweithredu cyffredinol, mae lefelau'r cwotâu hyn wedi cael eu cynyddu er mwyn adlewyrchu darparu dros y lefelau hyn yn hanesyddol (hy dros y lefelau a gafodd eu gosod gan Ymddiriedolaeth y BBC) pan fo'n briodol.

4.111 Rydyn ni hefyd yn cynnig amodau newydd sy'n berthnasol i:

4.111.1 cyfran oriau'r rhaglenni sy'n cael eu gwneud ym mhob un o'r gwledydd;

4.111.2 cyfran y gwariant ar raglenni yn Lloegr y tu allan i'r M25;

4.111.3 yr amrywiaeth o genres sy'n cael eu gwneud y tu allan i'r M25;

4.111.4 yr amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir sydd y tu allan i'r M25;

4.111.5 yr amrywiaeth o genres sy'n cael eu gwneud ar gyfer rhaglenni rhanbarthol;

4.111.6 a darpariaeth newyddion ar orsafoedd radio lleol.

## Ein rhesymeg: y gwledydd a'r rhanbarthau

4.112 Wrth lunio'r cynigion hyn rydyn ni wedi ystyried ymchwil blaenorol o'n Hadolygiad a'n Hadroddiadau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus blynyddol, perfformiad y BBC yn y gorffennol, ynghyd â safbwyntiau cynulleidfaoedd a safbwyntiau rhanddeiliaid gan gynnwys Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol Ofcom. Mae'r ymchwil hwn yn awgrymu ei bod hi'n bosibl i'r BBC wella sut mae'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae angen i'r BBC ystyried ei randdeiliaid a'i gynulleidfaoedd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn iddo allu adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu ei holl grwpiau cynulleidfa a chefnogi economïau creadigol y DU.

4.113 Rydyn ni'n cynnig cyflwyno amodau newydd mewn perthynas â chynhyrchu a chynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydyn ni'n credu y bydd yr amodau hyn o fudd i grwpiau cynulleidfa ar draws y DU a'r diwydiannau creadigol yn y pedair gwlad. Mae'n bosibl y caiff y cynigion effaith ar y BBC os ydynt yn arwain at gostau uwch. Fodd bynnag, wrth ystyried perfformiad ac ymrwymiadau'r BBC ar hyn o bryd,

[63] Paragraffau 6 a 7 Atodlen 2 i'r Cytundeb, sydd ill dau yn ymwneud â Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU.

rydyn ni'n disgwyl y bydd unrhyw effaith yn ymylol. Dylai mwy o fuddsoddiad gan y BBC yn niwydiannau creadigol y DU gyfrannu at sector cynhyrchu sy'n fwy amrywiol.

4.114 Rydyn ni'n credu y bydd y lefelau cwota rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer cynhyrchu ac oriau rhaglenni yn helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu gwasanaethu'n dda. Mae'r lefelau wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio pum mlynedd o ddata perfformiad o'r BBC, ac rydyn ni'n credu y dylai'r BBC allu diwallu'r gofynion newydd sy'n cael eu rhoi arnynt.

4.115 Rydyn ni hefyd wedi crynhoi a ffurfioli rhai gofynion o'r trwyddedau gwasanaeth presennol a gafodd eu gosod gan Ymddiriedolaeth y BBC rydyn ni'n meddwl sy'n bwysig er mwyn cyflawni'r diben cyhoeddus hwn. Rydyn ni'n credu y bydd yr amodau diwygiedig hyn yn helpu i wella rhaglenni a chynnwys i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

4.116 Rydyn ni hefyd wedi cynnig cwotâu unigol ar gyfer pob gwlad a fydd yn disodli'r cwota y tu allan i Loegr, ac rydyn ni'n cynnig alinio fformat y cwota cynhyrchu gwreiddiol ar gyfer BBC Alba gyda rhai gwasanaethau eraill o dan y trydydd diben cyhoeddus.

4.117 Wrth ddatblygu ein dull gweithredu, roedden ni wedi ystyried amodau mwy rhagnodol, er enghraifft drwy osod cwotâu ar gyfer nifer yr oriau y dylai pob gwald eu darparu mewn genres penodol fel drama a chomedi. Ein barn dros do yw bod hyn yn fater i Fwrdd y BBC wrth osod strategaeth. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y BBC yn nodi yn ei gynllun blynyddol sut mae'n bwriadu darparu amrywiaeth o genres ar gyfer y gwledydd. Rydyn ni'n nodi'r ddadl barhaus ynghylch sut mae'r BBC yn dyrannu gwariant ffi'r drwydded yn fwy cyffredinol. Er ein bod wedi gosod amodau sy'n ymwneud â gwariant ar gynnwys ym mhob un o'r gwledydd, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol i Ofcom ymyrryd o ran sut mae'r BBC yn dyrannu gwariant gweithredol yn fwy cyffredinol.

## Cyd-destun ein cynigion: amrywiaeth

4.118 Mae angen i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ar draws y DU. Gan fod poblogaeth y DU yn dod yn fwy amrywiol, mae rôl y BBC yn diwallu anghenion ei grwpiau cynulleidfa yn dod yn bwysicach. Roedd ein hymchwil diweddar ynghylch perthynas cynulleidfaoedd â'r BBC wedi amlygu'r pwysigrwydd mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar y BBC i adlewyrchu, i gynrychioli ac i wasanaethu cymunedau amrywiol y DU.[64] Roedd cynulleidfaoedd yn teimlo er bod y BBC yn gwasanaethu amrywiaeth eang o ddinasyddion y DU drwy ei gynnwys, gallai'r BBC wneud mwy i adlewyrchu ac i wasanaethu cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU, er enghraifft, o ran oed, hil a chefndir economaidd-gymdeithasol.

4.119 Roedd dadansoddiad a thystiolaeth yn ein Hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2015 yn dangos nad oedd pob grŵp yn teimlo bod allbwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu eu bywydau yn ddigonol.[65] O ran enw da, canfu'r ymchwil fod nifer o gynulleidfaoedd gwahanol yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynrychioli ddigon mewn rhaglenni a oedd yn cael eu darlledu gan ddarlledwyr

[64] Ofcom, *Crynodeb Gweithredol o'r Ymchwil i Natur Unigryw'r BBC*, 2017

[65] Ofcom 2015 *Crynodeb Ymchwil Amrywiaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus* 2015.

gwasanaeth cyhoeddus. Roedd y cynulleidfaoedd hyn yn cynnwys pobl anabl, pobl sy'n ystyried eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, menywod 55 oed a hŷn, ynghyd â phobl o gefndiroedd ethnig du. Roedd dynion iau a menywod iau, a menywod hŷn yn fwy tebygol na grwpiau oed/rhyw eraill o deimlo eu bod yn cael eu portreadu'n negyddol. Roedd pobl o gefndiroedd ethnig du hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n negyddol yn fwy na grwpiau eraill.

4.120 Roedd Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu 206 hefyd yn amlygu bwlch cynyddol rhwng y cenedlaethau o ran arferion defnyddio cyfryngau, a fydd yn herio'r BBC wrth iddo geisio diwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd iau ar yr un pryd â pharhau i ddarparu allbwn a gwasanaethau mwy traddodiadol.

4.121 Er mwyn adlewyrchu a phortreadu'r DU fel ag y mae, rydyn ni'n ystyried y bydd angen i'r BBC herio ei hun i wneud yn well drwy'r amser. Mae sut mae'n datblygu talent, ei benderfyniadau cyflogi, ei gyllidebau a sut mae'n comisiynu cynnwys i gyd yn chwarae rhan hollbwysig o ran cyflawni'r amcan hwn.

4.122 Er nad yw amrywiaeth ar y sgrin yn fater sy'n unigryw i'r BBC, mae'r diben hwn yn egluro y dylai'r BBC fod ar y blaen er mwyn gwella amrywiaeth drwy sicrhau bod ei allbwn a'i wasanaethau yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU i gyd. Rydyn ni'n nodi bod y Siarter a'r Cytundeb hefyd yn rhoi dyletswyddau eraill sy'n ymwneud ag amrywiaeth ar y BBC, sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.[66]

4.123 Mae'r amodau rheoleiddio arfaethedig isod yn canolbwyntio ar allbwn a gwasanaethau'r BBC yn unol â'r diben cyhoeddus. Rydyn ni'n cydnabod rôl cynlluniau amrywiaeth oddi ar y sgrin y BBC o ran llwyddo i sicrhau perfformiad gwell yn y maes hwn. Rydyn ni'n cydnabod bod y BBC wedi ymrwymo'n ddiweddar i Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y BBC 2016 - 2020, sy'n cynnwys targedau cynrychioli mewn perthynas â: menywod[67]; pobl anabl; pobl sy'n ystyried eu bod yn LGBT; a lleiafrifoedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.[68] Mae'r BBC hefyd wedi llunio canllawiau comisiynu amrywiaeth newydd, wedi cynnig canolfan ragoriaeth ar gyfer amrywiaeth a thalent amrywiol, wedi creu cronfa dalent creadigol amrywiaeth gwerth £2.1m, ac wedi llunio cynllun interniaeth ar gyfer graddedigion. Mae'r BBC hefyd wedi ymrwymo i ddefnyddio paneli cynulleidfa amrywiaeth i gael adborth am ei allbwn gan grwpiau cynulleidfa sy'n cael eu tangynrychioli. Mae'r BBC wedi llunio targedau gweithlu i'w weithwyr a'i dimau arwain mewn perthynas â menywod,

[66] Mae Erthygl 14 y Siarter hefyd yn mynnu bod y BBC yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU i gyd yng nghynnwys ei allbwn, sut caiff ei allbwn a'i wasanaethau eu darparu (gan gynnwys lle caiff gweithgareddau eu gwneud a gan bwy) ac yn sut caiff ei drefnu a'i reoli. Mae Atodlen 3 i'r Cytundeb hwn hefyd yn rhoi gofynion cyfle cyfartal penodol (mewn perthynas â rhyw, anabledd, neu hil) a hyfforddiant ar y BBC hefyd.

[67] Mae Strategaeth y BBC yn cyfeirio at y targedau hyn fel targedau "portreadu", er o dan ein terminoleg ni mae'r targedau'n adlewyrchu cynrychiolaeth yn well, gan fod y targedau'n berthnasol i faint o sylw a roddir ar y sgrin neu ar yr awyr i gymuned neu i grŵp penodol, yn hytrach na *natur* y sylw hwnnw.

[68] Dyma'r pedwar grŵp fel y pennir gan y BBC yn ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016 – 2020.

lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl sy'n ystyried eu hunain yn LGBT, ymysg cynlluniau eraill i wella amrywiaeth ei weithlu.

4.124 Rydyn ni'n croesawu'r cynlluniau hyn. Byddwn yn ystyried sut caiff y rhain eu mabwysiadu fel rhan o gynllun blynyddol interim y BBC yn ystod haf 2017 cyn llunio fersiwn terfynol ein cynigion yn y maes hwn.

4.125 Mae gan y BBC ddyletswydd i ddiwallu anghenion holl gymunedau amrywiol y DU, nid dim ond y grwpiau cynulleidfa a amlygwyd yn eu targedau amrywiaeth. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC ystyried hyn, yn enwedig ar gyfer grwpiau cynulleidfa eraill sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, ac y mae ein hymchwil yn 2015 wedi gweld eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol a'u bod yn cael eu portreadu'n wael gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys menywod hŷn, menywod iau a dynion iau, yn ogystal â chynulleidfaoedd ar draws amrywiaeth o grwpiau crefyddol gwahanol. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC weithio i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg y grwpiau cynulleidfa sy'n teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli ac yn cael eu portreadu'n wael dros gyfnod nesaf y Siarter a byddwn yn monitro'r hyn mae'r BBC yn ei gyflawni yn y maes hwn.

4.126 Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC fesur ac adrodd ar ei gynlluniau a'i fuddsoddiad mewn gwella amrywiaeth, yn ogystal ag effaith y mesurau hyn. Rydyn ni'n bwriadu monitro perfformiad y BBC yn y maes hwn yn ofalus er mwyn i ni allu adolygu'r cynnydd ac ystyried amodau ychwanegol os bydd hyn yn briodol.

## Amcanion lefel uchel arfaethedig: amrywiaeth

4.127 Rydyn ni'n cynnig gosod yn y drwydded weithredu amcanion lefel uchel rydyn ni'n meddwl y dylai'r BBC eu cyflawni wrth hyrwyddo'r Diben Cyhoeddus. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r BBC wneud y canlynol:

4.127.1 gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig a chreu cynnwys sy'n berthnasol iddynt ac o ddiddordeb iddynt;

4.127.2 adlewyrchu'r amrywiaeth yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU mewn modd priodol yn ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;

4.127.3 cynrychioli'n gywir a phortreadu'n ddilys gymunedau amrywiol ledled y DU[69]; a

4.127.4 helpu i gyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.

## Amodau rheoleiddio arfaethedig: amrywiaeth

4.128 Gan fod amrywiaeth wedi cael ei chynnwys am y tro cyntaf yn nibenion cyhoeddus y BBC, mae'r holl amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig yn y maes hwn yn newydd. Mae'r amodau hyn yn berthnasol i:

4.128.1 adroddiad blynyddol y BBC ar sut mae wedi cydymffurfio â'r gofyniad i adlewyrchu, i gynrychioli ac i wasanaethu cymunedau amrywiol y DU;

4.128.2 sut mae'r BBC yn mesur ac yn adrodd ar fodlonrwydd cynulleidfaoedd ar draws cymunedau amrywiol y DU, gan gynnwys y camau y mae'r BBC wedi'u cymryd i geisio gwella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg unrhyw grwpiau sy'n cael eu tan wasanaethu y mae wedi'u nodi; a

4.128.3 y cynnwys mae'r BBC yn ei greu. Rydyn ni'n cynnig ei bod yn rhaid i'r BBC gytuno ar god ymarfer amrywiaeth gydag Ofcom sy'n helpu i sicrhau bod ei gynnwys yn cynrychioli'n gywir, yn portreadu'n ddilys ac yn adlewyrchu'r DU i gyd.[70]

## Ein rhesymeg: amrywiaeth

4.129 Wrth benderfynu pa amodau rheoleiddio gorfodadwy i'w cynnig rydyn ni wedi canolbwyntio ar yr hyn mae modd ei fesur, yr hyn mae modd ei fonitro a'r hyn sy'n cynrychioli canlyniad heriol ond realistig. Wrth lunio'r cynigion hyn rydyn ni wedi adolygu ymchwil blaenorol a pherfformiad y BBC yn y gorffennol, ynghyd â safbwyntiau rhanddeiliad a chynulleidfaoedd, er mwyn dod i ddeall yn well beth sy'n bwysig i'r rheini mae'r BBC yn eu gwasanaethu. Mae ymchwil yn awgrymu bod grwpiau cynulleidfa yn y DU sy'n teimlo nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, a bod bwlch rhwng y cenedlaethau rhwng cynulleidfaoedd hŷn a chynulleidfaoedd iau.[71] Dylai'r BBC fynd i'r afael â hyn dros gyfnod y siarter nesaf er mwyn adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU.

4.130 Mae'r amodau newydd rydyn ni wedi'u cyflwyno'n mynd i'r afael ag amrywiaeth allbwn a gwasanaethau'r BBC drwy ganolbwyntio ar sut mae'n darparu cynnwys ac yn cynrychioli poblogaeth y DU. Rydyn ni'n credu y bydd yr amodau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd ar draws y DU. Bydd ein cynigion yn effeithio ar y BBC oherwydd bydd yn rhaid iddynt sicrhau y darperir yn y meysydd hyn a mesur ac adrodd ar y cynnydd yn gyson. Dylai'r BBC allu cyflawni'r amodau hyn gan eu bod yn ategu ymrwymiadau'r BBC fel sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y BBC. Rydyn ni'n ystyried y bydd gwella'r ddarpariaeth o amrywiaeth yn helpu i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn ar draws y diwydiant.

4.131 Rydyn ni hefyd yn cynnig canolbwyntio ar y maes hwn drwy ein fframwaith mesur perfformiad, drwy ofyn am safbwyntiau gan gymunedau gwahanol ar sut mae gwasanaethau ac allbwn y BBC yn diwallu eu hanghenion ac yn adlewyrchu eu bywydau. Mae ein cynigion ar gyfer y drwydded weithredu felly yn fan cychwyn. Os bydd ein mesurau perfformiad yn dangos nad yw'r BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli nac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU rydyn ni'n debyg o ailedrych ar hyn, er enghraifft drwy gynnal adolygiad perfformiad ad hoc.

4.132 Wrth i ni ddatblygu ein cynigion amrywiaeth roedden ni wedi ystyried dibynnu'n gyfan gwbl ar fesurau perfformiad i dracio perfformiad y BBC a'u dal i gyfrif. Ein safbwynt

---

[71] Ofcom, *Crynodeb Gweithredol o'r Ymchwil i Natur Unigryw'r BBC*, 2017; Ofcom, Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn oes y Rhyngrwyd, *Gorffennaf 2015*

dros dro yw na fyddai hyn yn briodol, oherwydd nid ydym yn credu y byddai hyn yn sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r pedwerydd diben cyhoeddus.

4.133 Roedden ni hefyd wedi edrych ar ofynion mwy rhagnodol fel posibilrwydd amodau sydd wedi'u hanelu at wella amrywiaeth y BBC oddi ar y sgrin. Er y gallai rhai agweddau o amrywiaeth oddi ar y sgrin y BBC effeithio ar ddarparu amrywiaeth ar y sgrin ac ar yr awyr, nid ydym yn credu bod amodau o'r fath yn briodol ar hyn o bryd i sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r pedwerydd diben cyhoeddus. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei fonitro'n ofalus ac yn ei adolygu er mwyn rhoi'r cyd-destun angenrheidiol fel rhan o'n mesurau perfformiad amrywiaeth.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

*C.5 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 4 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*

## Gosod a diwygio'r drwydded

4.134 O dan y Siarter a'r Cytundeb mae'n rhaid i ni osod fframwaith ar gyfer y BBC ac mae'n rhaid iddo gynnwys y darpariaethau sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC yn cael eu rheoleiddio'r effeithiol fel y nodir yn y Siarter a'r Cytundeb. Rydyn ni eisoes wedi llunio cyfres o ddogfennau sydd, gyda'i gilydd, yn creu'r fframwaith gweithredu. Y ddwy ddogfen weithdrefnol rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch nawr, sy'n ymwneud â'r drwydded weithredu ac â'r mesurau perfformiad, ydy'r ddwy ddogfen derfynol ar gyfer y fframwaith gweithredu. Rhaid i'r fframwaith gweithredu (ymysg pethau eraill) gynnwys sut byddwn ni'n gosod ac yn gweinyddu'r drefn trwydded weithredu a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid eu dilyn. Rhaid iddo gynnwys:

- y gweithdrefnau ar gyfer gosod yr amodau rheoleiddio mewn trwydded weithredu;
- ystyriaethau Ofcom ynghylch gosod amodau rheoleiddio.

4.135 Yn Atodiad 5 yr ymgynghoriad hwn rydyn ni wedi nodi'r darpariaethau rydyn ni'n cynnig eu mabwysiadu yn y fframwaith gweithredu mewn perthynas â'r drefn trwydded weithredu, sy'n cyd-fynd â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer rheoleiddio'r BBC. Yn gryno, mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i:

- yr ystyriaethau a gawn mewn perthynas â gosod a diwygio amodau rheoleiddio gan gynnwys ein dyletswyddau statudol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a'r dyletswyddau penodol a roddir arnom gan y Siarter a'r Cytundeb;
- y gofynion gweithdrefnol ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded, gan gynnwys ein cynigion ar gyfer ymgynghori a chyhoeddi.

### Cwestiwn yr Ymgynghoriad

*C.6 Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio'r drwydded weithredu, fel y nodir yn Atodiad 5?*

Adran 5

# Mesurau perfformiad

## Mae mesurau perfformiad yn rhan hollbwysig o’r fframwaith perfformiad cyffredinol

5.1 O dan y Siarter, mae’r BBC yn gyfrifol am lunio fframwaith i asesu ei berfformiad yn cyflawni ei strategaethau a chylch gwaith creadigol, a dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae hyn yn cynnwys mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny pan fo’n briodol) i asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cyflawni’r genhadaeth ac yn hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus.[72]

5.2 Mae Ofcom hefyd yn gallu pennu ei fesurau ei hun, yn ychwanegol at fesurau’r BBC, yr ydym yn ystyried sy’n briodol er mwyn asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus.[73] Yn wahanol i’r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu, nid oes modd gorfodi’r mesurau perfformiad hyn eu hunain, er bod modd iddynt wrth gwrs ddangos lle gallai amodau rheoleiddio ychwanegol fod yn briodol yn y dyfodol.

5.3 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni ond yn gofyn am safbwyntiau ynghylch y rhan o’n fframwaith gweithredu sy’n berthnasol i’r gweithdrefnau byddwn ni’n eu dilyn wrth osod ac wrth ddiwygio ein mesurau perfformiad. Mae ein cynigion ar gyfer gosod y mesurau perfformiad yn cael eu gwneud yn unol â’r gweithdrefnau hyn. Yn amlwg, os oes angen i’r rhan hon o’r fframwaith gweithredu newid o ganlyniad i’r broses ymgynghori hon, efallai y bydd angen i ni ailedrych ar ein cynigion (edrychwch ar nes ymlaen yn yr adran hon).

## Trosolwg o gynigion Ofcom ar gyfer mesurau perfformiad

### Dull gweithredu trwyadl a hyblyg ar gyfer asesu perfformiad y BBC

5.4 Amcan y BBC ydy cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus. Rhan o rôl Ofcom fel rheoleiddiwr allanol y BBC ydy asesu sut hwyl mae’r BBC yn ei chael arni yn hyn o beth. Er mwyn i’r asesiad hwn fod yn ystyrlon, bydd angen iddo fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch perfformiad y BBC.

---

[72] Siarter. Erthygl 20(3).

[73] Wrth osod ac wrth ddiwygio’r drwydded weithredu, mae’r Siarter yn nodi bod ein rôl ni wedi’i chyfyngu i wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Yn ymarferol, nid yw’r BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus drwy wasanaethau cyhoeddus yn y DU: “adlewyrchu’r DU, ei diwylliant a’i gwerthoedd i’r byd”. Fodd bynnag, wrth gynnal ein hadolygiadau cyfnodol rhaid i ni ystyried perfformiad y World Service o ran cyfrannu at gyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus. Rhaid i’r BBC osod fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y World Service (erthygl 20 o’r Siarter) a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y World Service yn ei adroddiad blynyddol, a chynnal adolygiadau o berfformiad y World Service o leiaf bob pum mlynedd (cymal 35 o'r Cytundeb.). Rydyn ni’n bwriadu defnyddio’r wybodaeth hon, ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol a gawn gan y BBC, i gyflawni’r cyfrifoldeb hwn.

5.5 Felly bydd asesu perfformiad y BBC yn gofyn am ddull gweithredu trwyadl a hyblyg. Bydd angen iddo gydnabod bod rhai agweddau o ddarparu'n cael eu cyflawni orau ar sail gwasanaeth, a bydd rhai eraill yn cael eu gwneud ar draws gwasanaethau (yn ôl math o genre), a bydd rhai eraill yn cael eu gwneud drwy ganolbwyntio ar ganfyddiad a bodlonrwydd cynulleidfaoedd. Er mwyn bod yn glir, nid ydym yn bwriadu asesu darnau unigol o gynnwys na chyfres o raglenni. Rydyn ni'n credu mai Bwrdd y BBC fyddai'n fwyaf priodol i gyflawni rôl o'r fath, pan fydd angen hynny, yn ei gyfrifoldeb dros lywodraethu'r BBC.

5.6 Fel sy'n cael ei egluro yn y Siarter a'r Cytundeb newydd, mae yna berthynas ddeinamig rhwng y drwydded weithredu a'n mesurau perfformiad. Er bod amodau rheoleiddio yn ddyletswyddau mae modd eu gorfodi, mae mesurau perfformiad hefyd yn ffordd bwerus o ddal y BBC i gyfrif: maent yn helpu i gymell y BBC i gyflawni canlyniadau da cyn bod angen amodau rheoleiddio. Mae gennym bwerau i gynnig amrywiadau i'r drwydded unrhyw bryd, a allai gynnwys cynigion i osod gofyniad penodol yn y drwydded os ydym yn credu bod hynny'n briodol wrth ystyried tystiolaeth am fesur perfformiad penodol.

5.7 Mae'r Siarter hefyd yn mynnu ein bod yn cynnal o leiaf dau Adolygiad Cyfnodol manwl yn ystod oes y Siarter, yn ogystal ag adolygiadau ad hoc os ydy hynny'n briodol. Bydd ein mesurau perfformiad yn fewnbwn hollbwysig i'r swyddogaethau adolygu hyn

5.8 Bydd y dull gweithredu rydyn ni'n ei gynnig i osod fframwaith mesur perfformiad newydd ar gyfer y BBC yn adeiladu ar ein sail ymchwil bresennol, yn enwedig ein harolwg darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sydd wedi cael ei gynnal bob blwyddyn ers 2007. Bydd hefyd yn ystyried tystiolaeth a dadansoddiad sydd wedi cael eu gwneud fel rhan o'n Hadolygiad diweddaraf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2015 a'n Hadroddiad Ymchwil Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, yn ogystal â'n harolwg Newyddion blynyddol. Yn ogystal â hyn, rydyn ni'n cynnig gweithredu rhaglen bwrpasol o ymchwil ymysg cynulleidfaoedd a chasglu tystiolaeth i sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei dracio'n gadarn ac yn gyhoeddus. Bydd hyn yn ategu mesurau perfformiad BBC ei hun.

5.9 Yn ogystal â gosod cenhadaeth a dibenion cyhoeddus newydd ar gyfer y BBC, mae'r Siarter a'r Cytundeb newydd yn pennu cyfres amrywiol o heriau ar gyfer y BBC y bydd yn rhaid rhoi sylw iddynt dros amser. Mae'n rhaid i'r BBC gael y cyfle i gymryd risgiau creadigol a dewis sut y mae'n trefnu'i hun - gyhyd â'i fod yn parhau i gydymffurfio â'i ddyletswyddau trosfwaol - heb i'r rheoleiddiwr fod yn gysylltiedig â'i benderfyniadau creadigol, ei benderfyniadau amserlennu a'i strwythurau rheoli. Bydd y mesurau perfformiad a roddwn ar waith yn adlewyrchu ac yn parchu'r gwahanu hwn mewn cyfrifoldebau.

5.10 Oherwydd natur amrywiol pob mesur, nid yw hi'n bosibl mesur perfformiad y BBC yn erbyn pob diben cyhoeddus drwy ddefnyddio un categori mesur perfformiad. O'r herwydd, rydyn ni'n disgwyl y byddwn yn defnyddio ystod o fesurau ar y cyd er mwyn adrodd ar berfformiad y BBC bob blwyddyn. Ar gyfer pob diben rydyn ni'n cynnig ystyried mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaethau unigol teledu, radio ac ar-lein (ee BBC One, BBC iPlayer) yn ogystal â darparu ar draws llwyfannau fel sy'n briodol.

5.11 Dyma'r mesurau rydyn ni'n cynnig eu defnyddio ar gyfer pob diben cyhoeddus:

5.11.1 **Argaeledd** – mae'n disgrifio'r gwariant ar, natur, math, swm ac ystod y cynnwys sydd ar gael ar draws y BBC. Mae hwn yn gategori 'gwaelodlin'

sy'n ein helpu i lunio dealltwriaeth gadarn o natur cynnwys y BBC sy'n cael ei ddarlledu (ar oriau brig ac yn gyffredinol) neu sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein i roi synnwyr o'r cynnwys mae pobl yn gallu ei ddefnyddio. Byddai'r data hwn yn dod gan y BBC (a darparwyr cynnwys eraill pan fydd angen i ni ystyried meincnodau) ac yn cael ei ddadansoddi gan Ofcom.

5.11.2 **Defnyddio** - y graddau y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu. Mae'r categori hwn yn rhoi golwg gyffredinol o gyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio ar y BBC, fesul gwasanaeth neu ar draws llwyfannau, yn ogystal ag i ba raddau y mae'r BBC yn cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ar draws y DU ac yn y gwledydd. Byddai'r data hwn yn dod o amrywiaeth o gerbydau pan fyddai hynny ar gael, gan gynnwys ffynonellau cydnabyddedig o'r diwydiant (fel BARB, RAJAR a ComScore), setiau data'r BBC (ee arolwg PULSE neu fetreg defnyddio BBC iPlayer); ac ymchwil pwrpasol ymysg defnyddwyr a gomisiynwyd drwy Ofcom (fel ein harolwg newyddion ar draws llwyfannau).

5.11.3 **Effaith** - beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am y cynnwys hwn. Mae hi'n gymhleth mesur effaith, ond mae metreg o'r fath yn chwarae rhan bwysig yn sut rydyn ni'n adrodd ar sut mae'r BBC yn cyflawni yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Rydyn ni'n rhagweld y bydd angen ystod o ddangosyddion a fyddai'n dod o ymchwil meintiol ac ansoddol pwrpasol Ofcom yn ogystal â drwy ystyried ymchwil y BBC ei hun.

5.11.4 **Ffactorau cyd-destunol** - mae rhai agweddau o bob diben cyhoeddus nad oes modd eu mesur dim ond drwy'r categorïau uchod. Er enghraifft, byddai unrhyw asesiad o record y BBC o ran cymryd risgiau creadigol a darparu cynnwys arloesol yn elwa o ystyried gwybodaeth ansoddol a ddarperir gan y BBC. Efallai y byddwn ni hefyd eisiau ystyried newidiadau yng nghyllid y BBC dros amser, neu ffactorau polisi cyhoeddus allanol eraill. Mae rhai ffactorau cyd-destunol o'r fath felly yn rhan o'r dull gweithredu cyffredinol rydyn ni'n ei gynnig. Mae'r ffynhonnell yn debyg o amrywio yn ôl natur y ffactor rydyn ni'n ei ystyried, ond mae'n debyg o gynnwys gwybodaeth ansoddol gan y BBC.

5.12 Mae agweddau hanfodol o'n dull gweithredu yn cynnwys sefydlu data patrwm er mwyn mesur newidiadau mewn perfformiad dros amser, a llunio mesurau mae modd eu cymharu pan fo'n berthnasol a phan fyddant ar gael sy'n caniatáu i ni gymharu perfformiad y BBC â darparwyr cynnwys eraill.

## Egwyddorion mesur

5.13 Rydyn ni wedi ystyried y ffactorau canlynol wrth ddatblygu'r mesurau perfformiad penodol rydyn ni'n eu cynnig:

5.13.1 **Y gallu i gymharu**: sicrhau bod darpariaeth y BBC yn cael ei meincnodi yn erbyn gwasanaethau a chynnwys ar-lein/darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus/sector masnachol eraill pan fo hynny'n briodol a phan fydd yr wybodaeth ar gael.

5.13.2 **Cymesuredd**: nid ydym yn cynnig mesur pob agwedd o bob diben yn drwyadl yn erbyn pob un gwasanaeth neu bob rhan o'r dydd. Rydyn ni'n cynnig dechrau o'r sail o gasglu tystiolaeth am y BBC drwyddo draw, a data am wasanaethau penodol pan fydd hynny'n ein helpu. Byddwn yn edrych

yn fanylach ar wasanaethau penodol neu rannau o’r dydd pan fydd unrhyw ddangosydd yn dangos bod maes sy’n destun pryder posibl.

5.13.3 **Ymarferoldeb**: byddwn yn sicrhau bod yr hyn rydyn ni’n ceisio ei fesur yn feintioledig yn gallu cael ei fesur mewn ffordd o'r fath yn realistig ac yn wrthrychol. Byddem yn ystyried ffyrdd ansoddol amgen er mwyn deall perfformiad yn yr achosion hynny lle mae hi’n arbennig o anodd lleihau i fetreg mesuradwy.

5.13.4 **Tryloywder**: rydyn ni’n credu y dylai fod yn glir ac yn syml deall y metreg a fydd yn gysylltiedig â phob mesur.

5.13.5 **Dibynadwyedd/cadernid**: er enghraifft yn achos ymchwil ymysg cynulleidfaoedd, dylai’r offer mesur fod o faint digon mawr i allu edrych ar safbwyntiau is-grwpiau penodol dros amser.

5.13.6 **Hyblygrwydd**: rydyn ni’n cynnig defnyddio dull gweithredu hyblyg gyda’r metreg a fydd yn gysylltiedig â’r mesurau perfformiad. Rydyn ni’n cynnig cynhyrchu gwybodaeth tracio sylfaenol ar allbwn, gwariant, defnydd ac effaith bob blwyddyn. Byddai lefel ein hasesiad y tu hwnt i hyn yn amrywio o un flwyddyn i’r llall. Efallai y byddai’n well cynnal asesiad manylach o ddarparu yn ôl diben penodol yn llai aml er mwyn lleihau’r costau, bod yn gymesur a bod yn seiliedig ar ddata digonol.

## Darlun o’r hyn y byddai ein mesurau perfformiad arfaethedig yn ei ddarparu

5.14 Rydyn ni’n cynnig cyhoeddi adroddiad ymchwil bob blwyddyn a fydd yn rhoi trosolwg o berfformiad y BBC fesul diben cyhoeddus drwy gyfres gysylltiedig o ddangosyddion. Ar gyfer pob diben cyhoeddus rydyn ni’n cynnig ystyried mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaethau unigol teledu, radio ac ar-lein (ee BBC One, BBC iPlayer) yn ogystal â darparu ar draws llwyfannau fel sy’n briodol. Byddem hefyd yn defnyddio adroddiadau perfformiad blynyddol y BBC ei hun er mwyn disgrifio sut mae’r BBC wedi cyflawni yn erbyn pob un o’r dibenion cyhoeddus.

5.15 Byddai hyn ar wahân i adroddiad blynyddol Ofcom am gydymffurfiad y BBC â’i amodau rheoleiddio. Byddai’n bwydo i’n hadolygiadau cyfnodol, er yn anochel byddai’r adroddiad mesurau perfformiad blynyddol yn ymarfer llai helaeth na’r adolygiadau cyfnodol hyn.

5.16 Byddai’r dull gweithredu arfaethedig hwn yn rhoi ffordd dryloyw lefel uchel o fonitro perfformiad y BBC yn erbyn pob un o’r dibenion cyhoeddus, sydd wedi’u dylunio i alluogi Ofcom i asesu perfformiad y tu hwnt i amodau’r drwydded. Byddai’n fath o rybudd am dangyflawni, ac yn darparu tystiolaeth a all arwain at (a) newid y drwydded weithredu neu (b) penderfyniad ar bwnc neu ffocws adolygiad ad hoc. At ei gilydd, rydyn ni’n credu y byddai ein cynigion yn rhoi tystiolaeth annibynnol i Ofcom a fyddai’n mynd gam ymhellach na’r hyn a gynhyrchir gan y BBC ynghylch ei berfformiad.

5.17 Mae Ffigur 1 isod yn rhoi crynodeb o'r mathau o ddangosyddion rydyn ni’n cynnig eu defnyddio ar gyfer pob un o’r pedwar maes arfaethedig a ddaw o dan y fframwaith mesur perfformiad. Mae Atodiad 6 yn cynnwys canllaw manylach gyda darluniadau o’r mesuriadau y byddwn efallai’n eu defnyddio ar gyfer pob diben cyhoeddus.

**Trosolwg darluniadol o’r mathau o fetreg a ddefnyddir yn fframwaith mesur perfformiad arfaethedig Ofcom**

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae’n ei ddweud wrthym | Amlder y dadansoddi | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|---|
| **Argaeledd** | **Oriau allbwn gwreiddiol o’r DU sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf** | Faint o gynnwys newydd o'r DU sydd ar gael i gynulleidfaoedd. | Blynyddol | Oriau allbwn y BBC |
| | **Gwariant ar allbwn gwreiddiol o’r DU sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf** | Mae procsi ar gyfer ansawdd; lefelau buddsoddi uchel yn brocsi ar gyfer cynnwys o ansawdd uchel.[74] | Blynyddol | Gwariant y BBC ar allbwn |
| | **Dadansoddiad o'r cynnwys** | Dadansoddiad astudiaeth achos annibynnol o’r ystod, y math neu amrywiaeth y cynnwys sy’n cael ei ddarparu gan y BBC. | Ad hoc | Arbenigwyr allanol wedi’u comisiynu gan Ofcom |
| **Defnyddio** | **Cyrhaeddiad** | Y graddau y mae cynulleidfaoedd gwahanol yn cael gafael ar gynnwys y BBC (ee yn ôl llwyfan/gwasanaeth/demograffig). | Blynyddol | Cylchrediad y diwydiant – ee BARB, RAJAR, ComScore neu ymchwil ymysg defnyddwyr Ofcom |
| | **Munudau a ddefnyddiwyd** | Yr amser a dreuliwyd ar gynnwys y BBC, gyda munudau cyfartaledd uchel yn brocsi am ymgysylltu uchel | Blynyddol | Fel yr uchod |
| **Effaith** | **Barn y gynulleidfa – meintiol** | Mesur barn y gynulleidfa ynghylch sut mae’r BBC yn cyflawni yn erbyn y genhadaeth a'r dibenion. | Blynyddol | Ymchwil ymysg defnyddwyr Ofcom/ymchwil ymysg defnyddwyr y BBC |
| | **Barn y gynulleidfa – ansoddol** | Archwilio’n fanwl beth ydy barn y gynulleidfa ynghylch sut mae’r BBC yn cyflawni yn erbyn y genhadaeth a'r dibenion. | Ad hoc | Fel yr uchod |
| | **Barn arbenigwyr** | Safbwyntiau gan randdeiliaid ar wahân i’r cyhoedd. | Ad hoc | Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid Ofcom |
| **Ffactorau cyd-destunol** | **Gwybodaeth ansoddol gan y BBC** | Gwybodaeth ansoddol berthnasol gan y BBC neu o fannau eraill sy’n helpu i ddisgrifio sut mae’r BBC wedi cyflawni ei genhadaeth a’i ddibenion cyhoeddus. | Ad hoc | Mae Ofcom yn gofyn am yr wybodaeth gan y BBC |

[74] Mae’r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â’r ffordd rydyn ni wedi asesu darparu cynnwys o ansawdd uchel ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ein hadroddiad ymchwil blynyddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydyn ni’n defnyddio gwariant fel ffigur procsi, gan dderbyn bod y cymysgedd o genres ar draws gwasanaethau, newidiadau mewn costau mewnbwn, enillion effeithlonrwydd mewn cynhyrchu a chyllid trydydd parti ymysg y ffactorau i’w hystyried wrth edrych ar lefelau buddsoddi.

5.18 Rydyn ni'n cynnig adrodd ar sut mae'r BBC yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus ar draws teledu, radio ac ar-lein.[75] Fodd bynnag, mae hi'n anoddaf asesu darparu ar gyfer llwyfannau radio ac ar-lein drwy ddefnyddio metreg argaeledd a defnyddio nag ydyw ar gyfer teledu. Er enghraifft, mae lefelau'r manylion sy'n cael eu darparu gan gylchrediadau'r diwydiant ynghylch defnydd yn amrywio[76], ac mae oriau cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar deledu heb fesur cydweddol ar draws gwasanaethau ar-lein amrywiol. Byddem yn trefnu setiau o ddata amgen a chadarn pan fyddai hynny'n ymarferol.

## Effeithiau

5.19 Mae'r rhan fwyaf o'r baich gweinyddol o lunio'r fframwaith mesur perfformiad hwn yn debyg o ddisgyn ar ysgwyddau Ofcom. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod, lle bydd angen i'r BBC ddarparu gwybodaeth, y bydd hyn yn golygu costau i'r BBC hefyd. Rydyn ni'n bwriadu lliniaru'r costau hyn cymaint ag y bo modd, er enghraifft drwy sicrhau bod ceisiadau yn gymesur, rhoi digon o amser i gwblhau cais, defnyddio setiau data presennol sydd wedi cael eu darparu gan y BBC pan fo'n bosibl ac ymgysylltu â'r BBC ynghylch fformat a chwmpas yr wybodaeth ychwanegol byddant yn ei rhoi i ni. Serch, mae ein gallu i fynnu gwybodaeth gan y BBC er mwyn rheoleiddio'r BBC yn un o ddarpariaethau pendant y Siarter ac rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn pan fyddwn ni'n credu bod hynny'n briodol. Mae gennym bŵer hefyd i ofyn am wybodaeth gan ddarparwyr trydydd parti pan fyddwn yn credu bod hynny'n briodol i'n cyfrifoldebau wrth reoleiddio'r BBC. Rydyn ni'n cydnabod y baich posibl ar drydydd partïon, a byddwn yn ceisio lliniaru'r effeithiau hyn yn yr un ffordd â gyda'r BBC.

5.20 Rydyn ni'n cydnabod y gallai cyhoeddi mesurau perfformiad manylach ddarparu gwybodaeth a allai fod o ddefnydd i gystadleuwyr y BBC, ac y gellid, mewn egwyddor, ei defnyddio i ddatblygu neu i deilwra gwasanaethau sy'n cystadlu, a allai leihau cyfran y BBC o'r gynulleidfa. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau gallai hynny fod yn fantais neu'n anfantais i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Mewn unrhyw achos, rydyn ni'n credu bod y perygl o effeithiau arwyddocaol ar gyrhaeddiad y BBC yn gymharol isel.

### Cwestiwn yr ymgynghoriad

*C.7 Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer mesur perfformiad?*

*C.8 Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig o: argaeledd; defnydd; effaith; ffactorau cyd-destunol?*

[75] Mae ar-lein yn cynnwys gwasanaethau ar-alwad a ffrydio, fel BBC iPlayer, a BBC Three fel sy'n briodol.

[76] Er enghraifft, mae llawer llai o fanylion yn yr wybodaeth sy'n cael ei darparu drwy ffigurau gwrando RAJAR wrth gymharu â ffigurau gwylio'r teledu gan BARB (ee data ar gael ar lefel genre), neu mae ystod y grwpiau cynulleidfa a ddarperir gan ComScore ar gyfer defnydd ar-lein yn wahanol i'r hyn sydd ar gael yn BARB neu RAJAR.

## Y broses gyfer gosod a diwygio mesurau perfformiad

5.21 Mae'r fframwaith gweithredu mae'n rhaid i ni ei osod o dan y Siarter a'r Cytundeb ar gyfer y BBC yn cynnwys y darpariaethau sy'n briodol yn ein barn ni i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC yn cael eu rheoleiddio'r effeithiol fel y nodir yn y Siarter a'r Cytundeb. Rydyn ni eisoes wedi llunio cyfres o ddogfennau sydd, gyda'i gilydd, yn creu'r fframwaith gweithredu. Fel y trafodwyd ar ddiwedd adran 4 y ddogfen hon, y ddwy ddogfen weithdrefnol rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch nawr, sy'n ymwneud â'r drwydded weithredu ac â'r mesurau perfformiad, ydy'r ddwy ddogfen derfynol ar gyfer y fframwaith gweithredu. Rhaid i'r fframwaith gweithredu (ymysg pethau eraill) osod sut byddwn yn gosod mesurau perfformiad a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid eu dilyn.

5.22 Yn Atodiad 7 yr ymgynghoriad hwn rydyn ni wedi nodi'r darpariaethau rydyn ni'n cynnig eu mabwysiadu yn y fframwaith gweithredu mewn perthynas â'r mesurau perfformiad, sy'n cyd-fynd â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer rheoleiddio'r BBC.

5.23 Ar ôl cwblhau'r fframwaith mae'n debyg o gynnwys cannoedd o fetrigau unigol. Er bod craidd o fetrigau yn debyg o aros yn sefydlog, rydyn ni'n bwriadu ychwanegu neu ollwng metrigau o flwyddyn i flwyddyn gyda meysydd penodol o ddiddordeb polisi. Mae'r ddarpariaeth fframwaith gweithredu arfaethedig yn Atodiad 7 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori ynghylch gosod neu ddiwygio mesurau perfformiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fyddem yn bwriadu ymgynghori ynghylch newidiadau i fetrigau perfformiad unigol.

## Cwestiynau am y fframwaith gweithredu ar gyfer y mesurau perfformiad

*C.9 Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio'r mesurau perfformiad?*

## Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm 17 Gorffennaf 2017**.

A1.2 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance. Rydyn ni hefyd yn darparu dalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet) ar gyfer ymatebion sy'n cael eu hanfon dros e-bost neu bost; a fyddech chi cystal â llenwi hon er mwyn ein helpu i gynnal eich cyfrinachedd, ac mae'n cyflymu ein gwaith. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych chi'n ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.

A1.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i bbcperformance@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 17 Gorffennaf.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.

BBC performance
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Os hoffech chi gyflwyno'ch ymateb mewn fformat gwahanol, (ee ffeil sain neu fideo), cysylltwch â Jacquie Hughes ar 020 7981 3000, neu anfon e-bost at bbcperformance@ofcom.org.uk

A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 3. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a’r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Jacquie Hughes ar 020 7981 3000, neu anfon e-bost at bbcperformance@ofcom.org.uk

## Cyfrinachedd

A1.10 Mae ymgyngoriadau’n fwy effeithiol os ydyn ni’n cyhoeddi’r ymatebion cyn i’r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy’n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â’r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni’n credu ei bod hi’n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddan nhw’n dod i law.

A1.11 Os ydych chi’n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i’ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno’n unig, fel na fydd rhaid inni olygu’ch ymateb.

A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi’u marcio’n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi’u rhoi o dan drwydded i Ofcom i’w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use

## Y camau nesaf

A1.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad erbyn diwedd mis Medi 2017.

A1.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates/

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.17 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni’n rheoli ein hymgyngoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy’r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy’n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.18 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601
E-bost steve.gettings@ofcom.org.uk

Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir/Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom ydy'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Sefydliad | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 3

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiynau am y drwydded weithredu

A3.1 Atebwch y cwestiynau canlynol os gwelwch yn dda, sydd hefyd wedi cael eu cynnwys yn adrannau perthnasol yr ymgynghoriad.

*C.1 Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gosod y drwydded weithredu?*
*C.2 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 1 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*
*C.3 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 2 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*
*C.4 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 3 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*
*C.5 Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i gynnig ar gyfer diben cyhoeddus 4 gan gynnwys yr amcanion lefel uchel a'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu cynnig?*

## Cwestiwn am osod a diwygio'r drwydded weithredu

*C.6 Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio'r drwydded weithredu, fel y nodir yn Atodiad 5?*

## Cwestiynau am fesurau perfformiad

*C.7 Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer mesur perfformiad?*
*C.8 Ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig o: argaeledd; defnydd; effaith; ffactorau cyd-destunol?*

## Cwestiwn am y fframwaith gweithredu ar gyfer y mesurau perfformiad

*C.9 Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu Ofcom ar gyfer sut byddwn yn gosod ac yn diwygio'r mesurau perfformiad?*

**Atodiad 4**

# Trwydded weithredu arfaethedig y BBC

# Gair am y ddogfen hon

**[NODER: drafft o drwydded gweithredu'r BBC ar gyfer ymgynghoriad yw'r ddogfen hon.]**

Dyma ddrafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'n nodi'r amodau rheoleiddiol y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddiol yn y drwydded hon. Gall Ofcom gymryd camau gorfodi mewn achos o ddiffyg cydymffurfio.

Mae dogfen ar wahân ar gael ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig, sy'n nodi'r amodau rheoleiddiol perthnasol i Wasanaethau'r BBC yn y wlad honno'n benodol.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Y Drwydded | 1 |

| Amserlenni | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Amodau rheoleiddiol | 9 |
| 2 | Diffiniadau a dehongliadau | 244 |
| 3 | Crynodeb o’r amodau rheoleiddiol | 277 |
| 4 | Gwasanaethau Cyhoeddus y DU | 355 |

## Adran 1

# Y Drwydded

1.1 Dyma ddrafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (y “Drwydded”). Mae Ofcom wedi cyflawni swyddogaethau’r Drwydded o dan y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y “Siarter”) a’r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a’r BBC (y “Cytundeb”), yn unol ag adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003[1].

1.2 Yn benodol, mae swyddogaethau Ofcom yn cynnwys[2] pennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU sy’n cynnwys amodau rheoleiddiol y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i’r BBC wneud y canlynol:

1.2.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

1.2.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

1.2.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

1.3 Ar ben hynny, mae Ofcom wedi pennu’r Drwydded yn unol â’r gofyniad[3] er mwyn gorfodi amodau penodol[4] sy’n ymwneud â'r canlynol:

- bod yn unigryw (lle mae’n ofynnol arnom, yn benodol, yn y drwydded weithredu gyntaf i geisio gwella’r gofynion presennol a nodir gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu);
- newyddion a materion cyfoes (niferoedd ac amserlennu);
- cwotâu ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol; a
- chwotâu ar gyfer rhaglennu a chreu rhaglenni mewn gwledydd a rhanbarthau.

1.4 Yn y Drwydded, mae Ofcom wedi gorfodi amodau rheoleiddiol pellach y mae’n eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i’r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus[5].

1.5 Hefyd, mae Ofcom wedi gorfodi amodau rheoleiddiol pellach y Drwydded y mae’n eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da[6].

[1] Mae Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu ar gyfer swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â’r BBC.
[2] Erthygl 46(3) o’r Siarter.
[3] Cymal 13(2) y Cytundeb.
[4] Amodau rheoleiddiol y drwydded weithredu a nodir yn Atodlen 2 o’r Cytundeb.
[5] Cymal 13(3) y Cytundeb.
[6] Cymal 13(4) y Cytundeb.

1.6 Mae'r Drwydded yn berthnasol i bob un o Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU fel y nodir yn y Cytundeb[7] ac mae'n berthnasol i bob un o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae Ofcom wedi cynhyrchu dogfen ar wahân ar gyfer pob gwlad yn y Deyrnas Unedig, sy'n nodi'r gofyniad rheoleiddiol penodol i'r wlad berthnasol, i'w darllen ynghyd â'r Drwydded hon.

1.7 Nid yw'r drwydded yn nodi cyllidebau na strategaethau ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni'r BBC. Nid yw'r meysydd hyn yn rhan o swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC. Yn unol â darpariaethau'r Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â phennu'r cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith creadigol er mwyn gwneud hynny[8]. Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno, y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno, a'r ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig[9].

1.8 Mae Ofcom wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn pennu'r Drwydded hon[10], a bydd Ofcom yn pennu'r Drwydded yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu[11].

1.9 Efallai y bydd Ofcom yn diwygio'r Drwydded hon ac mae'n ystyried y bydd yn debygol y bydd yn gwneud hynny'n rheolaidd dros gyfnod y Siarter. At ddibenion egluro yn unig, efallai y bydd Ofcom yn ei hystyried yn briodol diwygio'r Drwydded ar ôl pwyso a mesur tystiolaeth am berfformiad y BBC mewn meysydd penodol, neu ar ôl ystyried newidiadau mewn arferion gwylio a gwrando cynulleidfaoedd, neu newidiadau mewn technoleg: er enghraifft, rhagor o ddefnydd ledled llwyfannau gwahanol. Cyn diwygio'r Drwydded, bydd Ofcom yn ymgynghori â'r BBC. Bydd Ofcom hefyd yn ymgynghori ag unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol mewn perthynas â natur a defnyddioldeb y diwygiad arfaethedig, yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu.

1.10 Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio ag Amodau Rheoleiddiol y Drwydded mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU[12]. Mae'n rhaid i Ofcom fynnu bod y BBC yn cydymffurfio ag Amodau Rheoleiddiol y Drwydded[13] ac, yn benodol, efallai y bydd Ofcom yn ystyried cwynion mae'n eu derbyn gan unigolion ac yn cynnal archwiliadau y mae'n eu hystyried yn briodol[14]. Hefyd, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC yn uniongyrchol drwy'r Siarter neu'r Cytundeb, neu drwy ddeddfwriaeth, fel cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol[15], a gofynion mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl â nam ar y golwg neu'r clyw[16].

---

[7] Mae rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi yn Atodlen 4 y Drwydded hon.
[8] Erthygl 20(3)(a) a (b) o'r Siarter.
[9] Erthygl 36 o'r Siarter.
[10] Mae Cymal 13(5) o'r Cytundeb yn nodi bod rhaid i Ofcom, cyn pennu trwydded weithredu, ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol.
[11] Mae Erthygl 46(3) o'r Siarter yn nodi bod rhaid i Ofcom bennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol â'r Fframwaith Gweithredu.
[12] Cymal 7(2) y Cytundeb.
[13] Mae'r amodau rheoleiddio yn "ofynion penodol" o dan gymal 59(b) o'r Cytundeb.
[14] Erthygl 49(1) o'r Siarter.
[15] Paragraff 6 o Atodlen 3 yn y Cytundeb, ac Atodlen 12 i Ddeddf Darlledu 2003.
[16] Paragraff 9 o Atodlen 3 i'r Cytundeb.

1.11 Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu cydymffurfio ag un o amodau rheoleiddiol y Drwydded, a'i fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC roi sylwadau ar y mater, efallai y bydd Ofcom yn:

1.11.1 rhoi cyfarwyddyd i'r BBC gymryd camau y mae Ofcom yn ystyried y byddant yn unioni'r methiant i gydymffurfio (neu dderbyn ymrwymiadau i wneud hynny gan y BBC), a sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'u gofynion yn briodol yn y dyfodol;

1.11.2 cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn datgan y bydd yn rhaid talu cosb ariannol benodedig o hyd at £250,000 i Ofcom o fewn cyfnod penodol[17].

1.12 Mae Ofcom wedi egluro sut bydd yn defnyddio ei bwerau gorfodi yn y Fframwaith Gweithredu[18].

1.13 Mae'n ofynnol bod y BBC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) sut mae'r BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith; darpariaeth y BBC ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys sut cyflawnodd y BBC ei gylch gwaith creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau; sut sicrhawyd bod allbwn a gwasanaethau'r BBC ar gael i'r cyhoedd; a'r gwariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre[19].

1.14 Ar ôl derbyn adroddiad blynyddol y BBC, mae'n rhaid i Ofcom hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol, sy'n nodi sut mae Ofcom wedi cyflawni ei brif swyddogaethau yn unol â'r Siarter ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys (ymysg pethau eraill) asesiad Ofcom o gydymffurfiad y BBC ag Amodau Rheoleiddiol y Drwydded[20]. Mae gan Ofcom y pŵer i fynnu bod y BBC yn darparu gwybodaeth at ddibenion Ofcom er mwyn cyflawni ei swyddogaethau[21].

## Cenhadaeth y BBC

1.15 Cenhadaeth y BBC[22] yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd ac unigryw o safon uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

## Dibenion Cyhoeddus y BBC

1.16 Dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC[23]:

1.16.1 **Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas:** dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan

---

[17] Erthygl 49(2) i (5) o'r Siarter ac adran 198(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Ofcom yn pasio unrhyw gosbau ariannol sy'n cael eu talu ymlaen at Drysorlys EM.
[18] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/enforcement-bbc-agreement-compliance
[19] Erthygl 37 o'r Siarter.
[20] Erthygl 50 o'r Siarter.
[21] Erthygl 47 o'r Siarter.
[22] Erthygl 5 o'r Siarter.
[23] Erthygl 6 o'r Siarter.

ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus.

1.16.2 **Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:** dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffordd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli a'u herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.

1.16.3 **Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau:** dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safonau yn y DU ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini a ddarperir mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad yw pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau newydd a chynnwys arloesol.

1.16.4 **Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny:** dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddidwyll fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a'r safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu cynnyrch a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymunedol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.

1.16.5 **Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd:** dylai'r BBC sicrhau darpariaeth newyddion o safon uchel i gynulleidfaoedd rhyngwladol, sy'n seiliedig ar werthoedd Prydeinig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch. Dylai ei wasanaethau rhyngwladol roi'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun y byd, gan wella dealltwriaeth pobl o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau lle bo hynny'n briodol. Dylai sicrhau ei fod yn cynhyrchu allbwn a gwasanaethau y bydd pobl yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd[24].

1.17 Mae'r Drwydded hon yn amlinellu Amodau Rheoleiddiol er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd o genres allweddol ac allbwn o safon uchel ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, yn ogystal â sicrhau bod cyfran sylweddol o'r rhaglenni gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig.

[24] Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service yn bennaf. Ni fydd y drwydded weithredu newydd yn cynnwys BBC World Service; cyfrifoldeb y BBC yw pennu trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

1.18 Mae'r gofynion rydym wedi'u pennu ar gyfer y BBC wedi'u llunio er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Cadwyd yr Amodau Rheoleiddiol a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth sy'n cyflawni hyn, a chawsant eu cryfhau lle bo hynny'n briodol. Ni chadwyd targedau eraill yr Ymddiriedolaeth. Lle y bo'n briodol, mae amodau newydd wedi cael eu pennu er mwyn sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni.

1.19 Efallai y bydd angen newid y gofynion hyn dros amser, yn ddibynnol ar y ddarpariaeth barhaus ac ymrwymiad y BBC yn y meysydd hyn, neu i adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ariannol ar y BBC. Hefyd, efallai y bydd yr amodau hyn yn cael eu diwygio os bydd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, er enghraifft, yn unol â pherfformiad y BBC.

1.20 Mae gweddill y Drwydded hon (gan gynnwys yr Amodau Rheoleiddiol) wedi'i drefnu yn ôl Diben Cyhoeddus. Pennir yr Amodau Rheoleiddiol yn Atodlen 1 i'r Drwydded.

1.21 Mae'r Amodau Rheoleiddiol naill ai'n ymwneud â gwasanaethau unigol neu, lle y bo'n briodol, yn pennu ymrwymiadau rhwng gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi y gallai nifer o Amodau Rheoleiddiol fod yn berthnasol i fwy nag un Diben Cyhoeddus. Er enghraifft, mae nifer o'r Amodau Rheoleiddiol ledled y drwydded yn cyfrannu at sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu. Mae crynodeb o'r Amodau Rheoleiddiol penodol wedi'u trefnu yn ôl gwasanaeth ar gael yn Atodlen 3 (at bwrpas cyfeirio yn unig).

## Diben (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

1.22 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:

- 1.22.1 darparu lefel sylweddol o raglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol ledled ei ystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd ac i wasanaethu pob cynulleidfa gyda'r allbwn hwn;
- 1.22.2 ceisio cynnal ei ddarpariaeth o themâu rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ei raglenni ffeithiol, newyddion a materion cyfoes, er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth helaeth o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach;
- 1.22.3 parhau i ddarparu allbwn ffeithiol, newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth ddibynadwy y mae modd ymddiried ynddo, a hynny yn unol â'r safonau golygyddol uchaf;
- 1.22.4 sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunydd trydydd parti ar-lein, yn enwedig yng nghyswllt ei straeon newyddion, er mwyn darparu cyfoeth o wybodaeth i'w ddefnyddwyr a chefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC ystyried y dolenni mae'n eu cynnig yn ofalus.

1.23 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

## Diben (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

1.24 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:

1.24.1 parhau i ddarparu amrywiaeth helaeth o gynnwys ledled ei wasanaethau, a fydd yn rhoi cyfleoedd i'r holl gynulleidfaoedd ddysgu. Rydym yn disgwyl i'r BBC gynhyrchu cynnwys dysgu anffurfiol, gan gynnwys rhaglenni sy'n mynd i'r afael â phynciau fel celf, cerddoriaeth, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Dylai'r cynnwys hwn fod ar gael yn helaeth, a dylai'r BBC ymdrechu i gyrraedd a gwasanaethu'r cynulleidfaoedd mwyaf eang posib â'r cynnwys hwn drwy ei brif sianeli teledu, ei brif orsafoedd radio a'i brif wefannau;

1.24.2 fel rhan o'i ddyletswydd i annog pobl i ddysgu am bynciau newydd a gwahanol, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau er mwyn archwilio a defnyddio'r adnoddau mae'n ei gynnig ledled ei wasanaethau, a'i wasanaethau ar-lein yn enwedig;

1.24.3 sicrhau ei fod yn gwasanaethu plant o bob oed, gan gynnwys plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, a'i fod yn cynhyrchu cynnwys difyr ac ysgogol ar gyfer dysgu anffurfiol sydd ar gael ar ffurfiau a gwasanaethau y mae plant yn eu defnyddio; a

1.24.4 chwarae rôl bwysig o ran addysg a dysgu yn y Deyrnas Unedig drwy feithrin partneriaethau â sefydliadau ym meysydd addysg, diwylliant a chwaraeon. Dylai'r BBC rannu ei arbenigedd a'i adnoddau, gan gynnwys ei archif, lle bo hynny'n briodol, fel rhan o'r partneriaethau hyn â sefydliadau arbenigol, er budd cynulleidfaoedd y DU.

1.25 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

## Diben (3): Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

1.26 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn diffinio "gwasanaethau ac allbwn unigryw", gan gyfeirio at greadigrwydd a safon uchel. Mae Erthygl 63 o'r Siarter, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Cytundeb, yn diffinio gwasanaethau ac allbwn unigryw fel a ganlyn:

*"allbwn a gwasanaethau, a ystyrir gyda'i gilydd, sy'n wahanol iawn i ddarparwyr eraill tebyg ledled pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU, yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol; ac ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, o ran-*

*(a) y gymysgedd o wahanol allbwn a gwasanaethau;*

*(b) ansawdd yr allbwn;*

*(c) swm y cynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU;*

*(d) lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg; a'r*

*(e) cynulleidfaoedd amrywiol mae'n eu gwasanaethu."*

1.27 Mae Ofcom o'r farn bod ei ddiffiniad o wasanaethau ac allbwn unigryw, ar lefel uchel, yn mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf y dylai'r BBC eu hystyried wrth fodloni ei Ddiben Cyhoeddus yng nghyswllt dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau. Mae Ofcom yn ystyried hynny mewn perthynas â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw.

1.27.1 mewn perthynas â'r gymysgedd o genres gwahanol, dylai'r BBC sicrhau bod amrywiaeth o raglenni yn cael eu darparu ledled ei wasanaethau teledu. Dylai hefyd sicrhau helaethrwydd ac amlygrwydd y genres hynny sydd mewn perygl neu'n dirywio ledled darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ar ei wasanaethau radio, dylai'r BBC sicrhau bod ei bortffolio o orsafoedd yn cynnig yr amrywiaeth ehangaf bosib o allbwn cerddorol, a bod yr amrywiaeth o allbwn cerddorol ar ei wasanaethau radio poblogaidd yn fwy eang na darparwyr tebyg;

1.27.2 mewn perthynas ag ansawdd yr allbwn, dylai'r BBC sicrhau ansawdd uchel ledled ei allbwn, gan ystyried y cynnwys, ansawdd cynhyrchu'r cynnwys, yn ogystal â sgil broffesiynol a gonestrwydd golygyddol y cynhyrchiad hwnnw;

1.27.3 mewn perthynas â swm yr allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, dylai'r BBC sicrhau bod cyfran helaeth o'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar ei wasanaethau teledu yn Gynyrchiadau Gwreiddiol, yn enwedig yn ystod Cyfnodau Gwylio Brig. Dylai'r BBC hefyd sicrhau bod nifer priodol o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cael eu dangos ledled ei wasanaethau teledu, gan sicrhau eu bod yn llenwi cyfran helaeth o'r Cyfnod Gwylio Brig. Dylai'r BBC gyfrannu at economïau creadigol y Deyrnas Unedig drwy fuddsoddi'n gyson mewn cynnwys gwreiddiol;

1.27.4 mewn perthynas â lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg, dylai'r BBC barhau i gymryd risgiau yng nghyswllt yr allbwn mae'n ei gomisiynu, yr amrywiaeth o sefydliadau mae'n comisiynu ganddynt a cheisio lleihau nifer y cyfresi sydd wedi rhedeg ers tro byd dros amser. Dylai hefyd gomisiynu allbwn gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau a syniadau'n cael eu hadlewyrchu ar draws ei wasanaethau;

1.27.5 mewn perthynas â'r gynulleidfa mae'n ei gwasanaethu, dylai'r BBC sicrhau fod ei allbwn a'i wasanaethau gwasanaethu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y Deyrnas Unedig, drwy ei wasanaethau genres cymysg poblogaidd a'i wasanaethau un diben a mwy arbenigol.

1.28 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

1.29 Oherwydd natur gymhleth a chysylltiedig yr agweddau gwahanol ar fod yn unigryw, mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC ddatgan yn glir yn ei gynllun blynyddol a'i gylch gwaith creadigol sut bydd y sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu, a sut bydd pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cyfrannu at gyflawni hyn.

Diben (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

1.30 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:

## Gwledydd a Rhanbarthau

1.31 Mewn perthynas â gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC wneud y canlynol:

1.31.1 cynrychioli a phortreadu pob carfan o gynulleidfa'r gwledydd a'r rhanbarthau yn gywir ac yn ddilys ledled ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres[25];

1.31.2 dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ledled rhanbarthau Lloegr a meithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig;

1.31.3 sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gwasanaethu'r bobl sy'n byw yn yr ardal lle darperir y gwasanaeth ac yn creu cynnwys sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys amrywiaeth helaeth o genres, gan gynnwys drama, comedi, chwaraeon, darlledu yn yr ieithoedd brodorol; a

1.31.4 chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.

## Amrywiaeth

1.32 Mewn perthynas ag amrywiaeth, dylai'r BBC wneud y canlynol:

1.32.1 gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig a chreu cynnwys sy'n berthnasol iddynt ac o ddiddordeb iddynt;

1.32.2 adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn briodol yn ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;

1.32.3 cynrychioli a phortreadu'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir ac yn ddilys; a

[25] Ystyr "cynrychiolaeth" i ba raddau y mae pobl a nodweddion yn ymddangos, ac ystyr "portread" yw'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n ddilys drwy ymchwil ymysg defnyddwyr.

1.32.4 helpu i gyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.

1.33 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

## Atodlen 1

# Amodau rheoleiddiol

2.1 Mae Ofcom wedi pennu'r Amodau Rheoleiddiol canlynol y mae'n ei hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn:

2.1.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus;

2.1.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

2.1.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

2.2 Mae Ofcom wedi pennu'r Amodau Rheoleiddiol ar ôl ystyried yr hyn mae'n ei ddisgwyl gan y BBC yn unol â'r Drwydded hon. Bydd yr Amodau Rheoleiddiol hyn yn cael eu diwygio gan Ofcom yn rheolaidd os bydd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny gan gynnwys diwygio yn unol â pherfformiad y BBC.

2.3 Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol wrth ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU drwy gydol Cyfnod y Drwydded, gan gychwyn ar [commencement date].

## Diben (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

2.4 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.4.1 ei fod yn dangos rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd;

2.4.2 bod o leiaf 1,520 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion yn ystod pob Blwyddyn Galendr, a rhaid i o leiaf 280 o'r oriau hynny fod yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni dros nos sy'n gyd-ddarllediadau o'r rhaglenni ar sianel BBC News, ac

2.4.3 bod o leiaf 45 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch materion cyfoes yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig bob Blwyddyn Galendr.

2.5 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 450 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch materion cyfoes yn ystod bob Blwyddyn Galendr, a rhaid i o leiaf 106 o'r oriau hynny fod yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig.

2.6 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.6.1 ei fod yn dangos newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd; a

2.6.2 bod o leiaf 85 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod pob Blwyddyn Galendr.

2.7 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod **sianel BBC News** yn cynnwys

2.7.1 mwy o newyddion rhyngwladol; a

2.7.2 mwy o safbwyntiau a newyddion a lleol/rhanbarthol

na phrif sianeli newyddion parhaus eraill y Deyrnas Unedig.

2.8 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.8.1 bod o leiaf awr yn cael ei neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd bob diwrnod gwaith, a bod hynny'n cynnwys dau fwletin estynedig, ac mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn ystod y Cyfnod Gwrando Brig; a

2.8.2 bod bwletinau rheolaidd yn cael eu darparu yn ystod y Dydd ar benwythnosau.

2.9 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.9.1 bod o leiaf awr yn cael ei neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd bob diwrnod gwaith, a bod hynny'n cynnwys dau fwletin estynedig; a

2.9.2 bod bwletinau rheolaidd yn cael eu darparu yn ystod y Dydd ar benwythnosau.

2.10 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.10.1 bod o leiaf 17 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch materion cyfoes bob wythnos, a rhaid i o leiaf 3 awr o'r rheini fod yn ystod y Cyfnod Gwrando Brig; a

2.10.2 bod bwletinau newyddion rheolaidd yn cael eu darparu.

2.11 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd.

2.12 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.12.1 bod o leiaf 2,750 o oriau bob Blwyddyn yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a

2.12.2 bod adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol yn cael eu darparu pan mae'r Senedd yn eistedd.

2.13 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.13.1 bod o leiaf 75% o'r allbwn bob Blwyddyn yn cynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

2.13.2 bod darpariaeth helaeth ynghylch etholiadau lleol a chyffredinol, ac etholiadau yn siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal â darpariaeth reolaidd ynghylch gwleidyddiaeth Ewrop a gwleidyddiaeth ryngwladol.

2.14 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 6 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion bob wythnos.

2.15 Mewn perthynas â **BBC Asian Network**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 24 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes bob wythnos.

2.16 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunydd gan drydydd partïon.

## Diben (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

2.17 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 45 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau bob Blwyddyn, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.

2.18 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 115 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni crefyddol bob Blwyddyn, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni crefyddol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.

2.19 Mewn perthynas â **BBC Two**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau bob Blwyddyn, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.

2.20 Mewn perthynas â **BBC Four**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau newydd bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni newydd cerddoriaeth a'r celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu caffael.

2.21 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu cynnwys mewn amrywiaeth o genres sy'n cefnogi dysgu plant cyn-ysgol bob Blwyddyn.

2.22 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:

2.22.1 bod o leiaf 1,000 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni drama (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael); a

2.22.2 bod o leiaf 675 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ffeithiol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni ffeithiol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.

2.23 Mewn perthynas â **BBC Alba**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 5 awr bob wythnos yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u hanelu at bobl sy'n dysgu Gaeleg. At ddibenion y gofyniad hwn ynghylch "rhaglenni gwreiddiol":

2.23.1 nid ydynt yn cynnwys newyddion;

2.23.2 maent yn cynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu dangos ar Wasanaethau Cyhoeddus eraill yn y DU.

2.24 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni dogfen a ddarlledir am y tro cyntaf" yn cynnwys rhaglenni dogfen sydd wedi'u darlledu ar 1Xtra.

2.25 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni dogfen" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.

2.26 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:

2.26.1 bod o leiaf 100 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni celfyddydol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni celfyddydol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu;

2.26.2 bod o leiaf 130 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni dogfen. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni dogfen" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu; a

2.26.3 rhaid i o leiaf 170 o oriau gael eu neilltuo ar gyfer allbwn crefyddol, a rhaid i'r allbwn hwnnw gwmpasu ystod eang o grefyddau. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "allbwn crefyddol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.

2.27 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:

2.27.1 bod o leiaf 45% o allbwn cerddoriaeth yr orsaf yn cynnwys cerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig neu gerddoriaeth fyw;

2.27.2 bod o leiaf 440 o berfformiadau byw neu sydd wedi'u recordio'n arbennig yn cael eu darlledu;

2.27.3 bod o leiaf 25 o weithiau cerddorol newydd yn cael eu comisiynu (heb gynnwys ailddarllediadau); a

2.27.4 bod o leiaf 35 o raglenni dogfen newydd am bynciau celfyddydol a diwylliannol yn cael eu darlledu (heb gynnwys ailddarllediadau).

2.28 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:

2.28.1 bod o leiaf 375 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni dogfen gwreiddiol sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o wahanol bynciau (heb gynnwys ailddarllediadau); a

2.28.2 bod o leiaf 200 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni crefyddol gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau).

2.29 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 10 awr bob Blwyddyn ar gyfartaledd yn cael ei neilltuo ar gyfer traethodau, rhaglenni dogfen ac eitemau llafar bob wythnos.

2.30 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc â'u haddysg ffurfiol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

## Diben (3): Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

### Cynyrchiadau gwreiddiol

2.31 Bydd y BBC yn sicrhau bob Blwyddyn Galendr bod yr amser a neilltuir ar gyfer darlledu Cynyrchiadau Gwreiddiol gan bob Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU yn cael ei bennu yn unol â cholofn I isod:

2.31.1 nid yw'n llai na'r canran o gyfanswm yr amser a neilltuir i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth a nodir yng ngholofn II, ac

2.31.2 nid yw'n llai na'r canran o gyfanswm yr amser a neilltuir i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig, a nodir yng ngholofn III.

| **Colofn I** | **Colofn II** | **Colofn III** |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni** | **Cynyrchiadau Gwreiddiol yn ystod Oriau Gwylio brif fel canran o oriau'r holl raglenni yn ystod Oriau Gwylio Brig** |
| BBC One | 75% | 90% |
| BBC Two | 75% | 90% |
| BBC Four | 75% | 60% |
| BBC Parliament | 90% | - |
| Sianel BBC News | 90% | - |
| CBBC | 72% | - |
| CBeebies | 70% | - |
| BBC Alba | 75% | - |

### Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU

2.32 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 4,000 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwylio Brig.

2.33 Mewn perthynas â **BBC Two**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 2,200 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwylio Brig.

2.34 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 400 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwylio Brig.

2.35 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 100 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwylio Brig.

## Bod yn unigryw

2.36 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.36.1 bod o leiaf 45% o’r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn gan artistiaid o'r Deyrnas Unedig.

2.36.2 bod o leiaf 50% o’r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn yn Gerddoriaeth Newydd, a rhaid i gyfran sylweddol o'r rhain fod gan artistiaid newydd ac sy’n datblygu o'r Deyrnas Unedig.

2.36.3 bod o leiaf 60 awr o Gerddoriaeth Arbenigol yn cael ei darlledu bob wythnos; a

2.36.4 bod o leiaf 175 o sesiynau newydd, sydd wedi’u recordio yn ystod y mis ymlaen llaw, yn cael eu darlledu bob Blwyddyn (heb gynnwys ailddarllediadau); a

2.36.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwrando Brig.

2.37 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.37.1 bod o leiaf 40% o’r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn gan artistiaid o'r Deyrnas Unedig.

2.37.2 bod o leiaf 20% o’r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn yn Gerddoriaeth Newydd, a rhaid i gyfran sylweddol o'r rhain fod gan artistiaid newydd ac sy’n datblygu o'r Deyrnas Unedig.

2.37.3 bod o leiaf 260 awr o gerddoriaeth fyw yn cael ei darlledu bob Blwyddyn;

2.37.4 bod o leiaf 1100 awr o raglenni cerddoriaeth arbennig yn cael eu darlledu bob Blwyddyn; a

2.37.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwrando Brig.

2.38 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn bod sylwebaeth, newyddion a rhaglenni eraill yn cael eu cynnig mewn perthynas ag o leiaf 20 o chwaraeon.

## Diben (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: rhaglenni rhwydwaith

### Y Deyrnas Unedig (y tu allan i ardal yr M25)

2.39 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.39.1 bod o leiaf 50% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25;

2.39.2 bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25 (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni; a

2.39.3 bod o leiaf 50% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

### Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)

2.40 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.40.1 bod o leiaf 34% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn Lloegr (y tu allan i ardal yr M25); a

2.40.2 bod o leiaf 34% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn Lloegr (y tu allan i ardal yr M25).

### Yr Alban

2.41 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.41.1 bod o leiaf 8% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn yr Alban; a

2.41.2 bod o leiaf 8% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban.

### Cymru

2.42 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.42.1 bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru; a

2.42.2 bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru.

### Gogledd Iwerddon

2.43 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.43.1 bod o leiaf 3% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon; a

2.43.2 bod o leiaf 3% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon.

### Canolfannau cynhyrchu

2.44 Mae'r gwahanol ganolfannau cynhyrchu y mae'r Gwariant y cyfeirir ato yn amodau 2.39.3, 2.40.2, 2.41.2, 2.42.2 a 2.43.2 yn cyfeirio atynt, yn cynrychioli ystod eang o ganolfannau cynhyrchu o'r fath.

### Arweiniad

2.45 Wrth gydymffurfio ag amodau 2.39 i 2.44, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.

## Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: gwasanaethau radio

2.46 Mewn perthynas â Gwasanaethau **Radio Cyhoeddus y DU**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. Mae'r "Gwariant Perthnasol" yn cynnwys Gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf, ond nid yw'n cynnwys Gwariant ar allbwn newyddion neu chwaraeon. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf" yn golygu rhaglenni a gomisiynir gan neu ar gyfer Gwasanaeth Radio Cyhoeddus yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu darlledu ar wasanaeth radio yn y Deyrnas Unedig o'r blaen.

2.47 Er mwyn diwallu'r gofyniad yn amod 2.46, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau radio canlynol:

2.47.1 Radio 1;

2.47.2 Radio 2;

2.47.3 Radio 3;

2.47.4 Radio 4;

2.47.5 BBC Radio 5 live.

2.48 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael eu wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae'r "Gwariant perthnasol" yn cynnwys Gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf a'r ffordd y dyrannwyd

cymorthdaliadau'r cerddorfeydd canolog, ond nid yw'n cynnwys Gwariant ar allbwn newyddion a chwaraeon.

## Rhaglennu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

2.49 Mewn perthynas â BBC a BBC Two gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol yn ystod pob Blwyddyn Galendr:

2.49.1 bod o leiaf 6,300 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

2.49.2 Bod y rhaglenni rheini yn cynnwys ystod priodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol)'

2.49.3 bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni a fydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

2.49.4 bod o leiaf 700 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys darlledu rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig; a

2.49.5 bod o leiaf 335 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl y Cyfnod Gwylio Brig.

2.50 Yn ystod bob Blwyddyn Galendr, bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 2.49, yn cynnwys darlledu o leiaf 4,300 o oriau o newyddion sydd o ddiddordeb rhanbarthol yn achlysurol drwy gydol y dydd ar **BBC One**, a rhaid i o leiaf 2,200 o'r rheini fod yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig.

2.51 Wrth gydymffurfio ag amodau 2.49 a 2.50, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.

2.52 Mewn perthynas â **BBC Parliament**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch gweithgareddau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru bob Blwyddyn.

2.53 Mewn perthynas â phob **Gwasanaeth Radio Cyhoeddus y DU** a bennir yn amod 2.54, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys llafar ar y gwasanaeth hwnnw yn diwallu'r amodau canlynol bob Blwyddyn:

2.53.1 o leiaf 60% ar gyfartaledd yn ystod Oriau Craidd; a

2.53.2 100% yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast.

2.54 Mae'r Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU canlynol wedi'u nodi at ddibenion amod 2.53:

2.54.1 pob gwasanaeth BBC Local Radio;

2.54.2 BBC Radio Scotland;

2.54.3 BBC Radio nan Gàidheal;

2.54.4 BBC Radio Wales;

2.54.5 BBC Radio Cymru;

2.54.6 BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle.

2.55 Yn amod 2.53 ystyr “Oriau Craidd” yw rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ystyr “Oriau Brig Amser Brecwast” yw rhwng 07:00 a 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## Lloegr

2.56 Mewn perthynas â phob gorsaf **BBC Local Radio**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.56.1 bod newyddion a gwybodaeth perthnasol i'r ardaloedd a’r cymunedau mae’n eu gwasanaethu yn benodol yn cael eu darparu yn rheolaidd drwy gydol y dydd; a

2.56.2 bod cynnwys arall perthnasol i'r ardaloedd a’r cymunedau mae’n eu gwasanaethu yn benodol yn cael ei ddarparu.

2.57 Mewn perthynas â **BBC Local Radio**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 95 awr bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sydd wedi’u creu’n lleol ar bob gorsaf BBC Local Radio. At ddibenion y gofyniad hwn, mae “rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd cyfagos ac yn cael eu darlledu rhwng 06:00 a 19:00.

2.58 Bydd y gofyniad yn amod 2.57 yn berthnasol i'r gorsafoedd radio BBC Local Radio canlynol, a’r amser a nodir yn y maes cyfatebol yw’r gofyniad lleiaf o ran rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol.

| Gorsaf BBC Local Radio | Gofyniad lleiaf ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol |
|---|---|
| BBC Radio Guernsey | 80 awr |
| BBC Radio Jersey | 80 awr |
| BBC Radio Somerset | 70 awr |

## Yr Alban

2.59 Mewn perthynas â **BBC One Scotland**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:

2.59.1 bod o leiaf 290 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

2.59.2 bod o leiaf 155 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael, ac nid yw’n cynnwys rhaglenni newyddion neu raglenni materion cyfoes.

2.60 Mewn perthynas â **BBC One Scotland** a **BBC Two Scotland** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban yn ei raglenni.

2.61 Mewn perthynas â **BBC Two Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 200 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn, gan gynnwys allbwn Gaeleg. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion":

2.61.1 yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael;

2.61.2 nid ydynt yn cynnwys newyddion;

2.61.3 nid ydynt yn cynnwys materion cyfoes.

2.62 Mewn perthynas â BBC Alba, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnwys rhaglenni newyddion byw gyda'r nos bob diwrnod gwaith, gan gynnwys yn ystod Oriau Gwylio Brig, yn ogystal ag adolygiad estynedig o'r newyddion ar benwythnosau.

2.63 Mewn perthynas â **BBC Radio Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.63.1 bod o leiaf 50 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a

2.63.2 bod nifer o wasanaethau eithrio rhanbarthol yn cael eu darparu bob diwrnod gwaith, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, yn ogystal â rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos; a

2.63.3 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol yn cael eu darparu.

2.64 Mewn perthynas â **BBC Radio nan Gàidheal**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.64.1 ei fod yn cynnwys newyddion yn gyson yn ystod y dydd, yn enwedig rhwng 07:00 a 08:30, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 07:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul; a

2.64.2 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol yn cael eu darparu.

2.65 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.65.1 bod cynnwys Gaeleg yn cael ei ddarparu; a

2.65.2 bod darpariaeth chwaraeon penodol i'r Alban yn cael ei darparu.

## Cymru

2.66 Mewn perthynas â **BBC One Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn Galendr:

2.66.1 bod o leiaf 275 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

2.66.2 bod o leiaf 65 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael, ac nid yw’n cynnwys rhaglenni newyddion neu raglenni materion cyfoes.

2.67 Mewn perthynas â **BBC One Wales** a **BBC Two Wales** gyda’i gilydd, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru yn ei raglenni.

2.68 Mewn perthynas â **BBC Two Wales**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion”:

2.68.1 yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael;

2.68.2 nid ydynt yn cynnwys newyddion;

2.68.3 nid ydynt yn cynnwys materion cyfoes.

2.69 Mewn perthynas â **BBC Radio Wales**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.69.1 bod o leiaf 32 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys rhai sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael); a

2.69.2 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.

2.70 Mewn perthynas â **BBC Radio Cymru**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.70.1 bod o leiaf 23 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a

2.70.2 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.

2.71 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau:

2.71.1 bod cynnwys yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg; a

2.71.2 bod darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru yn cael ei darparu.

## Gogledd Iwerddon

2.72 Mewn perthynas â **BBC Northern Ireland**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bob Blwyddyn Galendr:

2.72.1 bod o leiaf 310 o oriau bob Blwyddyn yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

2.72.2 bod o leiaf 90 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu

hailddarlledu a'u caffael, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni newyddion neu raglenni materion cyfoes.

2.73 Mewn perthynas â **BBC One Northern Ireland** a **BBC Two Northern Ireland** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon yn ei raglenni.

2.74 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 60 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion":

2.74.1 yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael;

2.74.2 nid ydynt yn cynnwys newyddion;

2.74.3 nid ydynt yn cynnwys materion cyfoes.

2.75 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster.

2.76 Mewn perthynas â **BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.76.1 bod o leiaf 35 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Ulster; a

2.76.2 bod o leiaf 20 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle;

2.76.3 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Ogledd Iwerddon yn benodol yn cael eu darparu; a

2.76.4 bod o leiaf 240 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster, bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.

2.77 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.77.1 bod cynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster yn cael ei ddarparu; a

2.77.2 bod darpariaeth chwaraeon penodol i Ogledd Iwerddon yn cael ei darparu.

## Amrywiaeth

2.78 Mae'n rhaid i'r BBC roi adroddiad blynyddol ar sut mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn gyffredinol wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y Flwyddyn flaenorol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ddangos sut mae wedi gwneud y canlynol:

2.78.1 ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;

2.78.2 gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig;

2.78.3 cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir;

2.78.4 rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig; a

2.78.5 chodi ymwybyddiaeth am wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen y cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.

2.79 Mae'n rhaid i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y Flwyddyn flaenorol o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ym mhob cwr o'r DU ledled Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ac adrodd ar hynny bob blwyddyn gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre. Rhaid i hyn gynnwys boddhad cynulleidfaoedd yn y meysydd canlynol:

2.79.1 sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol;

2.79.2 sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a

2.79.3 sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.

2.80 Os bydd mesuriad y BBC o foddhad cynulleidfaoedd yn unol ag amod 2.79 yn awgrymu bod carfan benodol o'r gynulleidfa yn anfodlon â pherfformiad y BBC yn y meysydd hyn, mae'n rhaid i'r BBC:

2.80.1 yn unol ag amod 2.79, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn honno'r camau y bydd rhaid eu cymryd i geisio gwella boddhad cynulleidfaoedd ymysg y carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa; ac,

2.80.2 yn unol ag amod 2.79, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn ganlynol y camau a gymerwyd a'u heffaith ar foddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa.

2.81 Mae'n rhaid i'r BBC bennu cod ymarfer wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, sy'n nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd pan fydd yn comisiynu cynnwys ledled pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys yn cynrychioli'n gywir ac yn rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig, a chydymffurfio â'r cod hwnnw.

## Atodlen 2

# Diffiniadau a dehongliadau

3.1 Yn y Drwydded hon, oni bai fod y cyd-destun yn nodi'n wahanol:

Ystyr **"y Cytundeb"** yw'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC' (y "Cytundeb"), a wnaed ar 7 Rhagfyr 2016;

Ystyr **"y BBC"** yw'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;

**"BBC One Northern Ireland"** yw fersiwn Gogledd Iwerddon o BBC One;

**"BBC One Scotland"** yw fersiwn yr Alban o BBC One;

**"BBC One Wales"** yw fersiwn Cymru o BBC One;

**"BBC Two Northern Ireland"** yw fersiwn Gogledd Iwerddon o BBC Two;

**"BBC Two Scotland"** yw'r fersiwn yr Alban o BBC Two;

**"BBC Two Wales"** yw'r fersiwn Cymru o BBC Two;

Nodir ystyr **"Cyfnod Brig Amser Brecwast"** yn amod 2.55;

Ystyr **"Blwyddyn Galendr"** yw cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ionawr, â'r cyntaf o'r rheini'n cychwyn ar 1 Ionawr 2018;

Ystyr **"y Siarter"** yw'r Siarter Frenhinol ynghylch parhad y BBC ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027;

Nodir ystyr **"Oriau Craidd"** yn amod 2.55;

Ystyr **"yn ystod y Dydd"** yw:
(a) rhwng 06:00 a 18:00 mewn perthynas â Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU;
(b) rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08:00 a 14:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU;

Ystyr **"Gwariant"** mewn cysylltiad â rhaglen yw:
(a) gwariant sy'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad mewn rhaglen neu wariant y mae modd ei briodoli i'r gwaith o wneud rhaglen; neu
(b) gwariant ar gomisiynu neu gaffael rhaglen, neu gaffael hawl i gynnwys rhaglen mewn gwasanaeth neu ei darlledu;

Ystyr **"Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU"** yw rhaglenni sy'n
(a) cael eu comisiynu gan Wasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU neu ar ei gyfer; ac
(b) sydd heb gael eu dangos ar y teledu yn y Deyrnas Unedig o'r blaen;

Ystyr **“Cyfnod y Drwydded”** yw'r cyfnod rhwng [commencement date] a 31 Rhagfyr 2027;

Ystyr **“Ardal yr M25”** yw’r ardal y tu allan i ffin y Drafforrdd sy’n Amgylchynu Llundain (yr M25);

Ystyr **“Rhaglenni Rhwydwaith”** yw rhaglenni sydd wedi’u creu er mwyn eu gwylio ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi’u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o wasanaeth sy’n berthnasol i un o’r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr;

Ystyr **“Cerddoriaeth Newydd”** yw:
(a) cerddoriaeth sydd erioed wedi'i rhyddhau o’r blaen, naill ai yn ffisegol neu i’w llwytho i lawr;
(b) cerddoriaeth sydd wedi'i rhyddhau yn ystod y mis diwethaf, naill ai yn ffisegol neu i’w llwytho i lawr, neu’r ddau. Mewn achosion lle mae'r dyddiad rhyddhau ffisegol yn wahanol i ddyddiad rhyddhau'r lawrlwythiad, y dyddiad cynharaf fydd yn cael ei ystyried fel y dyddiad rhyddhau;

Ystyr **“Ofcom”** yw’r Swyddfa Gyfathrebiadau a sefydlwyd yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2002;

Mae ystyr **“Cynyrchiadau Gwreiddiol”,** mewn perthynas â Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU gyda'i gilydd, yr un fath â'r ystyr a nodir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 neu unrhyw orchymyn dilynol o dan adran 278(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 mewn perthynas â sianel gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig;

Ystyr **“Cyfnod Gwrando Brig”** yw rhwng 06:00 a 10:00, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 07:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul;

Ystyr **“Cyfnod Gwylio Brig”** yw rhwng 18:00 a 22:30;

Ystyr **“Dibenion Cyhoeddus”** yw dibenion cyhoeddus y BBC fel a nodir yn Erthygl 6 y Siarter;

Ystyr **“Amodau Rheoleiddiol”** yw’r amodau rheoleiddiol yn Atodlen 1 y Drwydded, a gaiff eu diwygio gan Ofcom o bryd i'w gilydd;

Ystyr “Cerddoriaeth Arbenigol” yw cerddoriaeth sy’n apelio at grŵp penodol o wrandawyr ac yn canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres;

Ystyr **“Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU”** yw’r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni radio, ac mae **“Gwasanaethau Radio Cyhoeddus”** yn golygu unrhyw un o’r gwasanaethau hynny;

Ystyr **“Gwasanaethau Cyhoeddus y DU”** yw'r gwasanaethau sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, a bydd yn cael ei addasu gan y BBC o bryd i'w gilydd;

Ystyr **“Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU”** yw’r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni teledu, ac mae **“Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus”** yn golygu unrhyw un o’r gwasanaethau hynny;

Ystyr **"Blwyddyn"** yw cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar 1 Ebrill, a'r cyntaf o'r rheini’n cychwyn ar 1 Ebrill 2018.

3.2 Mae ystyr y termau yn yr Atodlen hon yr un fath yn y Siarter a’r Cytundeb, oni bai fod y cyd-destun yn nodi fel arall.

3.3 Mae geiriau gwrywaidd yn cyfeirio at y benywaidd ac fel arall.

3.4 Mae geiriau unigol yn cyfeirio at y lluosog.

3.5 Dylid darllen cyfeiriadau at ddeddfwriaeth benodol gan gymryd yn ganiataol y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio neu ei hailddeddfu o bryd i’w gilydd.

3.6 Gwneud pethau’n haws yw bwriad y penawdau ac nid ydynt yn rhan o'r Amodau Rheoleiddiol.

## Atodlen 3

# Crynodeb o'r amodau rheoleiddiol

4.1 Canllaw i gyfeirio ato yn unig yw'r Atodlen hon.

4.2 Ceir yma grynodeb o'r Amodau Rheoleiddiol sy'n berthnasol i bob gwasanaeth. Nodir testun awdurdodol cyflawn pob Amod Rheoleiddiol perthnasol yn Atodlen 1.

| Enw'r gwasanaeth | Crynodeb o'r Amodau Rheoleiddiol | Rhif yr Amod Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| BBC One | Rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd | 2.4.1 |
| BBC One | Cwota ar gyfer newyddion (1,520 awr) a newyddion Oriau Brig (280 awr) mewn Blwyddyn Galendr | 2.4.2 |
| BBC One | Cwota ar gyfer materion cyfoes Oriau Brig mewn Blwyddyn Galendr (45 awr) | 2.4.3 |
| BBC One | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau Oriau Brig (45 awr) | 2.17 |
| BBC One | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni (75%), ac fel canran o oriau'r holl raglenni Oriau Brig (90%) mewn Blwyddyn Galendr | 2.31 |
| BBC One | Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (4,000 awr). | 2.32 |
| BBC One a BBC Two | Cwota ar gyfer rhaglenni materion cyfoes mewn Blwyddyn Galendr (450 awr, a 106 o'r oriau hynny yn ystod Oriau Brig) | 2.5 |
| BBC One a BBC Two | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni crefyddol (115 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod Oriau Brig) | 2.18 |
| BBC One a BBC Two | Cwota ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol mewn Blwyddyn Galendr (6,300 awr), gan gynnwys<br>• amrywiaeth addas o raglenni;<br>• o leiaf 95% o'r rhaglenni wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth perthnasol;<br>• 700 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod Oriau Brig;<br>• 335 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn syth cyn neu ar ôl y Cyfnod Brig;<br>• mae'n ofyniad penodol bod BBC One yn darlledu o leiaf 4,300 o oriau o newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn achlysurol drwy gydol y dydd, ac mae'n rhaid i 2,200 o'r rheini fod yn ystod Oriau Brig. | 2.49; 2.50 |

| | | |
|---|---|---|
| BBC Two | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddyd (175 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod Oriau Brig) | 2.19 |
| BBC Two | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau’r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (75%) ac fel canran o oriau’r holl raglenni Oriau Brig (90%) mewn Blwyddyn Galendr | 2.31 |
| BBC Two | Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy’n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (2,200 awr). | 2.33 |
| BBC One Scotland | Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (290 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (155 awr) mewn Blwyddyn Galendr | 2.59 |
| BBC One Scotland a BBC Two Scotland | Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy’n adlewyrchu diwylliant yr Alban | 2.60 |
| BBC Two Scotland | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys allbwn Gaeleg (200 awr) | 2.61 |
| BBC One Wales | Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (275 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (65 awr) mewn Blwyddyn Galendr | 2.66 |
| BBC One Wales a BBC Two Wales | Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy’n adlewyrchu diwylliant Cymru | 2.67 |
| BBC Two Wales | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (175 awr) | 2.68 |
| BBC One Northern Ireland | Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (310 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (90 awr) mewn Blwyddyn Galendr | 2.72 |
| BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland | Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy’n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon | 2.73 |
| BBC Two Northern Ireland | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (60 awr) | 2.74 |
| BBC Two Northern Ireland | Rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster | 2.75 |
| BBC Four | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddyd newydd (175 awr) | 2.20 |
| BBC Four | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau’r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (75%) ac fel canran o oriau’r holl raglenni Oriau Brig (60%) mewn Blwyddyn Galendr | 2.31 |
| CBeebies | Darparu cynnwys mewn amrywiaeth o genres sy’n cefnogi dysgu plant cyn-ysgol bob blwyddyn | 2.21 |
| CBeebies | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau’r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (70%) | 2.31 |
| CBeebies | Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy’n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau | 2.35 |

| | | |
|---|---|---|
| | Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (100 awr). | |
| CBBC | Rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd | 2.6.1 |
| CBBC | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni newyddion (85 awr) | 2.6.2 |
| CBBC | Cwota blynyddol ar gyfer drama (1,000 awr) | 2.22.1 |
| CBBC | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni ffeithiol (675 awr) | 2.22.2 |
| CBBC | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (72%) | 2.31 |
| CBBC | Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (400 awr). | 2.34 |
| Sianel BBC News | Mwy o newyddion rhyngwladol a mwy o safbwyntiau a newyddion a lleol/rhanbarthol na sianeli newyddion parhaus eraill yn y DU | 2.7 |
| Sianel BBC News | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (90%) | 2.31 |
| BBC Parliament | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (90%) | 2.31 |
| BBC Parliament | Cwota blynyddol ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt gweithgareddau Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon (300 awr) | 2.52 |
| BBC Alba | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni gwreiddiol ar gyfer dysgwyr Gaeleg (5 awr) | 2.23 |
| BBC Alba | Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (75%) | 2.31 |
| BBC Alba | Rhaglenni newyddion byw gyda'r nos bob diwrnod gwaith, gan gynnwys yn ystod Oriau Brig, ac adolygiad newyddion estynedig ar benwythnosau | 2.62 |
| Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith) | Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn Galendr (50% o'r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 50% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25) | 2.39; 2.44 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith) | Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yn Lloegr bob Blwyddyn Galendr (34% o’r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 34% o wariant y BBC ar raglenni rwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu) | 2.40; 2.44 |
| Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith) | Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yn yr Alban bob Blwyddyn Galendr (8% o’r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 8% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban) | 2.41; 2.44 |
| Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith) | Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yng Nghymru bob Blwyddyn Galendr (5% o’r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 5% o wariant y BBC ar raglenni rwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru) | 2.42; 2.44 |
| Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith) | Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yng Ngogledd Iwerddon bob Blwyddyn Galendr (3% o’r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 3% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon) | 2.43; 2.44 |
| Radio 1 | Cwota dyddiol ar gyfer rhaglenni newyddion (1 awr), gan gynnwys dau fwletin estynedig, ac un o’r rheini yn ystod Oriau Brig | 2.8.1 |
| Radio 1 | Rhaglenni newyddion rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau | 2.8.2 |
| Radio 1 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen sy’n cael eu darlledu am y tro cyntaf (40 awr) | 2.24 |
| Radio 1 | Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid y DU yn ystod y Dydd (45%) | 2.36.1 |
| Radio 1 | Cwota blynyddol ar gyfer Cerddoriaeth Newydd yn ystod y Dydd (50%), a chyfran sylweddol o’r rhain gan artistiaid newydd ac sy’n datblygu o'r DU. | 2.36.2 |
| Radio 1 | Cwota wythnosol ar gyfer Cerddoriaeth Arbenigol (60 awr) | 2.36.3 |
| Radio 1 | Cwota blynyddol ar gyfer sesiynau newydd (175) | 2.36.4 |
| Radio 1 | Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth (sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae) o gymharu â darparwyr tebyg yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd | 2.36.5 |
| 1Xtra | Cwota ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd ar ddiwrnodau gwaith (1 awr, gan gynnwys dau fwletin estynedig) | 2.9.1 |
| 1Xtra | Bwletinau rheolaidd yn ystod y Dydd ar benwythnosau. | 2.9.2 |

| | | |
|---|---|---|
| 1Xtra | Cwota blynyddol ar gyfer nifer rhaglenni dogfen (40) | 2.25 |
| Radio 2 | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (17 awr, a 3 o’r rheini yn ystod Oriau Brig) | 2.10.1 |
| Radio 2 | Bwletinau newyddion rheolaidd | 2.10.2 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni celfyddydol (100 awr) | 2.26.1 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen (130 awr) | 2.26.2 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer allbwn crefyddol i ystod eang o grefyddau (170 awr) | 2.26.3 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid o’r DU yn ystod y Dydd (40%) | 2.37.1 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer Cerddoriaeth Newydd yn ystod y Dydd (20%), a chyfran sylweddol o’r rhain gan artistiaid newydd ac sy’n datblygu o'r DU. | 2.37.2 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth fyw (260 awr) | 2.37.3 |
| Radio 2 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth arbennig (1,100 awr) | 2.37.4 |
| Radio 2 | Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth (sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae) o gymharu â darparwyr tebyg yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd | 2.37.5 |
| Radio 3 | Newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd | 2.11 |
| Radio 3 | Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth wedi'i recordio’n arbennig (45%) | 2.27.1 |
| Radio 3 | Cwota blynyddol ar gyfer perfformiadau wedi'u recordio’n arbennig (45%) | 2.27.2 |
| Radio 3 | Cwota blynyddol ar gyfer comisiynu gweithiau cerddorol newydd (25) | 2.27.3 |
| Radio 3 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen newydd am bynciau celfyddydol a diwylliannol (35) | 2.27.4 |
| Radio 3 | Cwota blynyddol ar gyfer gwariant perthnasol y tu allan i ardal yr M25 (40%) | 2.48 |
| Radio 4 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (2,750 awr) | 2.12.1 |
| Radio 4 | Darparu adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol pan mae’r Senedd yn eistedd | 2.12.2 |
| Radio 4 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen gwreiddiol sy’n ymdrin ag amrywiaeth helaeth o bynciau (375 awr) | 2.28.1 |

| | | |
|---|---|---|
| Radio 4 | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni crefyddol gwreiddiol (200 awr) | 2.28.2 |
| BBC Radio 5 live | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (75% o'r allbwn) | 2.13.1 |
| BBC Radio 5 live | Darpariaeth helaeth ynghylch etholiadau (lleol, cyffredinol, a'r siambrau datganoledig) yn ogystal â darpariaeth reolaidd ynghylch gwleidyddiaeth Ewrop a gwleidyddiaeth ryngwladol. | 2.13.2 |
| BBC Radio 5 live | Cwota blynyddol ar gyfer sylwebaeth fyw, newyddion a rhaglenni eraill mewn perthynas ag 20 o chwaraeon | 2.38 |
| BBC 6 Music | Cwota wythnosol ar gyfer newyddion (6 awr) | 2.14 |
| BBC 6 Music | Cwota wythnosol ar gyfer traethodau, rhaglenni dogfen ac eitemau llafar (10 awr ar gyfartaledd bob Blwyddyn) | 2.29 |
| BBC Asian Network | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (24 awr) | 2.15 |
| BBC Radio Scotland | Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) | 2.53 |
| BBC Radio Scotland | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (50 awr) | 2.63.1 |
| BBC Radio Scotland | nifer o wasanaethau eithrio rhanbarthol bob diwrnod gwaith, yn ogystal â rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos | 2.63.2 |
| BBC Radio Scotland | Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol | 2.63.3 |
| BBC Radio nan Gàidheal | Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) | 2.53 |
| BBC Radio nan Gàidheal | Newyddion cyson drwy gydol y dydd | 2.64.1 |
| BBC Radio nan Gàidheal | Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol | 2.64.2 |
| BBC Radio Wales | Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) | 2.53; 2.60; 2.61 |
| BBC Radio Wales | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (32 awr) | 2.69.1 |
| BBC Radio Wales | Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol | 2.69.2 |
| BBC Radio Cymru | Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) | 2.53 |
| BBC Radio Cymru | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (23 awr) | 2.70.1 |
| BBC Radio Cymru | Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol | 2.70.2 |

| | | |
|---|---|---|
| BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle | Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) | 2.53 |
| BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle | Cwota wythnosol ar gyfer newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) (35 awr ar gyfer BBC Radio Ulster, 20 awr ar gyfer Radio Foyle) | 2.76.1 |
| BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle | Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Ogledd Iwerddon yn benodol | 2.76.3 |
| BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle | Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster (240 awr) | 2.76.4 |
| BBC Local Radio (pob gorsaf yn Lloegr) | Newyddion a gwybodaeth yn achlysurol drwy gydol y dydd, sy'n berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau yn benodol, a chynnwys arall perthnasol | 2.56 |
| BBC Local Radio (pob gorsaf yn Lloegr) | Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol (95 awr), ac eithrio BBC Radio Guernsey; BBC Radio Jersey; a BBC Radio Somerset | 2.57; 2.58 |
| Pob gwasanaeth BBC Local Radio | Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast) | 2.53 |
| Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU | Cwota blynyddol ar gyfer gwariant y tu allan i ardal yr M25 (33.3% o'r gwariant perthnasol, gyda rhywfaint o wariant mewn perthynas â gwasanaethau Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4, a BBC Radio 5 live | 2.46; 2.47 |
| BBC Ar-lein | Digon o ddolenni i ddeunydd gan drydydd partïon | 2.16 |
| BBC Ar-lein | Cynnwys sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc â'u haddysg ffurfiol ym mhob rhan o'r DU | 2.30 |
| BBC Ar-lein | Cynnwys Gaeleg | 2.65.1 |
| BBC Ar-lein | Darpariaeth chwaraeon penodol i'r Alban | 2.65.2 |
| BBC Ar-lein | Cynnwys Cymraeg | 2.71.1 |
| BBC Ar-lein | Darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru | 2.71.2 |
| BBC Ar-lein | Cynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster | 2.77.1 |
| BBC Ar-lein | Darpariaeth chwaraeon penodol i Ogledd Iwerddon | 2.77.2 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (Amrywiaeth) | Adroddiad blynyddol yn dangos sut mae'r BBC wedi ystyried, gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer ei gynulleidfa, yn ogystal â chynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddidwyll, a chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen ledled y DU. | 2.78 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (Amrywiaeth) | Cydymffurfio â chod ymddygiad yng nghyswllt comisiynu, er mwyn sicrhau bod cynnwys yn cynrychioli'n gywir a rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y DU | 2.81 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (Amrywiaeth) | Mesur boddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol, ac adrodd ar hynny; yn ogystal â nodi camau i'w cymryd er mwyn gwella boddhad cynulleidfaoedd, yn enwedig ymysg carfannau o'r gynulleidfa sy'n anfodlon | 2.79; 2.80 |

**Atodlen 4**

# Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

5.1 Mae'r Drwydded yn berthnasol i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Dyma'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, a bydd yn cael ei addasu gan y BBC o bryd i'w gilydd. Gallai newid Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol olygu y byddai angen diwygio'r rhestr.

5.2 Mae'r Cytundeb yn nodi'r rhestr gychwynnol o Wasanaethau Cyhoeddus y DU[26]. Rydyn ni wedi atgynhyrchu'r rhestr honno yma i'w gwneud yn haws cyfeirio ati:

(1) Gwasanaethau teledu wedi'u llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig:

(a) BBC One: sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac amrywiadau ar gyfer rhanbarthau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd;
(b) BBC Two: sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar raglenni ffeithiol, drama a chomedi arloesol;
(c) BBC Four: sianel sy'n darparu cynnwys deallusol a diwylliannol amgen, sy'n wahanol i raglenni prif ffrwd ar sianeli eraill y BBC;
(d) CBeebies: sianel sy'n darparu rhaglenni i addysgu a difyrru plant ifanc iawn;
(e) CBBC: sianel ag amserlen gymysg ar gyfer plant o dan 13 oed;
(f) BBC News: sianel newyddion dreigl sy'n darparu newyddion, dadansoddiadau a rhaglenni rhyngwladol eraill;
(g) BBC Parliament: sianel sydd â darpariaeth fyw helaeth o ddadleuon a phwyllgorau Seneddau a Chynulliadau'r Deyrnas Unedig, a darpariaeth wleidyddol arall; a
(h) BBC Red Button: cynnwys digidol rhyngweithiol sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth arall. Mae'n sefyll ar ei draed ei hun ac yn cefnogi gwasanaethau llinol eraill, yn ogystal â rhoi mynediad i gynnwys y BBC nad yw'n llinol, a modd o chwilio drwyddo.

(2) Gwasanaethau radio wedi'u llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig:

(a) Radio 1: gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd yn bennaf, sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd ifanc. Mae wedi ymrwymo i gynnwys y gerddoriaeth newydd orau, yn ogystal ag allbwn llafar sylweddol;
(b) 1Xtra: gwasanaeth cerddoriaeth gyfoes gan artistiaid du, sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth newydd a cherddoriaeth fyw, ynghyd â darparu allbwn llafar sylweddol ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc;
(c) Radio 2: gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth helaeth o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol yn ogystal ag allbwn llafar gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol;

[26] Paragraff 1(2) a pharagraff 2 o Ran 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb.

(d) Radio 3: gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, yn ogystal â cherddoriaeth a chelfyddyd eraill ac allbwn llafar, gyda ffocws penodol ar gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig;
(e) Radio 4: gwasanaeth llafar sy'n cynnwys newyddion, materion cyfoes, rhaglenni ffeithiol, drama, darlleniadau a chomedi;
(f) BBC 4 Extra: gwasanaeth llafar sy'n darparu comedi, drama a darlleniadau, o archif y BBC yn bennaf;
(g) BBC Radio 5 live: darpariaeth newyddion a chwaraeon 24 awr;
(h) BBC Radio 5 live sports extra: estyniad rhan-amser i BBC Radio 5 live sydd â darpariaeth ychwanegol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon;
(i) BBC 6 Music: gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd y tu allan i'r brif ffrwd bresennol, ynghyd ag allbwn llafar sy'n darparu cyd-destun ar gyfer y gerddoriaeth honno; a
(j) BBC Asian Network: gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth helaeth o newyddion, cerddoriaeth a rhaglenni ffeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd yn y DU.

(3) Gwasanaethau teledu a radio ar gyfer cynulleidfaoedd mewn rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig:

(a) BBC Radio Scotland: gwasanaeth radio sydd ar gael ledled yr Alban, a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth;
(b) BBC Radio nan Gàidheal: gwasanaeth radio yn yr Alban sy'n cynnwys rhaglenni Gaeleg;
(c) BBC Radio Wales: gwasanaeth radio sydd ar gael ledled Cymru, a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth;
(d) BBC Radio Cymru: gwasanaeth radio ledled Cymru sy'n cynnwys rhaglenni Cymraeg;
(e) BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle: gwasanaeth radio a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth, sydd ar gael ar BBC Radio Ulster ledled Gogledd Iwerddon, ac eithrio'r adegau penodol pan mae BBC Radio Foyle yn cael ei ddarparu yn ardaloedd gorllewinol Gogledd Iwerddon;
(f) BBC Local Radio: nifer o wasanaethau radio lleol ar gyfer cynulleidfaoedd mewn gwahanol rannau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu cymysgedd o allbwn llafar a cherddoriaeth; a
(g) BBC Alba: sianel deledu genres cymysg ar gyfer siaradwyr Gaeleg a'r rheini sydd â diddordeb mewn iaith a diwylliant Gaeleg, a ddarperir gan y BBC mewn partneriaeth ag MG Alba.

(4) Gwasanaethau ar-lein wedi'u llunio ar gyfer defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig, BBC Ar-lein: gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, sy'n gwasanaethu holl Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer oedolion iau.

## Atodiad 5

# Fframwaith Gweithredu: gweithdrefnau arfaethedig ac ystyriaethau ar gyfer gosod a diwygio'r drwydded weithredu

### Cyflwyniad

A5.1 O dan y Siarter Brenhinol[77] a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y '**Cytundeb**') a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016, mae'n rhaid i Ofcom osod trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (**"Trwydded"**)[78]. Rhaid i Ofcom osod Trwydded yn unol â'r darpariaethau mae Ofcom wedi'u gosod yn Fframwaith Gweithredu'r BBC.[79]

A5.2 Mae'r ddogfen hon yn rhan o Fframwaith Gweithredu'r BBC. Mae'n nodi sut bydd Ofcom yn gosod ac yn gweinyddu'r drefn trwydded weithredu a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid eu dilyn. Yn benodol, mae'n datgan: (A) y gweithdrefnau ar gyfer gosod a diwygio amodau rheoleiddio mewn Trwydded; a (b) yr ystyriaethau y bydd Ofcom yn eu pwyso a'u mesur wrth ddiwygio'r amodau hynny.[80]

### Gweithdrefn

A5.3 Mae'r Cytundeb yn nodi ei bod yn rhaid i Ofcom, cyn pennu Trwydded, ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol.[81] Ar ben hynny, mae'r Cytundeb yn darparu bod y gofyniad bod Ofcom yn ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un mae Ofcom yn credu sy'n briodol hefyd yn berthnasol pan fydd Ofcom yn diwygio Trwydded[82]. Mae'r gofynion gweithdrefnol a nodir isod yn berthnasol i osod neu i ddiwygio amod rheoleiddio mewn Trwydded. Caiff Ofcom ddiwygio unrhyw ran o Drwydded nad yw'n amod rheoleiddio (hynny yw, nad yw'n rhoi rhwymedigaethau mae modd eu gorfodi ar y BBC) heb ymgynghori.

A5.4 Pan fydd Ofcom yn ymgynghori ar osod amod rheoleiddio mewn Trwydded neu ddiwygio amod rheoleiddio mewn Trwydded, bydd Ofcom yn gwneud hynny gan

---

[77] Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "**Siarter**"), sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

[78] Erthygl 46(3) o'r Siarter.

[79] Erthygl 46(3) o'r Siarter.

[80] Cymal 15(2) y Cytundeb.

[81] Cymal 13(5) y Cytundeb

[82] Cymal 80 y Cytundeb.

gydymffurfio â'i Egwyddorion Ymgynghori.[83] Yn benodol, bydd Ofcom yn glir ynghylch pwy mae'n ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.5 Pan fydd Ofcom yn ystyried gosod Trwydded newydd, gan gynnwys disodli Trwydded bresennol, yn gyffredinol byddai Ofcom yn disgwyl y byddai'n briodol ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei gynigion. Pan fydd Ofcom yn ystyried diwygio Trwydded, bydd Ofcom yn ymgynghori â'r BBC a bydd Ofcom yn penderfynu fesul achos pa bobl eraill (os o gwbl) y bydd hi'n briodol ymgynghori â nhw, gan ystyried natur ac arwyddocâd y diwygiad arfaethedig. Er enghraifft, efallai na fydd cynnig i wneud mân ddiwygiad yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus.

A5.6 Bydd Ofcom yn caniatáu cyfnod rhesymol i bobl gyflwyno ymatebion i ymgynghoriad. Bydd Ofcom yn asesu'r hyn sy'n rhesymol yng ngoleuni natur ac arwyddocâd y cynnig, gan ystyried ei Egwyddorion Ymgynghori.

A5.7 Os bydd Ofcom yn credu bod angen rhagor o wybodaeth arno cyn penderfynu a ddylid gosod Trwydded neu ddiwygio Trwydded, boed hynny gan y BBC neu gan berson arall, bydd Ofcom yn gofyn am yr wybodaeth honno cyn gwneud penderfyniad. Mae'r Siarter yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb.[84]

A5.8 Bydd Ofcom yn gosod Trwydded, neu'n diwygio Trwydded, ar ôl ystyried yr holl safbwyntiau a gwybodaeth a ddarparwyd. Bydd Ofcom yn anfon copi caled o'r Drwydded neu'r diwygiad i'r BBC ac yn cyhoeddi'r Drwydded neu'r diwygiad ar wefan Ofcom.

A5.9 Caiff Ofcom gynnig gosod Trwydded newydd neu ddiwygio Trwydded bresennol ar ei liwt ei hun (er enghraifft, os bydd Ofcom yn credu ei bod hi'n briodol gwneud hynny yng ngoleuni tystiolaeth am berfformiad y BBC). Mae hi'n bosibl y daw cynnig o'r fath gan y BBC hefyd. Pan fydd y BBC yn dymuno gwneud cais o'r fath i Ofcom, dylai wneud hynny'n ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros ei gais.

A5.10 Gallai newidiadau posibl i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU fod yn destun asesiadau gan y BBC a/neu Ofcom o dan gymalau 7 i 12 y Cytundeb. Pan fydd newid yn debyg o alw am ddiwygio'r Drwydded, bydd Ofcom yn ystyried yr amseru priodol ar gyfer asesu'r newid yn y Drwydded er mwyn gallu osgoi prosesau ar wahân pan fydd hynny'n bosibl.

## Ystyriaethau

A5.11 Wrth osod neu ddiwygio Trwydded, bydd Ofcom yn defnyddio'r fframwaith cyfreithiol perthnasol.

A5.12 Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol sydd wedi cael ei chreu gan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

---

[83] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/how-will-ofcom-consult

[84] Erthygl 47 o'r Siarter.

A5.13 Daw pŵer Ofcom i reoleiddio’r BBC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, sy’n datgan er mwyn rheoleiddio’r BBC y bydd gennym bwerau a dyletswyddau a roddir i ni gan neu dan y Siarter a’r Cytundeb[85]. Mae ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â’r BBC[86]. Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom yn cynnwys ei brif ddyletswydd sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny’n briodol[87].

A5.14 Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom hefyd yn cynnwys gofyniad ar Ofcom i ystyried, ym mhob achos, yr egwyddorion sy’n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi’u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu ac unrhyw egwyddorion eraill sy’n ymddangos i Ofcom fel rhai sy’n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau[88].

A5.15 Mae Erthygl 45(2) o’r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom ystyried, wrth gynnal ei swyddogaethau, y canlynol fel sy’n ymddangos i ni sy’n berthnasol yn yr amgylchiadau:

5.15.1 amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus;

5.15.2 pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig;

5.15.3 y gofyniad i’r BBC gydymffurfio â’i ddyletswydd o dan y Siarter, gan gynnwys ei ddyletswyddau cyffredinol.

A5.16 Mae Erthygl 46 o’r Siarter (Prif swyddogaethau Ofcom) yn datgan ei bod yn rhaid i Ofcom osod trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU, yn unol â’r Fframwaith Gweithredu, y mae’n rhaid iddo gynnwys amodau rheoleiddio rydyn ni’n credu sy’n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

5.16.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus;

5.16.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

5.16.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu’n dda.[89]

A5.17 Y darpariaethau yn y Cytundeb sydd fwyaf perthnasol i osod neu i ddiwygio Trwydded ydy cymal 13 ac Atodlen 2.

---

[85] Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[86] Erthygl 45(1) o’r Siarter.

[87] Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[88] Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[89] Erthygl 46(3) o’r Siarter

A5.18 Mae cymal 13 o'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gosod ac yn cyhoeddi un drwydded weithredu neu fwy ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Mae'n darparu:

5.18.1 ei bod yn rhaid i Ofcom osod amodau rheoleiddio a nodir yn Atodlen 2 (amodau rheoleiddio'r drwydded weithredu), ac yn unol â'r Atodlen honno;

5.18.2 bod Ofcom yn cael rhoi amodau rheoleiddio pellach y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus;

5.18.3 bod Ofcom yn cael rhoi amodau rheoleiddio pellach y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.

A5.19 Mae Atodlen 2 i'r Cytundeb yn mynnu bod Ofcom yn gwneud y canlynol:

5.19.1 rhoi sylw penodol, wrth osod yr amodau rheoleiddio, i'r angen i'r BBC sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu;

5.19.2 wrth osod yr amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu gyntaf, ceisio cynyddu'r gofynion presennol sydd ar y BBC drwyddo draw i sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu. Mae'r Cytundeb yn nodi meysydd penodol y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried yn arbennig wrth gyflawni'r gofyniad hwn (paragraff 2(2) i (5) o Atodlen 2);

5.19.3 gosod ar y BBC y gofynion mae Ofcom yn credu sy'n briodol i sicrhau bod digon o ddolenni at ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon o BBC Ar-lein;

5.19.4 gosod gofynion a bennwyd ar gyfer Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU sy'n ymwneud â darparu rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes;

5.19.5 gosod, mewn perthynas â phob un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ofynion penodol sy'n ymwneud â darlledu cynyrchiadau gwreiddiol;

5.19.6 gosod gofynion penodol ar gyfer Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU mewn perthynas â rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau; a

5.19.7 gosod gofynion penodol ar gyfer Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU mewn perthynas â gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

A5.20 Wrth osod amod rheoleiddio newydd mewn Trwydded, neu wrth ddiwygio amod rheoleiddio presennol, bydd Ofcom yn ystyried natur orfodadwy amodau trwydded weithredu a pha mor ddymunol ydy sicrhau bod amodau rheoleiddio yn glir ac y bydd modd eu gorfodi os na fydd cydymffurfiad.

**Atodiad 6**

# Trosolwg o'r fframwaith arfaethedig ar gyer asesu perfformiad y BBC

A6.1 Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg darluniadol o'r mathau o fetrigau rydyn ni'n bwriadu eu casglu drwy ein fframwaith mesur perfformiad. Rydyn ni wedi darparu trosolwg o'r fath ar gyfer pob un o'r Dibenion Cyhoeddus 1, 2, 3 a 4. Er mwyn bod yn glir rydyn ni wedi darparu dadansoddiad pellach:

6.1.1 Diben Cyhoeddus 2 rhwng (a) dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau a (b) dysgu ar gyfer pobl o bob oed;

6.1.2 Diben Cyhoeddus 4 rhwng (a) y gwledydd a'r rhanbarthau a (b) amrywiaeth.

6.1.3 er bod y mesurau perfformiad ar gyfer Diben 3 wedi cael eu strwythuro gan ystyried y diffiniad o "wasanaethau ac allbynnau unigryw" fel sy'n cael ei fanylu yn Atodlen 2 adran 1 (2) o'r Cytundeb.

## Diben 1: Newyddion a gwybodaeth ddiduedd

A6.2 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad rydyn ni'n cynnig canolbwyntio, pan fo'n bosibl, ar y genres canlynol: newyddion cenedlaethol a rhyngwladol; materion cyfoes, ffeithiol difrifol (ond dim adloniant ffeithiol).

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Teledu/Radio/Ar-lein | Amlder y dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| **Argaeledd** | **Oriau allbwn gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf** ee oriau o newyddion cenedlaethol a ddarlledir ar BBC One | Faint o gynnwys newyddion sy'n cael ei ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. | Pob un | Blynyddol |
| | **Gwariant ar allbwn gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf** ee gwariant ar allbwn newyddion ar draws y BBC | Mae procsi ar gyfer ansawdd; lefelau buddsoddi uchel yn brocsi ar gyfer cynnwys o ansawdd uchel. | Pob un | Blynyddol |
| | **Dadansoddiad o'r cynnwys** *ee yr ystod a'r math o straeon sy'n cael sylw* | Asesiad astudiaeth achos annibynnol o dôn a chynnwys (ee themâu gwledydd neu ryngwladol) allbwn newyddion y BBC. | Pob un | Ad hoc |
| **Defnyddio** | **Cyrhaeddiad** *ee cyfran poblogaeth y DU sydd wedi cael newyddion gan y BBC mewn wythnos gyfartalog* | I ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn cael gafael ar newyddion gan y BBC | Pob un | Blynyddol |
| | **Munudau a ddefnyddiwyd** *ee yr amser a gafodd ei dreulio yn gwylio materion cyfoes ar wasanaethau teledu'r BBC* | Procsi ar gyfer lefelau ymgysylltu â chynnwys newyddion y BBC ymysg cynulleidfaoedd gwahanol. | Pob un | Blynyddol |
| **Effaith** | **Ymchwil meintiol ymysg cynulleidfaoedd** *ee gofynnwyd i gynulleidfaoedd sgorio i ba raddau mae newyddion y BBC yn eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw* | I ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn fodlon â darpariaeth newyddion y BBC ar draws amrywiaeth o ddimensiynau. | Pob un | Blynyddol |
| | **Ymchwil ansoddol ymysg cynulleidfaoedd** *ee gofynnwyd i gynulleidfaoedd am ddarpariaeth y BBC o gynnwys newyddion* | Mae'n rhoi safbwyntiau wedi'u hystyried ynghylch perfformiad y BBC ar draws amrywiaeth o gynulleidfaoedd. | Pob un | Ad hoc |
| **Ffactorau cyd-destunol** | **Gwybodaeth ansoddol gan y BBC ac eraill** | Gwybodaeth ansoddol berthnasol gan y BBC neu o fannau eraill sy'n helpu i ddisgrifio sut mae'r BBC wedi cyflawni'r diben hwn. | Pob un | Ad hoc |

## Diben 2: Dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau

A6.3 Yn y maes hwn o'n fframwaith perfformiad rydyn ni'n cynnig trafod addysg ffurfiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaeth *Bitesize* y BBC. Byddwn hefyd yn adrodd ar raglenni teledu'r BBC ar gyfer ysgolion.

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Teledu/Radio/Ar-lein | Amlder y dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| Argaeledd | **Oriau cyfanswm yr allbwn**<br>*ee oriau o gynnwys ysgolion a ddarlledir ar BBC Two* | Faint o gynnwys i ysgolion sydd ar gael i blant ac i bobl ifanc yn eu harddegau. | Teledu | Blynyddol |
| | **Gwariant ar gyfanswm yr allbwn**<br>*ee gwariant ar gynnwys addysg ffurfiol* | Procsi ar gyfer lefel flaenoriaeth cynnwys addysg ffurfiol ar draws y BBC. | Teledu ac Ar-lein | Blynyddol |
| Defnyddio | **Cyrhaeddiad ymysg plant oed ysgol a phobl ifanc yn eu harddegau**<br>*ee cyfran y plant oed ysgol uwchradd sydd wedi defnyddio Bitesize* | Y graddau y mae plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn cael gafael ar gynnwys addysg y BBC, gyda ffocws penodol ar Bitesize. | Teledu ac Ar-lein | Blynyddol |
| | **Munudau a ddefnyddiwyd ymysg plant oed ysgol a phobl ifanc yn eu harddegau**<br>*ee yr amser sy'n cael ei dreulio ar Bitesize* | Procsi ar gyfer ymgysylltu â chynnwys addysgol y BBC ymysg plant a phobl ifanc yn eu harddegau. | Teledu ac Ar-lein | Blynyddol |
| Effaith | **Ymchwil meintiol ymysg cynulleidfaoedd**<br>*ee gofynnwyd i rieni sgorio i ba raddau mae gwasanaethau'r BBC yn helpu eu plant gyda'r hyn maent yn ei ddysgu yn yr ysgol/coleg* | Barn rheini/gofalwyr a phobl ifanc yn eu harddegau ynghylch effaith y BBC mewn perthynas ag addysg ffurfiol. | Ar-lein | Blynyddol |
| | **Safbwyntiau arbenigol ansoddol**<br>*ee gofynnwyd i athrawon ysgolion uwchradd i ba raddau maen nhw'n fodlon â'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar Bitesize* | Mae'n rhoi safbwyntiau gweithwyr proffesiynol ynghylch ansawdd, darparu ac effaith darpariaeth addysg ffurfiol y BBC ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau. | Ar-lein | Ad hoc |

## Diben 2: Dysgu ar gyfer pobl o bob oed

A6.4 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad rydyn ni'n cynnig canolbwyntio ar genres sydd fwyaf tebygol o gynnwys cynnwys addysgol anffurfiol gan gynnwys celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, busnes a rhaglenni dogfennau ffeithiol arbenigol eraill, cynnwys i blant.

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Teledu/Radio/Ar-lein | Amlder y dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| Argaeledd | **Oriau o gyfanswm yr allbwn a rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ôl genre**<br>*ee oriau'r cynnwys celfyddydau a cherddoriaeth a ddarlledir ar draws y BBC* | Faint o gynnwys addysg anffurfiol sydd ar gael i gynulleidfaoedd. | Pob un | Blynyddol |
| | **Gwariant ar gyfanswm yr allbwn a rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ôl genre**<br>*ee gwariant ar gyfanswm y cynnwys i blant* | Ansawdd allbwn addysgol anffurfiol a gynhyrchwyd gan y BBC, gyda lefelau uchel o fuddsoddiad yn brocsi am gynnwys addysgol anffurfiol o ansawdd uchel. | Pob un | Blynyddol |
| Defnyddio | **Cyrhaeddiad**<br>*ee cyfran y boblogaeth a wyliodd raglenni dogfen y BBC mewn wythnos gyfartalog yn ystod yr oriau brig* | I ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn cael gafael ar gynnwys addysg anffurfiol y BBC. | Pob un | Blynyddol |
| | **Munudau a ddefnyddiwyd**<br>*ee yr amser cyfartalog a dreulir ar iPlayer kids* | Procsi ar gyfer i ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn ymgysylltu â chynnwys addysg anffurfiol y BBC. | Pob un | Blynyddol |
| Effaith | **Ymchwil meintiol ymysg cynulleidfaoedd**<br>*ee gofynnwyd i gynulleidfaoedd sut mae'r BBC yn eu helpu i ddysgu am wyddoniaeth, hanes a'r celfyddydau* | Safbwyntiau cynulleidfaoedd ar effaith y BBC ar eu bywydau mewn perthynas ag addysg anffurfiol. | Pob un | Blynyddol |
| | **Ymchwil ansoddol ymysg cynulleidfaoedd**<br>*ee gofynnwyd i gynulleidfaoedd am i ba raddau maen nhw'n teimlo bod y BBC yn ehangu eu gorwelion; a darparu cynnwys sy'n ymgysylltu ac yn ysbrydoli* | Safbwyntiau cynulleidfaoedd ar effaith y BBC ar eu bywydau mewn perthynas ag addysg anffurfiol. | Pob un | Ad hoc |
| Ffactorau cyd-destunol | **Adborth gan y BBC a'i bartneriaid mewn addysg, chwaraeon a diwylliant**<br>*ee faint yr oedd nifer yr ymwelwyr â sefydliad penodol wedi cynyddu o ganlyniad i bartneriaeth gyda'r BBC* | Gwybodaeth a fyddai'n cyfrannu at asesu effeithiolrwydd partneriaethau'r BBC. | Pob un | Blynyddol |

## Diben 3: Allbwn a gwasanaethau creadigol, unigryw ac o ansawdd uchel

A6.5 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad rydyn ni'n cynnig trafod pob genre ar draws teledu, radio ac ar-lein. Pan fo'n ymarferol, byddwn yn cymharu'r BBC â darparwyr cynnwys eraill.

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Teledu/r adio ar-lein | Amlder y dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| Argaeledd | **Oriau'r rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ôl genre** *ee cymysgedd genres ar BBC One yn ystod yr oriau brig* | Cymysgedd y genres gwahanol ar draws gwasanaethau teledu a radio'r BBC; lefelau'r rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf o'u cymharu ag ailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu. | Pob un | Blynyddol |
| | **Gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu** *ee gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan y BBC* | Ansawdd allbwn y BBC, gyda gwariant uchel ar gynnwys newydd yn y DU yn brocsi ar gyfer cynnwys o ansawdd uchel. | Pob un | Blynyddol |
| | **Dadansoddi rhestri chwarae** *ee cyfran y traciau newydd sy'n cael eu chwarae ar Radio 1* | Dangosydd natur unigryw | Radio | Blynyddol |
| | **Dadansoddiad o gomisiynu** *ee mathau ac ystod o gwmnïau cynhyrchu a ddefnyddir gan y BBC* | Dangosydd o arloesedd y BBC wrth gomisiynu cynnwys. | Pob un | Blynyddol |
| | **Dadansoddiad o'r cynnwys** *ee nifer y fformatau newydd* | Dull gweithredu astudiaeth achos i fesur dangosyddion natur unigryw | Pob un | Ad hoc |
| | **Ystod cyfresi newydd** *ee cyfran yr allbwn BBC One sy'n gyfresi newydd yn hytrach na chyfresi sy'n dychwelyd* | Dangosydd o'r risg mae'r BBC yn ei gymryd, ei arloesedd a'i uchelgais greadigol wrth gynhyrchu cynnwys newydd. | Pob un | Blynyddol |
| Defnyddio | **Cyrhaeddiad** *ee cyfran poblogaeth y DU a oedd wedi defnyddio gwasanaethau ar-lein y BBC* | I ba raddau y mae grwpiau cynulleidfa gwahanol yn cael gafael ar yr amrywiaeth o wasanaethau ac allbynnau'r BBC, gan gynnwys cynnwys newydd yn y DU yn hytrach nag ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu | Pob un | Blynyddol |
| | **Munudau defnyddio** *ee yr amser a gafodd ei dreulio yn gwrando ar wasanaethau radio'r BBC* | Procsi ar gyfer ymgysylltiad cynulleidfaoedd gwahanol gyda'r cymysgedd o genres ac allbynnau ar draws wasanaethau'r BBC. | Pob un | Blynyddol |
| Effaith | **Ymchwil meintiol ymysg cynulleidfaoedd** *ee gofynnwyd i gynulleidfaoedd a ydy arddull y rhaglenni'n wahanol i'r hyn y byddent yn disgwyl ei weld mewn llefydd eraill* | I ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn fodlon ar ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y BBC a pha mor unigryw maen nhw'n meddwl ydy hynny wrth gymharu â darparwyr eraill. | Pob un | Blynyddol |
| | **Ymchwil ansoddol ymysg cynulleidfaoedd** *ee edrych ar farn cynulleidfaoedd ynghylch i ba raddau mae cynnwys y BBC yn unigryw* | Mae'n rhoi golwg fanylach ar ganfyddiad cynulleidfaoedd o gynnwys y BBC wrth gymharu â darparwyr eraill. | Pob un | Ad hoc |
| Ffactorau Cyd-destunol | **Cymryd risgiau creadigol** *ee gwybodaeth gan y BBC ynghylch sut maen nhw wedi cymell creadigrwydd a chymryd risgiau* | Gwybodaeth ansoddol gan y BBC ynghylch sut maen nhw wedi cyflawni'r diben hwn. | Pob un | Blynyddol |
| | **Safbwyntiau ansoddol y diwydiant** | Arwydd adolygiad gan gymheiriaid o greadigrwydd, ansawdd a natur unigryw allbwn y BBC. | Pob un | Blynyddol |

## Diben 4: Gwledydd a rhanbarthau'r DU

A6.6 Yn y maes hwn o'n fframwaith mesur perfformiad rydyn ni'n cynnig edrych ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu cynhyrchu ym mhob gwlad/rhanbarth a chynnwys y gwledydd/rhanbarthau gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a chynnwys arall, ar draws teledu, radio ac ar-lein.

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Teledu/Radio/ ar-lein | Amlder y dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| Argaeledd | **Oriau'r rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau**<br>*ee oriau'r cynnwys chwaraeon ar gyfer gwylwyr yng Nghymru* | Faint o gynnwys sy'n cael ei wneud a'i amrywiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a chynnwys arall. | Teledu a radio | Blynyddol |
| | **Oriau rhaglenni rhwydwaith gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a gynhyrchwyd ym mhob gwlad/rhanbarth**<br>ee cyfran y cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon | Faint o gynnwys, a'i amrywiaeth, a gafodd ei wneud y tu allan i Lundain ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. | Pob un | Blynyddol |
| | **Gwariant ar raglenni rhwydwaith gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a gynhyrchwyd ym mhob gwlad/rhanbarth**<br>*ee cyfran y gwariant rhwydwaith yn yr Alban* | Y buddsoddiad gan y BBC mewn ystod eang o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i Lundain. | Pob un | Blynyddol |
| | **Gwariant ar allbwn gwreiddiol o'r gwledydd sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau**<br>ee gwariant ar gynnwys newyddion ar gyfer gwylwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau | Ansawdd cynnwys y BBC ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda gwariant uchel yn brocsi ar gyfer ansawdd uchel. | Pob un | Blynyddol |
| Defnyddio | **Cyrhaeddiad gwasanaethau'r BBC**<br>ee cyfran yr oedolion yn yr Alban sy'n gwylio 'Reporting Scotland' | I ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn defnyddio cynnwys y BBC i'r gwledydd fesul gwlad. | Pob un | Blynyddol |
| | **Munudau a gafodd eu gwylio fesul gwlad**<br>*ee yr amser cyfartalog yr oedd pobl yng Nghymru yn gwrando ar BBC Radio Cymru neu BBC Radio Wales* | ymgysylltu â'r BBC ymysg cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. | Pob un | Blynyddol |
| Effaith | **Ymchwil meintiol ymysg cynulleidfaoedd**<br>*ee gofyn i gynulleidfaoedd yn y gwledydd i ba raddau maen nhw'n teimlo bod y BBC yn eu gwasanaethu* | I ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn y gwledydd yn teimlo bod cynnwys gwledydd y BBC yn eu gwasanaethu'n dda, a sut maen nhw'n teimlo y mae'r BBC ar draws y DU yn portreadu eu Gwlad eu hunain. | Pob un | Blynyddol |
| | **Ymchwil ansoddol ymysg cynulleidfaoedd**<br>*ee gofyn i gynulleidfaoedd am sut maen nhw'n meddwl mae'r BBC wedi codi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol drwy ei allbwn* | Archwilion ansoddol safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch i ba raddau maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwasanaethu, eu cynrychioli a'u portreadu'n dda. | Pob un | Ad hoc |
| | **Safbwyntiau arbenigol ynghylch darpariaeth, cyflenwi ac effaith cynnwys gwledydd y BBC** | Safbwyntiau gan randdeiliaid allanol. | Pob un | Ad hoc |
| Ffactorau cyd-destunol | **Asesu effaith y BBC ar yr economi greadigol** | Gwybodaeth am effaith y BBC ar yr economi greadigol. | Pob un | Ad hoc |

## Diben 4: Amrywiaeth

A6.7 Yn y maes hwn o'n fframwaith perfformiad rydyn ni'n cynnig trafod pob genre. Rydyn ni'n bwriadu cynnal dadansoddiad ar gyfer oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol, pan fydd hynny'n ymarferol;

| Mesur perfformiad | Enghraifft o'r metreg | Beth mae'n ei ddweud wrthym | Teledu/Radio/Ar-lein | Amlder y dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| **Argaeledd** | **Dadansoddiad o'r cynnwys** *ee astudiaethau achos sy'n edrych ar gynrychiolaeth ar y sgrin ac ar yr awyr* | I ba raddau y mae grwpiau gwahanol yn y DU yn ymddangos ar y sgrin ac ar yr awyr. | Pob un | Ad hoc |
| **Defnyddio** | **Cyrhaeddiad i wasanaethau'r BBC** *ee lefelau defnyddio gwasanaethau ar-lein y BBC ymysg grwpiau cynulleidfa gwahanol* | I ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn defnyddio'r BBC fel dangosydd ynghylch a ydy cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu gan y BBC. | Pob un | Blynyddol |
| | **Munudau sy'n cael eu defnyddio fesul grŵp amrywiaeth** *ee amser gwrando cyfartalog ar wasanaethau radio'r BBC fesul grŵp oed* | Ymgysylltiad â'r BBC ymysg cynulleidfaoedd gwahanol fel dangosydd o i ba raddau y mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol. | Pob un | Blynyddol |
| | **Proffil cynulleidfa** *ee cyfran chynulleidfaoedd BAME o gynulleidfaoedd teledu'r BBC* | I ba raddau y mae cynulleidfaoedd gwahanol yn defnyddio'r BBC fel cyfran o gyfanswm cynulleidfa'r BBC. Dangosydd ynghylch a ydy cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu gan y BBC. | Pob un | Blynyddol |
| **Effaith** | **Ymchwil meintiol ymysg cynulleidfaoedd** *ee gofyn i gynulleidfaoedd sut mae'r BBC wedi codi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau a safbwyntiau gwahanol* | I ba raddau mae cynulleidfaoedd gwahanol yn teimlo eu bod yn cael eu gwasanaethu/cynrychioli/portreadu'n dda gan y BBC. | Pob un | Blynyddol |
| | **Ymchwil ansoddol ymysg cynulleidfaoedd** *ee gofyn i gynulleidfaoedd i ba raddau maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu portreadu gan y BBC* | Archwilion ansoddol safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch i ba raddau maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwasanaethu, eu cynrychioli a'u portreadu'n dda. | Pob un | Ad hoc |
| **Ffactorau cyd-destunol** | **Safbwyntiau ansoddol y diwydiant** | Arwydd drwy adolygiad gan gymheiriaid o i ba raddau y mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol. | Pob un | Blynyddol |

Atodiad 7

# Fframwaith gweithredu: gweithdrefnau arfaethedig ac ystyriaethau ar gyfer gosod a diwygio'r mesurau perfformiad

## Cyflwyniad

A7.1 O dan y Siarter Brenhinol[90] a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC (y "**Cytundeb**") a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016, caiff Ofcom bennu mesurau (ar ben y rheini a bennir gan y BBC) mae Ofcom yn credu sy'n briodol i asesu llwyddiant y BBC o ran cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus[91] fel y nodir yn y Siarter Brenhinol[92] a'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC (y **"Cytundeb**") a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016.[93]

A7.2 Mae'r ddogfen hon yn rhan o Fframwaith Gweithredu'r BBC. Mae'n nodi sut bydd Ofcom yn gosod ac yn diwygio'r mesurau perfformiad a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid eu dilyn.[94]

## Sut bydd Ofcom yn gosod ac yn diwygio mesurau perfformiad

A7.3 Wrth osod a diwygio mesurau perfformiad, bydd Ofcom yn defnyddio'r fframwaith cyfreithiol perthnasol.

A7.4 Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol sydd wedi cael ei chreu gan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

A7.5 Daw pŵer Ofcom i reoleiddio'r BBC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, sy'n datgan er mwyn rheoleiddio'r BBC y bydd gennym bwerau a dyletswyddau a roddir i ni gan neu dan y Siarter a'r Cytundeb[95]. Mae ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i arfer ein swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC[96]. Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom yn cynnwys ei brif ddyletswydd sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn

---

[90] Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "**Siarter**"), sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement
[91] Erthygl 46(4) o'r Siarter; a Chymal 14(1) o'r Cytundeb.

[92] Y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig' (y "**Siarter**"), sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement
[93] Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter.

[94] Fel sy'n ofynnol o dan Gymal 15(3) y Cytundeb

[95] Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[96] Erthygl 45(1) o'r Siarter.

ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol[97].

A7.6 Mae dyletswyddau adran 3 Ofcom hefyd yn cynnwys gofyniad ar Ofcom i ystyried, ym mhob achos, yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau[98].

A7.7 Mae Erthygl 45(2) o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom ystyried, wrth gynnal ei swyddogaethau, i'r canlynol fel sy'n ymddangos i ni sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau:

7.7.1 amcan y BBC sef cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus;

7.7.2 pa mor ddymunol ydy diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig;

7.7.3 y gofyniad i'r BBC gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y Siarter, gan gynnwys eu dyletswyddau cyffredinol.

A7.8 Mae Erthygl 46 o'r Siarter. (Prif swyddogaethau Ofcom) yn pennu y caiff Ofcom benderfynu ar fesurau (ar ben y rheini sy'n cael eu pennu gan y BBC o dan erthygl 20(3)(d) (prif swyddogaethau'r Bwrdd)) mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU wrth gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus[99].

A7.9 Mae Erthygl 20(3)(d) o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Fwrdd y BBC sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus drwy, yn benodol, osod fframwaith er mwyn asesu perfformiad y BBC wrth iddo gyflawni ei strategaethau a'i gylch gwaith creadigol, a dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb, gan gynnwys mesurau perfformiad (a thargedau ar gyfer y mesurau hynny pan fo'n briodol) i asesu perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus).

A7.10 Wrth lunio mesurau perfformiad sy'n ychwanegol i'r rheini a fydd yn cael eu llunio gan y BBC, bydd Ofcom yn ystyried y mesurau perfformiad sydd wedi cael eu llunio gan y BBC.

## Gweithdrefn

A7.11 Cyn penderfynu ar bob mesur perfformiad, rhaid i BBC ac Ofcom ill dau ymgynghori â'i gilydd ac â unrhyw un maen nhw'n meddwl sy'n briodol[100].

---

[97] Adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[98] Adran 3(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[99] Erthygl 46(4) o'r Siarter.

[100] Cymal 14(3) y Cytundeb.

A7.12 Pan fydd Ofcom yn ymgynghori ar osod neu ddiwygio mesurau perfformiad, bydd Ofcom yn gwneud hynny gan gydymffurfio â'i Egwyddorion Ymgynghori.[101] Yn benodol, bydd Ofcom yn glir ynghylch pwy mae'n ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A7.13 Bydd Ofcom yn caniatáu cyfnod rhesymol i bobl gyflwyno ymatebion i ymgynghoriad. Bydd Ofcom yn asesu'r hyn sy'n rhesymol yng ngoleuni natur ac arwyddocâd y cynnig, gan ystyried ei Egwyddorion Ymgynghori.

A7.14 Os bydd Ofcom yn credu bod angen rhagor o wybodaeth arno cyn penderfynu a ddylid gosod neu ddiwygio mesurau perfformiad, boed hynny gan y BBC neu gan berson arall, bydd Ofcom yn gofyn am yr wybodaeth honno cyn gwneud penderfyniad. Mae'r Siarter yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Siarter a'r Cytundeb.[102]

A7.15 Bydd Ofcom yn penderfynu ar fesurau perfformiad ar ôl ystyried yr holl safbwyntiau a gwybodaeth a fydd wedi cael eu rhoi. Bydd Ofcom yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad ar ei wefan.

A7.16 Efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gasglu gwybodaeth o'r fath fel mae Ofcom yn credu sy'n angenrheidiol ar gyfer y mesurau perfformiad[103].

A7.17 Rhaid i'r BBC ac Ofcom gyhoeddi'r mesurau perfformiad o leiaf bob blwyddyn a thystiolaeth am berfformiad yn erbyn y mesurau hynny[104]. Bydd Ofcom wedyn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei wefan.

---

[101] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/how-will-ofcom-consult

[102] Erthygl 47 o'r Siarter.

[103] Cymal 14(4) y Cytundeb.

[104] Cymal 14(5) y Cytundeb.

## Atodiad 8

# Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Cyflwyniad

A8.1 Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn asesu effaith bosibl ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac ymarferol ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.[105] Rydyn ni'n cyfeirio at grwpiau o bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn fel "**grwpiau cydraddoldeb**".

A8.2 Rydyn ni'n cyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn edrych ar effaith bosibl ein polisi arfaethedig ar bobl, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ni waeth beth ydy eu cefndir a'u hunaniaeth.

A8.3 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A8.4 Fel rhan o'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb rydyn ni wedi sgrinio ein dulliau gweithredu polisi ar gyfer gosod trwydded weithredu'r BBC, a'r mesurau byddwn ni'n eu defnyddio i asesu perfformiad y BBC. Mae hi'n bwysig nodi nad yw'r sgrinio hwn yn berthnasol i allbwn rhaglenni'r BBC.

## Nodau ein hymgynghoriad

A8.5 Mae'r ymgynghoriad yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno cyfres o declynnau perfformiad a fydd yn cynnwys: trwydded weithredu; fframwaith mesur perfformiad; adolygiadau ac adroddiadau blynyddol (rhai cyfnodol ac ad hoc). Rydyn ni'n credu y bydd sicrhau bod cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn cael eu cyflawni drwy'r drefn drwyddedu hon yn dod â manteision i ddefnyddwyr yn sgil allbwn y BBC yn gyffredinol, ac yn enwedig grwpiau cydraddoldeb.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A8.6 Mae'r genhadaeth a diben cyhoeddus pedwar a nodir yn Siarter y BBC yn cynnwys y gofynion i'r BBC "wasanaethu pob cynulleidfa", ac "adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau a drwy wneud hynny, cynrychioli a phortreadu bywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw yn gywir ac yn ddilys, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a'r safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas". Caiff hyn ei adlewyrchu yn y drwydded weithredu arfaethedig a'r

---

[105]Fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

mesurau perfformiad, ac yn amlwg mae'n berthnasol i'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

A8.7 Roedd y gofyniad i'r BBC "wasanaethu pob cynulleidfa" yn ystyriaeth allweddol wrth ddylunio'r drwydded weithredu. Yr achos felly yw y byddai'r amodau trwydded arfaethedig yn berthnasol i'r grwpiau cydraddoldeb. Fodd bynnag, ffocws amrywiaeth y pedwerydd diben cyhoeddus sy'n golygu bod yr amodau trwydded arfaethedig yn y maes hwn yn arbennig o berthnasol i grwpiau cydraddoldeb. Wrth ystyried bod y drwydded arfaethedig yn mynnu bod y BBC yn gweithio i wella'r amrywiaeth sy'n cael ei darparu ganddo ar sgrin ac ar yr awyr, ac y bydd ein fframweithiau mesur perfformiad hefyd yn cynnwys metrigau allweddol yn y maes hwn, rydyn ni'n credu y byddai'r dull gweithredu trwyddedu fel y manylir yn y ddogfen ymgynghori yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau amrywiaeth canlynol:

8.7.1 grwpiau yn ôl oed - gan gynnwys y rheini sy'n teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli ar y sgrin ac ar yr awyr - menywod hŷn, menywod iau a dynion iau ar hyn o bryd;

8.7.2 menywod;

8.7.3 pobl anabl;

8.7.4 pobl sydd wedi ailbennu rhywedd;

8.7.5 cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;

8.7.6 pobl sy'n ystyried bod ganddynt grefydd benodol; a

8.7.7 pobl sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

A8.8 Rydyn ni'n crynhoi isod yr amodau arfaethedig rydyn ni'n credu a fyddai'n arbennig o berthnasol i'r grwpiau cydraddoldeb hyn.

A8.9 Mae amodau 2.78 - 2.81 y drwydded wedi cael eu dylunio i sicrhau bod y BBC yn dangos sut mae'n: darparu amrywiaeth; mesur y ddarpariaeth hon; ac yn rhoi sylw i'r meysydd amrywiaeth a nodwyd sy'n cael eu tangyflawni. Dylai'r rhain arwain at effaith gadarnhaol i'r holl grwpiau cydraddoldeb a nodir uchod. Mae'r amodau'n rhoi sylw i'r canlynol:

8.9.1 yr amod adrodd blynyddol sy'n mynnu bod y BBC yn dangos sut mae wedi cydymffurfio â'r gofyniad i wasanaethau cyhoeddus yn y DU gynrychioli, adlewyrchu a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU i gyd (pum gofyniad);

8.9.2 amodau sy'n mynnu bod y BBC yn adrodd yn flynyddol ar ei fesurau ar fodlonrwydd cynulleidfaoedd ar draws cymunedau amrywiol y DU, gan gynnwys y camau y mae'r BBC wedi'u cymryd i geisio gwella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg unrhyw grwpiau sy'n cael eu tan wasanaethu y mae wedi'u nodi (dau amod yn gynnwys pum gofyniad); a

8.9.3 y cynnwys mae'r BBC yn ei greu. Amod sy'n mynnu ei bod yn rhaid i'r BBC gytuno ar god ymarfer amrywiaeth gydag Ofcom sy'n helpu i sicrhau bod ei

gynnwys gyda'i gilydd yn cynrychioli'n gywir, portreadu'n ddilys ac adlewyrchu'r DU i gyd.[106]

A8.10 Mae'r gyfres hon o amodau wedi cael eu dylunio i helpu i sicrhau bod cynnwys yn cael ei ddarparu ar gyfer cymunedau amrywiol y DU i gyd yn ogystal â helpu i wella cydbwysedd eu cynrychiolaeth a'u portread ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Rydyn ni hefyd yn credu y bydd ymdrechion yn y maes hwn gan y BBC yn debyg o godi safonau amrywiaeth ar draws darlledu yn y DU. O'r herwydd rydyn ni'n credu y dylai'r amodau hyn arwain at amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol i'r grwpiau cydraddoldeb sydd wedi cael eu nodi uchod.

A8.11 Mae yna nifer o amodau trwydded rydyn ni'n meddwl sydd yn arbennig o berthnasol i grwpiau cydraddoldeb penodol a ddylai hefyd ddarparu effeithiau cadarnhaol.

A8.12 Er enghraifft, mae yna dri gofyniad trwydded newyddion radio ar gyfer BBC Radio 1xtra a BBC Asian Network sydd wedi'u dylunio i helpu i gyrraedd a gwasanaethu cynulleidfaoedd Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gydag allbwn newyddion. Mewn perthynas â BBC 1Xtra, rhaid i'r BBC sicrhau: i) nad yw'r amser sy'n cael ei neilltuo i raglenni newyddion yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener yn llai nag awr a'i fod yn cynnwys o leiaf dau fwletin estynedig; a ii) ei fod yn darparu bwletinau rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnos. Mewn perthynas â BBC Asian Network, rhaid i'r BBC sicrhau bod yr amser sy'n cael ei ddyrannu i newyddion a materion cyfoes bob wythnos yn ddim llai na 24 awr.

A8.13 Yn ôl y dystiolaeth dydy'r BBC ddim wedi gwneud cystal yn y gorffennol o ran gwasanaethu pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig gydag allbwn newyddion.[107] Dylai'r cynnig i gadw'r amodau presennol ar BBC Radio 1 Xtra a BBC Asian Network barhau i greu effaith gadarnhaol i wrandawyr o grwpiau cydraddoldeb y nodwyd ei bod yn anodd eu cyrraedd gyda chynnwys newyddion. Dros amser, dylai'r fframwaith mesur perfformiad roi cipolwg ar a fyddai'r amodau amrywiaeth ehangach sydd wedi'u cynnig ar gyfer y drwydded yn gwella lefelau bodlonrwydd ymhellach ymysg grwpiau cydraddoldeb anodd eu cyrraedd gydag allbwn newyddion a maes o law darparu effaith gadarnhaol well.

A8.14 Mae yna chwech o ofynion trwydded sydd wedi cael eu dylunio yn benodol i sicrhau bod plant 0-12 oed yn cael eu gwasanaethu gyda newyddion, drama a chynnwys ffeithiol sydd wedi cael ei ddylunio ar eu cyfer, gan gynnwys nifer sylfaenol o oriau o gynnwys newydd bob blwyddyn. Mewn perthynas â CBeebies, rhaid i'r BBC sicrhau: i) ym mhob blwyddyn ei fod yn darparu cynnwys mewn amrywiaeth o genres sy'n cefnogi plant cyn oed ysgol yn eu dysgu; a ii) ym mhob blwyddyn galendr ni ddylai'r amser a ddyrannir i ddarlledu cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig fod yn llai na 100 awr. Mewn perthynas â CBBC, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau: i) ym mhob blwyddyn ni ddylai'r amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer drama (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu) fod yn ddim llai na 1,000 awr; a ii) ni ddylai'r amser sy'n cael ei ddyrannu i raglenni ffeithiol fod yn llai na 675 awr (at

---

[107] Adolygiad Gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC: Newyddion a Materion Cyfoes Rhwydwaith y BBC, 2014, http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/news_current_affairs/news_current_affairs.pdf

ddibenion y gofyniad hwn, mae “rhaglenni ffeithiol” yn cynnwys ailddarllediadau a rhaglenni sy’n cael eu prynu); v) mae’n dangos rhaglenni newyddion ar gyfnodau drwy gydol y dydd; vi) ym mhob blwyddyn ni ddylai’r amser sy’n cael ei ddyrannu i newyddion fod yn ddim llai na 85 awr; a vii) ym mhob blwyddyn galendr ni ddylai’r amser sy’n cael ei ddyrannu i gynyrchiadau gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig fod yn ddim llai na 400 awr.

A8.15 Mewn tirwedd darlledu lle’r BBC ydy'r unig fuddsoddwr bron mewn rhaglenni plant newydd yn y DU, mae’r effeithiau cadarnhaol i blant sy’n defnyddio cynnwys CBeebies a/neu CBBC yn cynnwys gwarant o ddarpariaeth o amrywiaeth o raglenni o ansawdd uchel ar gyfer defnyddwyr ifanc sy’n cynnwys newyddion a nifer sylfaenol o oriau o allbwn newyddion.

A8.16 Yn ychwanegol at y drwydded weithredu bydd Ofcom hefyd yn cyflwyno fframwaith mesur perfformiad. Rydyn ni’n cynnig cynnwys amrywiaeth o fetrigau yn y fframwaith (a fydd yn ategu data mesur y BBC) er mwyn cyfrannu at ein hasesiad o berfformiad gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU o ran cyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus.[108] Gall y data a fydd yn deillio o hyd nodi lle gallai fod angen amodau rheoleiddio ychwanegol yn y dyfodol.

A8.17 Y prif fesurau sydd wedi’u cynnwys yn y fframwaith perfformiad arfaethedig ydy argaeledd, defnyddio, effaith a ffactorau cyd-destunol. Wrth asesu perfformiad y BBC mewn perthynas ag amrywiaeth, caiff y dadansoddiad ei gynnal yn ôl oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd- gymdeithasol. Mae Atodiad 6 yn rhoi enghreifftiau o’r math o fetrigau y gall Ofcom eu defnyddio.

A8.18 Rydyn ni'n credu y dylai effaith ein fframwaith mesur hefyd fod yn gadarnhaol ar gyfer grwpiau cydraddoldeb. Y rheswm am hyn yw mai un o’i brif ddibenion ydy asesu - a thrwy hynny wella - perfformiad y BBC o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethau cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU.

## Gogledd Iwerddon

A8.19 Wrth lunio’r Drwydded Weithredu, mae Ofcom wedi cynnig dyletswyddau ar y BBC i gynhyrchu ystod o raglenni ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr yng Ngogledd Iwerddon, a chynhyrchu rhaglenni yng Ngogledd Iwerddon a fydd yn cael eu darlledu ar draws y DU. Rydyn ni wedi cynnig cynyddu’r lefelau darparu sylfaenol sy’n ystyried lefelau allbwn y BBC ar hyn o bryd. Ar y sail honno, nid ydym yn credu y bydd y dull gweithredu polisi hwn yn cael effaith niweidiol ar unrhyw rai o gategorïau cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

---

[108] Wrth osod ac wrth ddiwygio’r drwydded weithredu, mae’r Siarter yn nodi bod ein rôl ni wedi’i chyfyngu i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Yn ymarferol, nid yw’r BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus drwy Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU: “adlewyrchu’r DU, ei diwylliant a’i gwerthoedd i’r byd”. Fodd bynnag, wrth gynnal ein hadolygiadau cyfnodol rhaid i ni ystyried perfformiad y World Service o ran cyfrannu at gyflawni’r Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus. O dan Gymal 33 o’r Siarter, mae’r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn gyfrifol am osod mesurau perfformiad ar gyfer y World Service. Rydyn ni’n bwriadu defnyddio’r mesurau perfformiad hwn, ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol a gawn gan y BBC, i gyflawni’r cyfrifoldeb hwn.

A8.20 Mae ein dull gweithredu o ran dal y BBC i gyfrif yn seiliedig ar sail gadarn o dystiolaeth, gan ddefnyddio data ac ymchwil y BBC, yn ogystal â thystiolaeth a fydd wedi cael ei chasglu'n annibynnol gan Ofcom ei hun. Bydd yr ymchwil hwn yn cynnwys samplau cynrychioladol o Ogledd Iwerddon, gan sicrhau bod llais y gynulleidfa yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei glywed. Nid ydym yn credu y bydd ein dull gweithredu o ran mesur perfformiad y BBC yn cael effaith niweidiol ar unrhyw rai o gategorïau cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mewn gwirionedd, fel sy'n cael ei ddisgrifio'n gynharach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rydyn ni'n credu y dylai effaith ein fframwaith mesur fod yn gadarnhaol ar gyfer grwpiau cydraddoldeb.

A8.21 Felly ein casgliad cychwynnol yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb manylach mewn perthynas â Gogledd Iwerddon ar gyfer y dulliau gweithredu polisi sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon.